**Pwyllgor Diwylliant CC 13-02(P.4a)**

Dyddiad: 27 Mehefin 2002

Amser: 2.00 - 4.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Arolwg Pum Mlynedd

Adroddiad Terfynol Cam II (Drafft) Mehefin 2002


# Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Arolwg Pum Mlynedd


## Adroddiad Terfynol Cam II (Drafft)

### Cynnwys


**1. Crynodeb**

**2. Cyflwyniad**

**3. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd – llywiwyr gweithgareddau'r Llyfrgell**

- **Trosolwg a Thargedau Perfformiad**
- **Gwasanaethau Casglu**
- **Gwasanaethau Cyhoeddus**
- **Cydweithio Proffesiynol**
- **Gwasanaethau Corfforaethol**

**4. Cyraeddiadau Gwasanaeth a chyflwyno blaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**5. Llywodraethu Corfforaethol**

- **Trefniadau Rheolaeth Ariannol a Rheolwrol**
- **Archwilio Mewnol ac Allanol**
- **Asesu Risg**
- **Cynllunio Corfforaethol**
- **Fframwaith Effeithlonrwydd**
- **Natur Agored, Ansawdd a Thrafod Cwynion**
- **Datblygiad Adnoddau Dynol**
- **Diogelwch**

**Atodiadau**

**A. Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth Chwarter 4**

**B. Crynodeb o adroddiad Cam 1**

**C. Termau cyfeiriadol**

## 1. Crynodeb

1. Mae’r crynodeb hwn yn cwmpasu Cam II o arolwg pum mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Roedd y cam cyntaf yn cwmpasu materion strwythurol ynglþn â’r galw am y gwasanaethau ddarperir gan y Llyfrgell, y fframwaith cyfundrefnol ar gyfer eu cyflwyno ac opsiynau strategol ar gyfer newid. Roedd hefyd yn cwmpasu arolwg ar lefel uchel a materion cyllido allweddol.

2. Mae’r adroddiad hwn yn cwmpasu cyraeddiadau strategol y Llyfrgell , ei effeithiolrwydd wrth gyfrannu at goliau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei llwyddiannau wrth gwrdd â thargedau ac wrth ddatblygu strategaethau a chynlluniau clir. Mae hefyd yn edrych ar ymatebolrwydd y Llyfrgell i ddefnyddwyr a phriodoldeb ei threfniadau adrodd gyda’r Cynulliad Cenedlaethol.

3. Yn ychwanegol at hyn mae’r adroddiad hwn yn archwilio cyfres o faterion Llywodraethu Corfforaethol i ateb y cwestiynau a amlinellir ym mharagraff 2.2.

4. Mae Rhan I yn cynnwys dadansoddiad byr o’r adroddiad blaenorol ar y Llyfrgell, dyddiedig Medi 1993, ac mae’n darganfod fod y rhan fwyaf o’i argymhellion wedi eu gwireddu. Mae’r meysydd o sialens barhaol i’r Llyfrgell gafodd eu nodi yn yr adroddiad blaenorol wedi eu cysylltu â’r arolwg presennol.
5. Casgliad cyffredinol yr adroddiad yw fod y Llyfrgell yn gwneud cynnydd da, gan ei bod wedi ymgymryd ag agenda arwyddocaol o newid mewn amrywiaeth o feysydd. Mae nifer o newidiadau, megis yr ail-drefnu, yn gynlluniau cymharol ddiweddar a dim ond nawr mae rhai o’r mentrau yn dechrau symud o’r modd "arbrofol" i’r "cynhyrchu". O dan y fath amgylchiadau nid yw’n syndod fod nifer sylweddol o gyfleon yn bodoli i wella ymhellach ac i gydlynu’r amrywiaeth eang o weithgareddau mae’r Llyfrgell wedi ymgymryd â nhw.
6. Yn rhan 4 mae’r adroddiad yn dod i’r casgliad fod y Llyfrgell wedi cyflawni’r amcanion penodol a nodwyd ac a osodwyd iddi. Mae hefyd wedi gwneud cynnydd arwyddocaol gyda’r amcanion sydd heb eu nodi. Rydym hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod nifer o’r gweithgareddau mae’r Llyfrgell yn ymgymryd â nhw yn mynnu amser a buddsoddiad seilwaith i sicrhau canlyniadau a’i bod yn bwysig bod yn realistig ynglþn â’r terfynau amser sy’n bosibl eu cwrdd.
7. Un o’r prif themâu yn ein hargymhellion yw’r defnydd gwell y gellir ei wneud o’r broses gynllunio. Mae cynlluniau a gynhyrchir gan y Llyfrgell yn glir iawn eu nodau strategol a’u cyfeiriad. Mae’r rhan fwyaf o’r gwelliannau a awgrymir wedi eu hanelu at gwmpasu’n well yr amrywiaeth o weithgareddau sy’n cael eu datblygu, gan gynnwys defnyddio amrywiaeth ehangach o staff yn fwy effeithiol mewn cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a chynnig fframwaith gwell i hyrwyddo asesu’r cysylltiadau a’r blaenoriaethau rhwng gweithgareddau newydd â’r rhai sydd yn bodoli eisoes. O ran natur, mae angen edrych ar weithgareddau’r Llyfrgell yn gyfannol ac mae nifer o’r gweithgareddau ar yr agenda newydd yn ddiwerth heb gorff o waith cefnogol digon dinod. Mae’n hawdd, fel y dangosa’r adroddiad, i strategaethau mewn gwahanol rannau o’r Llyfrgell droi’n gamweithredol ac rydyn ni’n gweld cryfhau’r cynllunio yn ffordd o osgoi hyn. Hoffem bwysleisio fod y problemau’n codi’n bennaf o ganlyniad i’r llwyddiant mewn ymestyn gwasanaeth defnyddiol.
8. Yr ail brif thema yw sicrhau fod yr amrywiaeth eang o brosiectau i gyd yn symud tuag at eu gôl. Yr ateb i hyn yw rheolaeth glos o bwyntiau datblygu o bwys - cyfeirir yn arbennig at yr Adran Gyfrifiaduron. Rydym hefyd yn argymell fod digon o hyblygrwydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun staffio i ganiatáu i bwysau gael ei ysgafnhau os bydd trafferthion yn codi.
9. Mae’r drydedd thema yn ymwneud â chydweithio proffesiynol effeithiol. Wrth alw am adolygiad o’r amser gaiff ei dreulio’n gweithio ar fentrau cydweithredol a defnydd mwy effeithiol o ddulliau cynadledda fideo nid ydym yn dadlau dros leihau gweithio cydweithredol. Yn hytrach rydyn ni’n galw ar y Llyfrgell, ar adeg lle mae galw potensial diddiwedd am weithgareddau sy’n estyn allan i’r gymuned, i sicrhau ei bod yn arwain amser y staff i’r cyfeiriadau mwyaf defnyddiol ac yn y ffyrdd mwyaf effeithiol. Fel isgynnyrch fe fydd yr ymdriniaeth hyn bron yn sicr o gael yr effaith o gyflwyno’r datblygiad staff mwyaf effeithiol.

### Llywodraeth Gorfforaethol

10. Mae Rhan 5 o’r adroddiad hwn yn delio â materion llywodraeth gorfforaethol. Cafwyd bod y trefniadau cyllid a threfniadau cyfarwyddo rheolwyr yn foddhaol a bod adroddiadau archwilio yn gyffredinol gefnogol - dim ond argymhelliad 35 gafodd ei ffurfio yn dilyn adolygiad o’r adroddiadau hyn. Mae’r Llyfrgell ymhell ar y blaen yn ei asesiad o risg ac mae nawr mewn sefyllfa i ystyried beth yw’r ffordd orau i ymgorffori’r dadansoddiad yma i mewn i waith y Pwyllgor Archwilio.
11. Mae gwaith wedi dechrau ar greu fframwaith effeithlonrwydd Gwerth Gorau ac argymhelliad yr adroddiad hwn yw fod mecanwaith proses Y Cynllun Corfforaethol yn cael ei ddefnyddio fel mecanwaith i nodi cyfleon i greu gwelliannau mewn gwasanaeth ac effeithlonrwydd. Mae llwyth gwaith y Llyfrgell,

diolch i ymdrechion rheolwyr a staff, yn cynyddu ac mae’n bwysig fod y cynnydd hwn yn cael ei gynnwys yn y modd mwyaf effeithiol.

12. Ar faterion natur agored, ansawdd a delio â chwynion rydyn ni wedi cynhyrchu cyfres o argymhellion. Mae nifer o’r rhain yn ymwneud â materion a nodwyd eisoes fel rhai sy’n gofyn am weithredu ar ran y Llyfrgell ac maen nhw wedi eu cynnwys mewn cynlluniau gwahanol adrannau. Crëwyd cryn argraff arnom gan y ffaith nad oedd unrhyw natur amddiffynnol ar ran y Llyfrgell wrth ddelio â’r materion hyn ac hefyd gan y penderfyniad i fanteisio ar ddatblygiadau newydd, tebyg i’r Profiad i Ymwelwyr, er mwyn mynd â nifer o faterion yn eu blaenau.

13. Mae datblygu adnoddau dynol yn fater pwysig i’r Llyfrgell. Dim ond yn ddiweddar mae swyddogaeth personél wedi ei gyflenwi’n llawn ac erbyn hyn mae cyfle real iawn i ddefnyddio hyfforddiant fel sail i sefydlu gwell dealltwriaeth o brosesau’r Llyfrgell ac fel hyrwyddwr datblygiad staff a gweithio effeithiol. Trwy gydweithio proffesiynol mae cyfleon arwyddocaol yn bodoli i ddefnyddio elfennau o arfer da ac i ddatblygu sgiliau rheoli staff.

14. Ar fater diogelwch cawsom bod y Llyfrgell yn ragweithiol iawn. Yn dilyn lladradau ddigwyddodd ym 1999 gweithredwyd nifer o fesurau i godi gwell ymwybyddiaeth ymhlith y staff, i gynyddu lefelau diogelwch corfforol a threfnu briffiau rheolaidd oddi gan arbenigwyr diogelwch, ynghþd â a mwy o gydweithrediad gyda sefydliadau eraill sy’n cynnal archifau. Gall cael cydbwysedd rhwng diogelwch a system hawdd ei thrin fod yn dipyn o her. Arweiniodd ein harolygiad o’r maes yma at un argymhelliad yn unig, sef rhif 54.

## MATERION AR GYFER Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

15. Yn ystod yr arolwg o adroddiad Cam 1 gan y Pwyllgor Diwylliant gwnaed cais ar i ni dynnu sylw at y mannau y gallai’r Cynulliad Cenedlaethol roi cymorth i’r Llyfrgell i gwrdd â’i hamcanion. Yn y crynodeb o argymhellion isod dangosir yr argymhellion sy’n effeithio ar y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn llythrennau italaidd o dan argymhellion 5, 34, 35 a 49. Mae’r tri olaf o’r rhain yn ymwneud â diwygio’r Memorandwm Ariannol i ddileu anghysonderau a gostwng y lefel o gyfeirio trafodion, ac â ystyried creu cronfa arbennig ar gyfer hyfforddi trwy’r iaith Gymraeg ar gyfer recriwtiaid di-Gymraeg. Mae’r mater cyntaf yn ymwneud â phwyntiau presenoldeb - mae hwn yn faes rydyn ni’n credu y byddai’r Llyfrgell ar ei hennill o ffurfio barn gliriach yngln â sut y gallai strategaeth pwyntiau presenoldeb gael ei ddatblygu yn y ffordd orau gyda sefydliadau Cymreig eraill yn y sector cyhoeddus.

16. Yn ychwanegol at y fath argymhellion penodol mae’n amlwg y byddai o fudd i’r Llyfrgell petai’r Cynulliad Cenedlaethol yn defnyddio’i swyddogaethau da a’i ddylanwad i leihau, lle’n bosibl, ei natur ynysig. Mae agwedd gorfforol ac ymarferol i’r fath gymorth:

- Mae ansawdd y ffordd i Aberystwyth yn enwog - er enghraifft, disgrifiodd un adroddiad diweddar yr A44 rhwng Llangurig ac Aberystwyth fel un o’r ffyrdd mwyaf peryglusyng Nghymru.
- Mae prinder llinellau dolen ar y cyswllt rheilffordd i Aberystwyth yn golygu na all yr orsaf drafod mwy nag un trên yn cyrraedd bob dwy awr.
- Yng nghyd-destun datblygu rhychwant o ddeunydd wedi ei ddigideiddio ar gyfer gwaith allanol, mae’n holl-bwysig fod y datblygiad o rwydweithiau band llydan (i safon ISDN2 o leiaf) yn cael eu cefnogi yng Nghymru. Ar hyn o bryd dydy’r fath rwydweithiau ddim wedi eu datblygu’n llawn yn enwedig yn ardaloedd mwyaf gwledig Cymru.

17. Yn olaf, pan yn ystyried datblygiad y Llyfrgell, mae’n bwysig i ystyried natur gyfannol y gwasanaethau a ddarperir gan y Llyfrgell a’r angen i gael cydbwysedd rhwng gwasanaethau yn y llinell flaen yn ogystal â’r rhai sy’n estyn allan i’r gymuned a’r gweithgareddau sy’n eu cynnal . Yn yr arolwg rydyn ni wedi ei gynnal mae’r Llyfrgell yn ymddangos fel sefydliad sydd â gweithrediadau cadwriaethol sydd heb eu hariannu’n sylweddol (mae’r gadwraeth ataliol yn cael ei

ariannu'n llwyr o gyllid preifat). Mae'r un peth yn wir am gyllid sydd ar gael ar gyfer prynu eitemau o'i gymharu â sefydliadau eraill. Yn y pen draw yr unig wybodaeth sydd ar gael, trwy unrhyw fodd, yw'r hyn gaiff ei dderbyn a'i ddisgrifio'n iawn ar gyfer hygyrchedd.


## CYDNABYDDIAETH

18. Yn rhan 1 rydym am ddiolch i'r Llyfrgellydd a staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru am eu cymorth parhaus a'u parodrwydd i fod mor agored wrth gynnal yr arolwg hwn ynghyd â'r sefydliadau hynny sydd wedi bod yn ddiflino wrth ddarparu gwybodaeth, yn enwedig:

- Y Llyfrgell Brydeinig
- Llyfrgell Genedlaethol yr Alban
- Llyfrgell Genedlaethol Canada
- Llyfrgelloedd Gwasanaethau Celf Cyngor Sir Dorset

19. Arweiniwyd tîm arolygu GCL gan Robin Moulson. Cafwyd mewnbwn sylweddol gan Judy Cave a Lyn Morgan. Darparodd Sandra Prail fewnbwn ar faterion cyfreithiol.


20. Gwelir isod grynodeb o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ar Cam II. Mae Crynodeb Gweithredol Rhan 1 a chrynodeb o argymhellion rhan 1 yn gysylltiedig yn Atodiad B.

## Argymhellion Allweddol

**1. Dylai'r Llyfrgell adolygu ei agwedd, yn enwedig at y broses tymor hirach Cynllunio Corfforaethol, er mwyn pwysleisio'r elfennau canlynol**: (5.20)

- Mwy o ran i'r rheolwyr gweithredol yn y broses
- Mwy o bwyslais ar edrych ar ffyrdd eraill o weithio (petai ond i'w gwrthod).
- Cysylltiadau cryfach â chynllunio gwaith cyfeintiol sy'n caniatau mesur targedau.
- Dealltwriaeth gwell o weithgareddau gorfodol a dewisol.
- Mwy o herio'r gweithgareddau presennol (agwedd mwy ar sail sero).

**2. Mae strwythur yr Adran Casgliadau yn cael ei adolygu'n wrthrychol yng ngolau anghenion y gwasanaeth.** (3.10):

**3. Dylai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ynghþd â Rheolwr yr Adran Gyfrifiadurol adrodd yn rheolaidd i'r Tîm Rheoli Hþn ar effaith y blaenoriaethau gaiff eu harddel gan yr adran hon i sicrhau fod y rhaglen orau yn cael ei gwireddu yn gyffredinol** (3.108)

**4. Dylai'r Llyfrgell werthuso pob math o gydweithio proffesiynol, gwaith allanol a gwaith allan yn y gymuned er mwyn canfod y gweithgareddau mwyaf cost-effeithiol yn nhermau arweiniad proffesiynol, marchnata a chynyddu hygyrchedd y casgliadau.** (3.97)

**5. Creu pwyntiau presenoldeb** (4.15)

- Dylai’r Llyfrgell geisio nodi pwyntiau presenoldeb mewn adeiladau grwpiau targed allanol wedi ei seilio ar becyn wedi ei gynllunio o bresenoldeb rhyngrwyd, hyfforddi a chefnogaeth copi caled, defnyddiau sain a gweledol. Targedau tebygol yw ysgolion, llyfrgelloedd cyhoeddus, colegau AB a chanolfannau cymunedol mawr. Dylai cynlluniau i estyn allan i’r fath sefydliadau, ynghyd â chynlluniau ar gyfer adnoddau angenrheidiol fod yn rhan o’r cynlluniau corfforaethol ar gyfer y dyfodol.

- *Byddai o gymorth petai’r Adran Diwylliant, trwy’r sianeli cyfathrebu arferol, yn rhoi gwell arweiniad i’r Llyfrgell ar y ffyrdd maen nhw’n ei gredu y gallai strategaeth y pwyntiau presenoldeb gael ei ddatblygu’n ddefnyddiol mewn cydweithrediad â rhannau eraill o’r sector cyhoeddus yng Nghymru.*

**6. Amnewid a datblygu systemau cymorth:**

- Dylai’r cynllunio ar gyfer amnewid systemau catalogio gael ei osod ar sail ffurfiol trwy sefydlu grwp prosiect ar fyrder gyda chylch gorchwyl fyddai â tharged graddfa amser wedi eu hadlewyrchu’n glir oddi fewn i’r broses gynllunio corfforaethol. (3.109)
- Bod pob rhan o’r Llyfrgell yn derbyn hyfforddiant sylfaenol i ddeall y rôl draws-adrannol a chyfrifoldebau’r adran systemau. (3.59)

7. **Bod y Llyfrgell yn ystyried hyfforddi mewn modd mwy cyfannol,**

i gynnwys, er enghraifft, dysgu trwy weithredu, mentora, presenoldeb mewn cynadleddau a seminarau. Rydym hefyd yn argymell fod hyn yn cynnwys cyflwyniadau/cadeirio cyfarfodydd, defnyddio portffolio personol, cofnodi’n llawn unrhyw hyfforddiant "mewn swydd" ac ystyried defnyddio secondiadau mewnol. (5.70)

**8. Rheolwyr adnoddau i ddarparu datblygiadau newydd.**

- Bod yna fonitro gofalus o lwyth gwaith yr holl staff a’r gweithgaredd yn ystod yr amserlen cynllunio hollbwysig a gweithredu’r datblygiadau newydd.
- Bod yna gyswllt agos gydag adrannau eraill , er mwyn nodi unrhyw lacrwydd yn y system, a sicrhau y gall staff ychwanegol gael eu hyfforddi’n ddigonol a’u symud i wasanaethau cyhoeddus yn gyflym, petai angen. (3.69)

## Argymhellion Eraill

**9.** Mae'r Llyfrgell yn ystyried datblygu targedau mwy ansoddol ar gyfer y cynllun corfforaethol, i gydfynd â gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus a safonau cenedlaethol. (3.4)

**10.** Mae'r Llyfrgell, mewn cydweithrediad a Llywodraeth Cybulliad Cymru, yn ystyried cyflwyno targedau effeithlonrwydd yn gysylltiedig a chost. (3.5)

**11.** Mae'r Llyfrgell yn ystyried defnyddio offer diagnostig allanol i wella effeithlonrwydd ymhellach. (3.8)

**12.** Mae'r Llyfrgell yn ystyried egwyddorion tynnach, blaenoriaethau a meini prawf caffael ar gyfer y polisi datblygu casgliadau newydd, ond a fyddai'n dal i fod yn gydnaws â thargedau'r Siarter a rhai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac, lle'n addas, yn cynnwys barn atebwyr "Dewis y Dyfodol" a'r ymarferiad adolygu ymgynghorol yn y polsi. Dylai'r Llyfrgell hefyd nodi amgyffrediadau anghywir ar ran defnyddwyr fel y gellir eu hateb trwy ddarparu gwybodaeth yn well. (3.15)

**13.** Mae'r Llyfrgell yn ystyried mabwysiadu polisi mwy cadarn ynglþn â gwaredu neu dynnu eitemau oddiar y rhestrau derbynion. (3.19)

**14.** Mae'r Llyfrgell yn parhau i roi pwysau ar yr asiant hawlfraint i gyflawni ei dyletswyddau ac, ynghþd â llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill, yn ystyried trefniadau eraill os na cheir gwelliant. (3.27)

**15.**(3.44)

- Mae'r adran ddata yn ymgymryd â dadansoddiad manwl o gost buddiant ei weithgaredddau. Dylai hyn gynnwys treulio amser proffesiynol yn gweithio'n allanol i helpu mudiadau i ad-drefnu eu archifau, a rhoi peth o amser staff newydd i garpio defnyddiau nad sydd eu hangen.
- Dylid rhoi amcangyfrif mewn cynlluniau corfforaethol yn y dyfodol i nodi beth fyddai goblygiadau staffio lleihau gwaith catalogio archifau sydd wedi pentyrru, ar sail synhwyrol, wedi ei flaenoriaethu.

**16.** Bod meini prawf cadwraeth gwrthrychol yn cael eu datblygu a bod goblygiadau adnoddau'n cael eu hasesu. (3.51)

**17.** Bod y Llyfrgell yn adolygu amodau a thelerau'r contract gydag adferwr y gwaith celfyddydol er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am yr arian. (3.52)

**18.** Mae’r Llyfrgell yn gosod blaenoriaethau gwrthrychol ar gyfer rhaglen adolygol newid y catalog. Gall hyn olygu cynnwys mwy o restrau yn hytrach na newid pob eitem unigol. (3.57)

**19.** Mae’r Llyfrgell yn ystyried ffyrdd i wneud mwy o’r casglaiad celfyddydol yn hygyrch i’r cyhoedd. (3.64)

**20.** (3.73)

- Pan fo’r newidiadau i’r ystafelloedd darllen a’r desgiau ymholiadau wedi eu cwblhau, mae’r Llyfrgell i adolygu’r penderfyniad i rannu cyfrifoldebau chwilio am, a rhoi heibio, eitemau y gofynnwyd amdanyn nhw, rhwng gwahanol adrannau
- Pob aelod o staff yn adran y gwasanaethau darllenwyr i dderbyn hyfforddiant i nodi eitemau sydd angen triniaeth gadwriaethol.

**21.** Bod y wefan, er mwyn codi proffil y Llyfrgell, yn datblygu cysylltiadau dwy-ffordd gyda gwefannau eraill, megis rhai’r Amgueddfa Genedlaethol, Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru. (3.74)

**22.** (3.79)

- Mae’r Llyfrgell yn ystyried polisi taliadau’r Llyfrgell Brydeinig er mwyn gweld a fyddai’n addas ar gyfer ei sefyllfa’i hun yn achos ymholiadau sydd yn defnyddio cryn amser staff
- Mae’r Llyfrgell yn ystyried cyflwyno patrymlun ateb er mwyn gwella’r gwasanaeth ymhellach

**23.** Bod y Llyfrgell yn ymgymryd â chynhyrchu dadansoddiad manwl o’r ffactorau gyfrannodd at lwyddiant arddangosfa Owain Glyndðr, er mwyn sicrhau gallu ail adrodd hyn yn y dyfodol. (3.81)

**24.** Bod y Llyfrgell yn adolygu ac yn datblygu ymhellach ei wasanaeth reprograffig, gan gynyddu’r argaeledd ar-lein, gan roi pwyslais ar Gymru a’r diwylliant Cymreig. (3.91)

**25.** (3.96)

- Bod y Llyfrgell yn ymgymryd â gwaith i werthuso'r manteision iddi hi ei hun o aelodaeth o gymaint o grwpiau allanol, gan gynnwys nodi'r aelodau o'r staff mwyaf priodol a sicrhau cyn lleied â phosibl o ddyblygu presenoldeb.
- Bod y Llyfrgell, yn ei chynlluniau ar gyfer strategaeth cyfathrebu, yn cynnwys system i rannu canlyniadau pob cyfarfod allanol yn fwy cyffredinol ymhlith staff. Gallai hyn fod yn gyfraniad sylweddol i ddatblygiad staff.
- Bod y defnydd o gynadledda-fideo yn cael ei annog er mwyn byrhau cyfnodau o absenoldebau o'r adeilad a gwrthbwyso costau teithio.

**26.** Bod sefydlu lleoedd i rai dan hyfforddiant yn cael ei ymestyn i helpu sicrhau bod cyfran o'r staff hyn yn ail-ymuno â'r Llyfrgell ar ol gorffen eu hyfforddiant. Gellid hefyd ystyried cynllun noddi er mwyn cynyddu teyrngarwch a thebygolrwydd dychwelyd. (3.98)

**27.** Mae'r Llyfrgell yn cynllunio i gyfuno gwasanaethau cynnal ar gyfer arolwg gwerth gorau ac, o bosib, fel targed ar gyfer contract ehangach ar gyfer partneriaeth gwasanaethau cynnal. Yr amseru gorau fyddai yn ystod ail hanner 2003 pan fydd union ofynion y Profiad i Ymwelwyr yn dod yn gliriach. (3.103)

**28.** Mae'r Llyfrgell yn dal i gefnogi ariannu ar gyfer cadw'r adeilad gwreiddiol a'r arteffactau. Fel adeilad rhestredig gradd II* bydd yn rhaid cynllunio ar gyfer yr ymrwymiad hwn oddifewn i ragamcaniadau ariannol. (3.106)

**29.** Dylai'r Llyfrgell adolygu ei strategaeth digideiddio er mwyn sicrhau ei fod yn delio â defnyddiau o bwysigrwydd uchel yn nhermau blaenoriaethau hygyrchedd o bell ac yn lleol - dylai'r cysylltiadau fod yn eglur. Dylid nodi unrhyw brosiectau sy'n dal i fod o natur arbrofol. (4.6)

**30.** Dylai'r Llyfrgell egluro'i amcanion ar gyfer ehangu hygyrchedd trwy gyfrwng y we i'w chatalogau a'i blaenoriaethau. Mae cynlluniau cadarn yn bodoli mewn perthynas â setiau arbennig o ddefnyddiau ond byddai arsylwi ar gynnydd yn erbyn golwg gyffredinol yn datguddio targedau mwy gwirioneddol. (4.8)

**31.** (4.9)

- Dylai'r Llyfrgell fonitro'i gwaith, sydd wedi ei ail-flaenoriaethu'n ddiweddar, sy'n ymwneud â diogelwch a rheoli baich ar gyfer hygyrchedd o bell i'r casgliadau sydd wedi eu digido. Gallai hyn gymryd hyd at ddwy flynedd ac felly mae'n fater llwybr critigol.
- Mae angen i'r Llyfrgell barhau i weithio gyda Llyfrgelloedd eraill er mwyn datrys materion hawlfraint a phenderfynu am ba hyd mae'n mynd i ganiatau hygyrchedd o bell i ddim ond defnydd sydd â'i hawlfraint wedi ei glirio. Gwerthfawrogir fod hyn yn fater o gryn sensitifrwydd ac ni ellir ei ddatrys ond mewn cydweithrediad â chyhoeddwyr.

**32.** Dylai grŵp llywio'r Profiad i Ymwelwyr gadw'r setiau o sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect o dan arolygaeth, ac ychwanegu atyn nhw, os oes angen, er mwyn cyflenwi canlyniadau boddhaol. (4.11)

**33.** (4.14)

- Y Llyfrgell i adolygu ei threfniadau rhwydweithio gydag adrannau ymchwil y Brifysgol a Cholegau AB er mwyn cael gwell adborth ar anghenion a gwelliannau posibl.
- Dylai'r arolwg o'r polisi Casgliadau sydd nawr ar droed gael ei ddefnyddio fel cyfle i drafod gyda'r sector addysg uwch beth mae'r Llyfrgell yn bwriadu ei ddarparu ac i roi cyhoeddusrwydd i'r hyn sydd ar gael - mae rhai o'r gofidiau fynegwyd gan ddefnyddwyr wedi eu seilio ar argraffiadau yn hytrach nag ar realaeth. Ni all y Llyfrgell fod yn bopeth i bawb. Mae hwn yn gyfle i egluro beth fydd ar gael a beth fydd ddim ar gael.

**34.** *Dylai'r Memorandwm Ariannol gael ei arolygu a'r geiriau eu haddasu er mwyn caniatau mwy o ryddid mewn buddsoddi cronfeydd preifat (yn unol â rheolau'r Comisiwn Elusennau) tra'n cadw'r cyfyngiadau ar gronfeydd sy'n deillio o'r GMC. (5.4)*

**35.** *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru arolygu'r lefelau o awdurdod sydd wedi eu dirprwyo i'r Llyfrgell o dan y Memorandwm Ariannol yng ngoleuni'r gweithgareddau monitro eraill sydd yn bodoli ac i gymryd chwyddiant i ystyriaeth. (5.5)*

**36.** Dylai trefn newydd archwilio'r rhestr gyflogau gael ei ddogfennu a'i gopio ar y cyfle cyntaf i gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r swyddfa Archwilio Cenedlaethol (5.8)

**37.** Bod y Cyngor yn ystyried cryfhau'r Pwyllgor Archwilio trwy ychwanegu aelod sydd ddim ar y Cyngor ac sydd â phrofiad perthnasol diweddar yn y sector breifat neu gyhoeddus. (5.11)

**38.** (5.21)

- Dylai dogfennau strategol gael eu harchwilio am berthnasedd gyda'i gilydd a gyda chynnwys strategol y cynllun corfforaethol ar sail blynyddol.
- Rydym yn awgrymu bod y strategaethau sydd ddim bellach yn addas i'r sefyllfa bresennol yn cael eu dileu a'u hamnewid gyda datganiad byr o amcanion allweddol nes bod amser ar gael ar gyfer atgyweirio trylwyr ac ystyriaeth gan y Cyngor.
- Rydym yn awgrymu bod datganiadau byrion o strategaeth, wedi eu seilio ar arolwg o'r amgylchedd gweithredol ac amcanion allweddol, yn llawer mwy effeithiol ac yn haws i'w diweddaru a'u rhannu na dogfennau swmpus.

**39.** Dylai'r grwp llywio Gwerth Gorau newydd sicrhau bod pob elfen o weithrediadau'r Llyfrgell wedi eu seilio ar ymgynghori effeithiol gyda defnyddwyr (allanol a mewnol) a herio'r prosesau presennol a'r ffyrdd o weithio fel elfennau allweddol o'r broses gynllunio. Dylid mabwysiadu dangosyddion perfformiad addas er mwyn gwell effeithlonrwydd yn ogystal ag effeithiolrwydd gwasanaeth, er mwyn dangos gweithio effeithiol yn erbyn y cymysgedd cyfnewidiol a chrynswth y gwaith wneir. (5.24)

**40.** Bod y Llyfrgell yn adolygu'r prosesau sydd ynghlwm â hygyrchedd teleffôn er mwyn cynyddu effeithlonrwydd. Gall hyn gynnwys neges wahanol ar beiriant ateb i ymddiheuro am broblemau meddalwedd, a bod y derbynnydd yn nodi trwy enw a rhif estyniad y person mae'r galwr yn ceisio cysylltu ag ef rhag ofn iddynt gael eu datgysylltu yn ystod yr alwad. (5.29)

**41**. Fod cynrychiolwyr pobl ag anableddau yn cael eu gwahodd i ymuno â'r grwp cynllunio ar gyfer y Profiad i Ymwelwyr a'r grwp Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi ei sefydlu i arolygu'r mater, i sicrhau monitro parhaus o ddatblygiadau yng ngoleuni anghenion gwahanol bobl gydag anableddau. Gallai hyn gynnwys cynrychiolwyr o gymdeithasau lleol i'r dall, y byddar a'r rhai ag anableddau corfforol. (5.31)

**42**. Gallai swyddog addysg newydd fod yn gysylltiedig ag ystyried sut y gellid cwrdd ag anghenion pobl gyda sgiliau llythrennedd isel, er enghraifft wrth baratoi labelu'r eitemau gaiff eu harddangos ynghþd â thapiau sain. Byddai tapiau sain hefyd yn helpu i gwrdd ag anghenion pobl sydd â nam ar eu golwg. (5.33)

**43.** Bod y Llyfrgell yn datblygu ymhellach ei safonau gwasanaeth, yn ddelfrydol trwy ymgynghori â defnyddwyr ynglyn â'r hyn sydd yn bwysig iddyn nhw, yn ogystal â mecanwaith ar gyfer monitro a gwerthuso. (5.36)

**44.** Bod y Llyfrgell yn ymgymryd ag arolwg o'i holl lenyddiaeth printiedig ar gyfer ymwelwyr a darllenwyr yn adeilad y Llyfrgell i sicrhau ymdriniaeth gyson ag arddull, cyflwyniad a chywair. Dylid ystyried hefyd anghenion pobl sydd â nam ar eu golwg a'r rhai sydd â sgiliau llythrennedd isel. Byddai 'The Plain English Crystal Mark' yn gyfeirlyfr defnyddiol. (5.41)

**45.** Bod yr arfer o gynnal arolygon aml ymhlith darllennwyr yn cael ei estyn i gynnwys yr ymwelwyr i gyd, yn enwedig pan fydd y Profiad i Ymwelwyr yn agor. (5.42)

**46.** Bod y Llyfrgell yn ystyried ymestyn cyfrifoldebau ei arolwg rheolaidd gynhelir bob pedwar mis, wedi ei seilio ar rai o'r elfennau ymgynghori eraill sydd ar gael. (5.45)

**47.** Bod y Llyfrgell yn ymrwymo i wneud coladiad rheolaidd, dadansoddiad a gwerthusiad o'r holl gwynion, sylwadau ac awgrymiadau. Byddai hyn yn cynnwys y rhai dderbyniwyd trwy ffyrdd amrywiol eraill, er enghraifft, llythyrau o ddiolch oddiwrth darllenwyr am ymateb boddhaol i ymholiadau. Yna gallai'r adroddiadau dilynol gael eu monitro ar gyfer gwelliannau posib i'r gwasanaeth gan y Tîm Rheoli Hþn ac yna gallai'r crynodebau (wedi eu amhersonoli) gael eu bwydo nôl i'r staff. (5.47)

**48.** Bod adolygiad yn cael ei wneud o'r amserau agor yn dilyn sefydlu newidiadau i'r ystafell ddarllen. Dylai hyn gael ei seilio ar adolygiad manwl o ddefnydd yn ogystal â holiaduron darllenwyr. Byddem yn disgwyl i hyn ddigwydd tua diwedd 2002 / dechrau 2003. (5.51)

**49.** (5.62)

- Bod y Llyfrgell yn cynnal cyfweliadau ger yr allanfeydd fel mater o arfer, gan ddilyn fformat wedi ei phennu, gan ddadansoddi'r canlyniadau a'u bwydo nôl i'r Tîm Rheolwyr Hþn.
- Dylai'r Llyfrgell gysylltu â phob ymgeisydd am swydd a wrthododd un ai gyfweliad neu gynnig swydd i ddarganfod y rheswm dros hyn.
- *Bod trefniadau ar gyfer hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg ar gyfer staff newydd yn cael ei hysbysebu'n well er mwyn denu a datblygu staff di-Gymraeg - mae nifer o'r sgiliau angenrheidiol yn arbenigol ac mae angen darparu rhagarweiniad effeithiol ar gyfer y di-Gymraeg. Gallai ariannu'r costau perthnasol fod yn faes lle y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried estyn cymorth i'r Llyfrgell* .

**50.** Bod y Llyfrgell yn ystyried presenoldeb mewn cyfarfodydd allanol yn arf arbennig ar gyfer datblygiad staff, efallai sefydlu system cysgodi. Byddai hyn yn golygu bod aelod iau o'r staff yn mynd yno gydag aelod hþn, er mwyn cefnogi staff newydd i gynrychioli'r Llyfrgell yn allanol, gyda'r bwriad bod yr aelod hþn yn peidio â mynd i'r cyfarfodydd o gwbl ar ôl amser penodedig. Byddai hyn yn datblygu staff iau ac yn rhyddhau amser y staff hþn. (5.64)

| |
|---|
| **51.** (5.68)<br><br>- Bod termau cyfeiriadol cyfrifoldebau hyfforddi'r rheolwyr wedi eu diffinio'n glir o'r dechrau, gyda digon o amser yn cael ei ganiatau ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi staff eraill.<br>- Bod yna gymaint o weithgaredd hyfforddi rhyng-adrannol â phosibl, i leihau rhai o'r rhwystrau honedig rhwng yr adrannau a'r rhannau. |
| **52.** Bod y Llyfrgell yn ystyried hyfforddi ar y cyd gyda mudiadau lleol eraill ar gyfer cyrsiau generig, megis sgiliau rheoli, gofal cwsmeriaid a gwerthuso. (5.71) |
| **53.** Dylai'r Llyfrgell ymchwilio i'r syniad o archwiliadau corff ar hap o'r math gaiff eu defnyddio'n rheolaidd mewn cysylltiad â diogelwch meysydd awyr, os oes angen gellir edrych ar y posibilrwydd o isgontractio'r gwasanaeth neu hyfforddiant staff i fudiad sydd â phrofiad mewn delio â'r mater hwn yn sensitif. (5.82) |

## 2. Cyflwyniad

2.1 Mae'r adrodiad hwn yn edrych ar ail gam Arolwg Pum Mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell ). Roedd Cam I yn delio ag agweddau o'r galw am wasanaethau a pha gyfrwng fyddai'n addas i'w cyflwyno. Mae Cam II yn ymwneud yn fwy â'r ochr cyflenwi effeithlonrwydd strategol ac mae'n ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

- ***Pa rai yw prif lwyddiannau strategol y Llyfrgell ? I ba raddau mae'n cwrdd â'i goliau a pha faterion perfformiad sydd angen rhoi sylw iddyn nhw?***
- ***Pa mor effeithiol yw'r berthynas strategol rhwng y Llyfrgell a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wrth gwrdd ag amcanion strategol, canllawiau a gwerthoedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru?***
- ***Pa mor effeithiol mae cynllunio corfforaethol y Llyfrgell wedi bod wrth ddatblygu cyfeiriad strategol clir, gosod targedau a dosbarthu adnoddau? A yw'r broses gynllunio'n adlewyrchu ymdriniaeth integredig i'w swyddogaethau?***
- ***A yw'r Llyfrgell yn ddigon parod i ymateb i'w phartneriaid a'i chwsmeriaid? A oes ffyrdd i gryfhau perthnasau?***
- ***A yw'r trefniadau adrodd rhwng y Llyfrgell a'r Cynulliad Cenedlaethol yn addas?***

2.2 Yn ychwanegol at hyn mae Rhan II o'r adroddiad yn edrych ar gyfres o faterion Llywodraeth Corfforaethol i ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau hyn:

- ***A yw'r trefniadau presennol yn addas - a oes digon o atebolrwydd i'r cyhoedd?***
- ***A yw'r trefniadau rheoli ariannol a rheolaeth yn ateb gofynion sefydledig?***
- ***A yw adroddiadau'r archwiliad yn magu hyder yn y modd y mae'r Llyfrgell yn cael ei rhedeg? Ydy'r pwyllgor archwilio'n gweithio'n effeithiol?***
- ***A yw'r cyllid ac asedau'n cael eu rheoli'n effeithiol mewn perthynas â gwerthuso polisi ac wrth fynd ar drywydd gwerth-am-arian?***
- ***A yw'r safonau'n cael eu cwrdd wrth drafod caffael, a natur agored trafod cwynion?***
- ***A oes gan y Llyfrgell drefniadau da i fonitro ansawdd ac effeithlonrwydd cyflwyno gwasanaeth?***
- ***A oes hanes da o wella effeithlonrwydd a chynlluniau cadarn ar gyfer y dyfodol?***

### Yr Adroddiad Blaenorol

2.3 Cafodd yr adroddiad hwn ei ragflaenu gan yr Arolwg o Reolaeth Ariannol a Pholisi Llyfrgell Genedlaethol Cymru 1993-94, dyddiedig Medi 1993. Roedd yr adroddiad hwn yn trafod Llyfrgell oedd yn dal i fod wedi ei strwythuro mewn tair adran casgliadau a chafodd ei baratoi ar gyfer y Swyddfa Gymreig. Gwnaed wyth ar hugain o argymhellion. Er fod cryn dipyn wedi newid, mae'n ddefnyddiol dilyn rhai o'r argymhellion hyn i'r pen draw. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi eu gweithredu fel a gynigiwyd, yn enwedig y rhai oedd yn hynod benodol eu natur megis yr arolwg bwysig o'r uned brintio a sefydlu grwp ffocws i brofi'r farchnad.

2.4 Roedd Argymhelliad 8 yn delio ag anghenion hyfforddi staff a neilltuo mwy o adnoddau i hyfforddiant. Mae'r adroddiad hwn yn dadlau bod yr angen i ddatblygu sgiliau yn dal yn bwysig - mae'r aildrefnu'n rhoi mwy o bwyslais ar hyn. Mae'r angen i ddatblygu sgiliau rheolaeth ochr yn ochr â sgiliau proffesiynol yn amlwg. Mae hefyd yn dadlau bod angen i'r Llyfrgell recordio'n effeithiol beth gaiff ei gyflawni mewn perthynas â'r hyfforddi mewn swydd, a thrwy gydweithio gyda thrydydd parti.

2.5 Mae Argymhellion 9-11 yn delio â chynhyrchu incwm. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn gwneud argymhellion arbennig (gweler adroddiad Cam I), ond mae'r rhain wedi eu hanelu at sefydlu sail dealladwy i gynhyrchu incwm, at gynnwys ystyriaeth o incwm yn yr holl gynlluniau ar gyfer y prosiect a gwneud y mwyaf o'r cyfleon i annog rhoddion a chymynroddion. Mae mwy o waith eto i'w wneud i wireddu cyfleon creu incwm (e.e. ar gyfer Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru). Dim ond wedyn y gall targedau incwm credadwy gael eu gosod ar lefel adrannol.

2.6 Mae Argymhelliad 14 yn gofyn i'r Llyfrgell nodi'r sefydliadau hynny yng Nghymru y mae'n rhannu diddordebau cyffredin â nhw, a chryfhau ei chysylltiadau â nhw lle bo angen. Mae'r Llyfrgell wedi cymryd camau breision i'r cyfeiriad yma ac mae i'w chanmol am yr amrywiaeth o gysylltiadau a chydweithio mae wedi eu sefydlu. Er hyn, mae'r angen i godi proffil a gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth cynyddol o gyrff Cymreig, ac yn gynyddol ar lefel trwch y boblogaeth, yn thema barhaus i'r Llyfrgell ac mae hwn yn faes a fydd yn mynnu sylw parhaus.

2.7 Mae Argymhelliad 19 yn annog y Llyfrgell i ddatrys materion marchnata a chysylltiadau cyhoeddus a darparu adnoddau gweithredol. Er yn cydnabod bod adnoddau nawr yn eu lle fel rhan o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'r adroddiad hwn yn dadlau fod mwy y gellir ei wneud mewn cydweithrediad ag eraill. (gweler adroddiad Cam 1).

2.8 Mae argymhellion 24-26 yn dadlau bod angen cryfhau'r prosesau cynllunio yn y Llyfrgell. Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod fod tipyn o waith da wedi ei wneud a bod yr argymhellion cynharach wedi eu cwrdd. Mae hefyd yn dadlau fod yr amser wedi dod i fynd â'r broses datblygu cynllunio gam ymhellach a'i defnyddio fel arf yn y broses o herio'r ddarpariaeth o wasanaethau gwerth gorau.

**CYDNABYDDIAETHAU**

9. Mae'r tîm adolygu yn ddiolchgar i nifer o sefydliadau ddarparodd wybodaeth a gyfrannodd i'r adroddiad hwn.

2.10 Mae diolch arbennig yn ddyledus i:

- Llyfrgell Genedlaethol Canada, wnaeth, yn garedig iawn, e-bostio dogfennau polisi dwyieithrwydd.

Ac i'r sefydliadau canlynol, fu'n barod i rannu dogfennau polisi a rhai eraill, ac a drefnodd i aelod o'r tîm adolygu dalu ymweliad â nhw ac edrych ar eu gwasanaethau:

- Y Llyfrgell Brydeinig
- Llyfrgell Genedlaethol yr Alban

- Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Celf Cyngor Sir Dorset

2.11 Unwaith eto hoffem ddiolch i’r Llyfrgellydd a’i staff am yr help a’r cymorth estynwyd i bob aelod o’n tîm adolygu.

# 3. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd - Gyrrwyr Gweithgaredd Llyfrgell

## GOROLWG A THARGEDAU PERFFORMIAD

3.1 Ar adeg yr ymweliad olaf gan y tîm adolygu, roedd strwythur newydd y Llyfrgell wedi bod yn ei le yn ei gyfanrwydd am tua mis. Roedd yn ymddangos fod unrhyw ofid cynnar ynglþn â’r newidiadau wedi diflannu yn ystod yr amser hwnnw, ac roedd y rhan fwyaf o’r staff yn ymddangos fel petaen nhw’n croesawu’r drefn newydd gyda brwdfrydedd.

3.2 Mae’r Llyfrgell yn gweithio i nifer o dargedau a dangosyddion perfformiad allweddol (DPA), gytunwyd gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, gaiff eu diffinio yng nghynllun corfforaethol y Llyfrgell. Mae’r rhain yn ymdrin â’r swyddogaethau craidd a chefnogol ac mae yna hefyd rai Dangosyddon Perfformiad ddaeth i rym yn 2002-2003. Mae’r rhan fwyaf o’r targedau hyn yn weithredol ac yn feintiol a dydyn nhw ddim yn mesur yn llawn, nac ychwaith yn adlewyrchu, ansawdd gwasanaeth y Llyfrgell.

3.3 Mae gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru wedi dechrau gweithio i Safonau a Monitro Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac, er bod llyfrgelloedd cyhoeddus yn darparu gwasanaeth gwahanol iawn i lyfrgell genedlaethol, mae digon o dir cyffredin ar gyfer cymhariaeth a bod nifer o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a allai gael eu mabwysiadu neu eu haddasu gan y Llyfrgell. Mae’r rhain yn cynnwys:

- cydymffurfio â’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

- targedau ar gyfer boddhau defnyddwyr trwy ddod o hyd i eitemau y gwnaed cais amdanyn nhw, gwybodaeth a chymwynasgarwch staff

- lleiafrif o’r staff â rheolaeth gwybodaeth neu gymwysterau addas eraill pwrpasol i wasanaethu blaenoriathau

3.4 Er mwyn cyflwyno perspectif mwy cyflawn, mae’r tîm adolygu hefyd wedi ystyried gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus, Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Celf Cyngor Sir Dorset (DCCLAS). Fel llyfrgell gyhoeddus, mae’r gwasanaeth hwn dan reolaeth Safonau ac Asesiadau ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus yn Lloegr. Mae gan DCCLAS nifer o enghreifftiau o arfer da, megis ffocws pendant iawn ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, y defnydd o Arolwg Defnyddwyr Llyfrgelloedd Cyhoeddus (PLUS) a dadansoddiad o gwynion o dan gategoriau PLUS

- **Argymhelliad:** Mae’r Llyfrgell yn ystyried datblygu targedau mwy ansoddol ar gyfer y cynllun corfforaethol, er mwyn cydymffurfio â gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus a safonau cenedlaethol.

3.5 Does dim targedau effeithlonrwydd yn uniongyrchol gysylltiedig â chostau yn y cynllun corfforaethol, fel y’i nodir, er enghraifft, gan Lyfrgell Genedlaethol yr Alban.

- **Argymhelliad:** Mae’r Llyfrgell, mewn cydweithrediad a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ystyried cyflwyno targedau effeithlonrwydd wedi eu cysylltu â chost.

3.6 Ochr yn ochr â’r strwythur newydd, mae’r Llyfrgell hefyd wedi bod yn datblygu targedau adrannol penodol a manwl sydd wedi deillio o gynllun cyflawn y Llyfrgell. Mae’r rhain yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer diffinio ac asesu gweithgareddau ym mhob adran, gyda thargedau clir a chyfrifoldebau a graddfa amser wedi eu diffinio. Er hyn, er bod rhai o’r targedau’n glir iawn, megis "rhoi 80% yn ôl ar y silff ymhen diwrnod a’r gweddill ymhen wythnos", mae eraill yn llai penodol, er enghraifft "darparu hyfforddiant amserol ac effeithiol". Fel yn y cynllun corfforaethol, mae’r rhan fwyaf o’r targedau‘n weithredol neu’n feintiol, ac hefyd, ac eithrio rhai yn yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, dim ond ychydig o dargedau meintiol sydd i’w cael.

3.7 Er hynny, mae’n amlwg fod cryn amser ac ymdrech wedi eu rhoi i’r broses o gyfieithu cenhadaeth a swyddogaethau crai’r Llyfrgell i dargedau ystyrlon ar gyfer aelodau unigol o’r staff. Mae’r staff yn gweld fod y system newydd yn rhannu’r gwaith mewn ffordd decach ar draws adrannau a rhannau, neu, fel y dywedodd un person, "mae’r diflastod yn gyfartal nawr".

8. Mae’r Llyfrgell yn cydnabod, er i gryn gynnydd gael ei wneud, bod angen mwy o waith i wella effeithlonrwydd drwy’r sefydliad cyfan. Mae amrywiaeth o offer diagnostig ar gael, er enghraifft yr ‘Aide Memoir for Evaluating Learning Resources’ gan yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd. Mae’r rhannau am argaeledd a hygyrchedd, ynghþd â’r gefnogaeth i ddefnyddwyr, o’i gysylltu ag arolygon defnyddwyr, yn helpu i nodi gwelliannau posib i effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaeth.

- **Argymhelliad:** Bod y Llyfrgell yn ystyried defnyddio offer diagnostig allanol i wella effeithlonrwydd ymhellach.

3.9 Er yn rhy gynnar i asesu effeithlonrwydd yr ymdriniaeth newydd yma o osod targedau, mae’n darparu fframwaith weithio da a chlir ar lefelau corfforaethol, adrannol, rhannol ac unigol ac mae’n debygol o arwain at effeithlonrwydd cynyddol ac effeithiolrwydd yn y dyfodol.

## CASGLIADAU

3.10 Yn dilyn ailstrwythuro’r Llyfrgell yn Ionawr 2002 yr Adran Gwasanaethau Casglu yw’r fwyaf yn y Llyfrgell. Mae ynddi 132 o staff, tua hanner y nifer sydd yn y Llyfrgell gyfan. O dan y cyfarwyddwr mae yna saith cyfarwyddwr cynorthwyol, bob un yn rhedeg adran, ynghyd â nifer o is-rannau o dan y rhain. Mae hyn yn ymddangos yn anghytbwys o’i gymharu ag adrannau eraill.

- **Argymhelliad:** bod strwythur yr Adran Casgliadau yn cael ei adolygu‘n wrthrychol yng ngolau anghenion gwasanaeth.

### Polisi datblygu casgliadau

11. Mae’r polisi datblygu casgliadau ar hyn o bryd o dan arolwg wedi ei seilio ar gynlluniau gyflwynwyd i’r Cyngor gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Casglu ac a gymeradwywyd ar 22 Chwefror 2002. Mae’r polisiau datblygu casgliadau pesennol yn adlewyrchu hen strwythur adrannau’r Llyfrgell, gyda pholisiau casglu unigol ar gyfer llyfrau printiedig, llawysgrifau a chofnodion, a sain a delweddau symudol. Tra bod y polisiau i gyd wedi eu seilio ar Siarter y Llyfrgell a bod y prif bwyslais ar ddefnyddiau’n ymwneud â’r ieithoedd a’r bobl Geltaidd, Cymru a Hanes Cymru, iaith a chelfyddyd, mae yna ddehongliadau gwhanol braidd o beth mae hyn yn ei olygu’n ymarferol.

    3.12 Mae’r polisi llyfrau printiedig yn cynnwys defnyddiau wedi eu seilio ar brint, ac mae’n rhoi blaenoriaeth i eitemau o werth i addysg uwch ac i ymchwil llenyddol a gwyddonol. Mae’r polisi llawysgrifau a chofnodion yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddiau yn deillio o Gymru, ac mae’n ceisio adlewyrchu pob agwedd o orffennol a phresennol Cymru heb gynrychioli unrhyw safbwynt hanesyddol, sectyddol nac unrhyw safbwynt arall. Mae’r polisi hwn yn argymell, cyn cwblhau caffael, fod ystyriaeth yn cael roi i gadwraeth ac oblygiadau dilynnol unrhyw adnoddau. Mae’r polisi sain a delweddau symudol yn rhoi pwyslais ar gasgliad cynhwysfawr o ddefnyddiau sain a delweddau sydd wedi eu cyhoeddi yn ymwneud â Chymru neu sydd â chyfraniad gan ddynion neu ferched o Gymru, a’r caffael dewisol o ddefnyddiau heb eu cyhoeddi.

13. Yn gyffredinol mae’r polisiau datblygu casgliadau presennol yn atgyfnerthu polisi‘r Llyfrgell o beidio â rhoi benthyg defnyddiau, gan nad yw’n cael mwy nag un copi, heblaw am achos defnyddiau printiedig yn yr iaith Cymraeg ac o ddiddordeb Cymreig.

1. Mae’r atebion o’r arolwg wnaed ar raddfa eang ym 1999, "Dewis y Dyfodol" yn nodi bod rhai atebwyr yn meddwl bod yna dueddiad tuag at y dyniaethau, heb ddigon o bwyslais ar gyhoeddiadau gwyddonol cyfredol. Mae hyn yn cael ei adleisio yn yr ymgynghoriad gynhaliwyd yn ystod yr arolwg hwn.

3.15 Mae cynlluniau ar y gweill i greu un polisi casglu cyffredinol, yn cwmpasu’r casgliadau i gyd, o fewn y 12 mis nesaf.

- **Argymhelliad:** bod y Llyfrgell yn ystyried tynhau ei hegwyddorion, ei blaenoriaethau a’i meini prawf caffael ar gyfer y polisi datblygu casgliadau newydd, ond yn dal i gwrdd â thargedau’r Siarter a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac, lle’n addas, yn cynnwys safbwyntiau atebwyr "Dewis y Dyfodol" yn y polisi ac yn ymarfer ymgynghori’r arolwg hwn. Dylai’r Llyfrgell hefyd nodi amgyffrediadau anghywir ar ran defnyddwyr fel y gall rhain gael eu gwrthbwyso trwy ddarparu gwybodaeth yn well.

3.16 Mae gan y Llyfrgell ddaliadau o tua 4.5m o lyfrau, 4m o ddogfennau archifau, 40,000 cyfrol o lawysgrifau, 1m o fapiau, 750,000 o ffotograffau, 200,000 awr o recordiadau fideo, 3m troedfedd o ffilm a 150,000 awr o recordiadau sain. Mae’n derbyn tua 200,000 eitem yn flynyddol. Er bod digon o ofod i gadw pethau ar hyn o bryd, gyda’r raddfa bresennol o dðf mae hyn yn anhebygol o fod yn wir yn y dyfodol tymor hir.

3.17 Fel mae un ddogfen gan y Llyfrgell yn ei ddweud, "Rydym yn daflwyr nerfus, hyd yn oed pan mae’n dod yn fater o eitemau rydym yn dewis peidio â’u derbyn". Mae hyn yn ddealladwy, o gofio’r hysbysrwydd gwrthnwynebus gafodd y Llyfrgell Brydeinig pan benderfynodd gael gwared â’i chasgliad o rifynnau o’r Los Angeles Times (nid yw hyn yn golygu fod y LlB yn anghywir).

3.18 Mae’r Llyfrgell yn mabwysiadu agwedd ragweithiol at ddewis eitemau mae am eu derbyn trwy gymynrodd, rhodd neu gyfraniad, trwy gadw’r hawl i wrthod y fath eitemau.

3.19 Yn y gorffennol roedd y Llyfrgell yn edrych ymlaen ymhell yn ei chynllunio ac roedd hyn yn sicrhau, trwy raglenni adeiladu anferth, fod yna storfa o faint digonol. Ond, gyda’r holl gaffaeliadau ddaw i’w rhan ar hyn o bryd, efallai y bydd hyn yn newid yn y tymor hirach. Bwriadwyd i’r storio ychwanegol grewyd tua 5 mlynedd yn ol i bara ugain mlynedd. Er gwaethaf symud eitemau oherwydd y Profiad i Ymwelwyr, nid yw’n debygol y bydd storio yn datblygu i fod yn fater o bwys yn ystod y deng mlynedd nesaf. Mater fydd yn debygol o fod yn allweddol fydd unrhyw symud tuag at gynyddu adnau cyfreithiol mewn ffurf electronig - gallai hyn gel cryn effaith ar leihau’r gofynion am ofod storio. Mae amseru’r newid hwn yn ansicr iawn.

- **Argymhelliad:** bod y Llyfrgell yn ystyried mabwysiadu polisi mwy cadarn ar gael gwared ar weithiau a pheidio derbyn eitemau.

**Caffaeliadau**

3.20 Mae’r adran caffaeliadau’n gyfrifol am ddewis yr eitemau ar gyfer y casgliadau i gyd, yn cynnwys deunydd print a defnyddiau eraill. Mae hyn yn cynnwys caffael trwy brynu, dewis eitemau i’w derbyn o gyfraniadau, hawlio eitemau trwy adneuon cyfreithiol a gwirfoddol, cofnodi pob eitem a dewis eitemau i’w gwrthod. Mae’r adran hon yn gyfrifol am gaffael llawysgrifau, archifau a lluniau yn ogystal â defnyddiau wedi eu hargraffu, yn cynnwys mapiau.

3.21 Fel un o’r chwe llyfrgell adnau cyfreithiol ym Mhrydain, mae gan y Llyfrgell yr hawl i gael copi rhad o bob cyhoeddiad printiedig ym Mhrydain ac Iwerddon.

Oherwydd pwysau diffyg gofod ar bob llyfrgell adnau cyfreithiol, mae yna gytundeb rhyngddyn nhw i sicrhau casglu ar y cyd trwy’r Pwyllgor Sefydlog ar Adnau Cyfreithiol. (SCOLD).

3.22 Yn ogystal â’i chyfrifoldebau dros adnau cyfreithiol o dan y Ddeddf Hawlfraint, mae gan y Llyfrgell gyfrifoldeb cenedlaethol dros gasglu a chadw’r casgliad mwyaf cynhwysfawr ar Ynysoedd Prydain o ddeunydd printiedig gyhoeddwyd yn y DU ac Iwerddon yn y Gymraeg ac sy’n berthnasol i Gymru.

3.23 Trwy SCOLD, mae’r Llyfrgell yn gyfrifol am gaslu a chynnal a chadw popeth gaiff ei argraffu yng Nghymru, ac mae’n amcangyfrif bod y casgliadau yma’n agos at fod yn gynhwysfawr. Mae hefyd yn sicrhau amcangyfrif o 90% o’r holl argraffion yn y DU a 50% o’r cyhoeddiadau rhifynnol. Mae’r rhan fwyaf o’r deunydd yma’n cael ei gasglu trwy asiant hawlfraint yn gweithio ar ran y llyfrgelloedd adnau cyfreithiol, gyda dim ond 10% yn cyrraedd yn uniongyrchol oddiwrth y cyhoeddwyr. Derbynir tua 1,500 o lyfrau a 2,300 o gyfnodolion yn wythnosol. Gyda fformatau eraill, mae cyfanswm o bron 200,000 o eitemau yn cael eu derbyn yn flynyddol. Mae adnau cyfreithiol yn cyfrif am tua 90% o’r derbyniadau presennol, a thua 70% o’r casgliad cyfan.

3.24 Does dim deddfwriaeth gyfredol sy’n cwmpasu adnau cyfreithiol defnyddiau sydd heb fod yn brintiedig. Mae’r Llyfrgell yn gweithio gyda llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill ar adneuo’r defnyddiau hyn wirfoddol, yn enwedig y rhai mewn fformadau electronig.

3.25 Mae’r llyfrgelloedd adnau cyfreithiol yn gweithio’n agos ar gydlynu a chytuno ar eu derbyniadau o dan y drefn adnau cyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys cytundebau manwl ar 25 o wahanol gategoriau o ddefnyddiau printiedig, megis papurau arholiad, llenyddiaeth ar gyfer twristiaid, posteri a chylchlythyrau cymunedol. Mae gan y llyfrgell hefyd bolisi clir ynglþn â’r hyn mae’n ei gasglu yn y categoriau hyn, ac hefyd ynglþn â chyfnodolion hamdden.

3.26 Mae’r eitemau a dderbynir o dan adnau cyfreithiol yn ffurfio’r rhan fwyaf o’r caffaeliadau, ac mae’r doreth yma’n creu llwyth o waith yn nhermau trefniadau derbyn a chatalogio. Mae yna fonitro allanol o’r eitemau sydd wedi eu catalogio o dan y Rhaglen Rhannu Catalogio Llyfrgelloedd Hawlfraint (CLSCP). Mae’r Llyfrgell yn derbyn adroddiadau misol a blynyddol ar ei berfformiad yn nhermau cyraeddiad yn erbyn y targed o gynhwysiad o 100%, ac hefyd canrannau gaiff eu cyrraedd oddifewn i gyfnod targed o 40 diwrnod. Yn 2000-2001 llwyddodd y Llyfrgell i gyrraedd cynhwysiad o 95% (y trydydd o chwe llyfrgell), o’r rhain llwyddodd 69% (pedwerydd) i gyrraedd hyn o fewn yr amserlen. Mae’r cynhyrchion hyn hefyd yn debygol o gael eu monitro ymhellach yn fewnol.

3.27 Mae gan y Llyfrgell dargedau cyfaint yn ymwneud â’r rhaglen catalogio wedi ei rhannu â’r Catalogio Adnoddau Ar Lein ar y Cyd, rhaglen y Ganolfan Llyfrgell Cyfrifiadurol Arline (OCLC). Er hynny, mae llwyddiant yn y cyntaf yn ddibynnol ar dderbyn defnydd o’r Asantaeth Llyfrgell Hawlfraint. Ddwy flyneddyn ol penododd llyfrgellau SCOLD asiant hawlfraint newydd. Mae nifer o broblemau wedi codi ers hynny yn cynnwys y ffaith fod peth deunydd heb ei hawlio, a bod symiau amrywiol o ddefnyddiau’n cyrraedd yn wythnosol. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at broblemau mewn cynllunio gwaith i staff, a’r methiant i gyrraedd targedau oherwydd amgychiadau y tu allan i reolaeth y Llyfrgell. Mae’r Llyfrgell yn ceisio ateb ymarferol i’r problemau yma trwy gyfathrebu rheolaidd. Mae’r Llyfrgellydd ar hyn o bryd yn cadeirio grwp rheolaeth yr adran hawlfraint ar ran y pum llyfrgell hawlfraint.

- **Argymhelliad:** bod y Llyfrgell yn dal i roi pwysau ar yr asiant hawlfraint i gyflawni ei chyfrifoldebau ac, gyda’r llyfrgelloeddd hawlfraint eraill, mae’n ystyried trefniadau eraill os na welir gwelliant.

3.28 Ni cheir pentyrrau o dderbyniadau adnau cyfreithiol, oherwydd bod targedau mewnol ac allanol wedi eu gosod yn y fath fodd fel na ddylai pentyrrau fel hyn ffurfio. Ond mae ôl-groniadau yn bodoli o bob math o bethau sydd eto i’w derbyn yn ffurfiol. Mae’r rhain yn cynnwys eitemau sydd wedi eu derbyn trwy gyfraniadau yn y gorffennol, cyn yr amser pan fabwysiadodd y Llyfrgell bolisi mwy dewisol ar eitemau sydd wedi eu caffael yn y modd hwn. Mae’r eitemau hyn wedi eu sganio er mwyn adnabod unrhyw weithiau cynnar neu eitemau o wledydd eraill. Credir bod y rhan fwyaf o weddill yr eitemau sydd heb eu derbyn yn ffurfiol yn ddyblygiadau ac mae amser staff, gyda chyfiawnhad, wedi ei gyfeirio at waith sy’n haeddu blaenoriaeth uwch.

**Data llyfryddiaethol**

3.29 Mae adran y data llyfryddiaethol yn gyfrifol am weithgareddau catalogio'r Llyfrgell gyfan. Mae'n catalogio deunydd i safonau MARC 21, y lefel uchaf o ddisgrifiadau llyfryddiaethol rhyngwladaol. Mae hyn yn cynnwys monograffau (llyfrau), cyfnodolion, mapiau, deunydd aml-gyfrwng a cherddoriaeth. Yr eithriad i hyn yw Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru sydd, oherwydd ei ariannu, yn gweithio'n annibynnol.

3.30 Un mater lle nad oes gan y Llyfrgell unrhyw reolaeth yw fod y Llyfrgell Brydeinig (LlB) hyd yma heb newid trosodd i MARC 21. Felly mae angen i'r Llyfrgell, ynghyd â llyfrgelloedd eraill SCOLD, gatalogio'i ddeunydd adnau cyfreithiol i MARC y DU. Rhagwelir y bydd y LlB mewn sefyllfa i fabwysiadu MARC 21 ymhen 18 mis. Er y gallai'r newid hwn fod yn gostus i'r Llyfrgell yn nhermau adnoddau, nid felly mae pethau oherwydd, fel un o'i fesurau effeithlonrwydd, mae'r Llyfrgell wedi awtomeiddio'r newid trwy ei system GEAC.

3.31 Mae nifer o lyfrgelloedd cyhoeddus a rhai prifysgolion sydd ddim bellach yn cyflogi staff catalogio sy'n gwymwys, ac maen nhw'n mewnforio cofnodion o lyfrgelloedd SCOLD i'w catalogau eu hunain. Felly mae'r Llyfrgell yn darparu gwasanaeth profesiynol rhad i unrhyw lyfrgell sy'n dymuno defnyddio'r catalog cofnodion electroneg. Mae hwn yn wasanaeth hynod werthfawr i lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru.

3.32 Prif flaenoriaeth yr adran yw sicrhau fod y targedau ar gyfer Rhaglen Rhannu Catalogio Llyfrgelloedd Hawlfraint (CLSCP) yn cael eu cwrdd, fel a drafodwyd yn fanwl o dan **Caffaeliadau** (3.26 – 3.27) uchod. Yn ganmoladwy, mae'r Llyfrgell yn mynd i symud staff o weithgareddau catalogio eraill os oes angen er mwyn cwrdd â'i ymrwymiadau i'r llyfrgelloedd eraill sy'n ymwneud â'r CLSCP

33. Mae'r adran yn gyfrifol am gatalogio llyfryddiaeth Cymru, gyda thargedau ar gyfer datblygu Catalogio Adoddau Arlein ar y Cyd (CORC), y cynllun mae cam cyntaf prosiect 'Cymru ar y We' yn gysylltiedig ag ef.

    3.34 Ers yr ail-strwythuro, mae tîm newydd wedi cael ei bennu i fod yn gyfrifol am gatalogio'r ôl-groniadau - mae peth ohono, fel yr archifau, yn dyddio nôl i sefydlu'r Llyfrgell ym 1907. Amcangyfrifir bod ôl-groniad y ffuglen yn unig yn cynnwys100,000 o deitlau, neu 20 mlynedd o waith i un person. Yn y gorffennol nid oedd ffuglen yn cael ei gatalogio, er ei fod wedi ei drefnu ar y silffoedd mewn modd y gellid cael gafael ar unrhyw deitl yn hawdd. Mae pwysigrwydd cynyddol ffuglen i haneswyr cymdeithasol wedi bod yn elfen yn y penderfyniad i fynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn. Un o brif weithgareddau'r staff iau yw edrych ar y nifer o gatalogau electronig a chorfforol sydd ar gael ar gyfer cofnodion catalogau sy'n bodoli eisoes, er mwyn osgoi dyblygu ymdrech gan staff cymwys.

35. Mae gan yr adran gyfrifoldeb hefyd dros hyfforddi a chynnal safonau catalogio, yn fewnol yn ogystal ag allanol. Er enghraifft, cyfraniad y Llyfrgell i'r cynllun Prosiect Cymru 1801-1919 oedd neilltuo 15 diwrnod i hyfforddi staff o sefydliadau eraill oedd yn cymryd rhan, yn ogystal â darparu a chynnal y bâs data o gofnodion catalog.

    3.36 Ar gyfer gwaith CLSCP mae'r adran yn gweithio tuag at dargedau allanol a gytunwyd gyda llyfrgelloedd SCOLD, gan anelu i gynhyrchu 5,000 o gofnodion ar gyfer y gwaith hwn yn unig, wedi ei seilio ar darged catalogwr profiadol o 10 cofnod y dydd, sy'n gyfartal â 2,000 cofnod y flwyddyn.

    3.37 Mae'r adran yn gweithio'n agos â'r adrannau caffael a chynnal (sy'n dosbarthu marciau a lleoliadau ar y silffoedd) er mwyn sicrhau bod y deunydd yn cyrraedd y darllenwyr mor fuan â phosibl ar ol cyrraedd tr adeilad am y tro cyntaf.

**Data archifo**

38. Mae gan y Llyfrgell gasgliad mwy o ran maint a mwy cynhwysfawr na llyfrgelloedd cenedlaethol eraill. Mae'n catalogio archifau gan ddefnyddio ISAD(G) disgrifiwr aml-lefel o archifau, yn hytrach na'u trin fel llawysgrifau unigol, fel y gwna'r Llyfrgell Brydeinig.

3.39 Mae catalogio deunydd archifo yn fater cenedlaethol, gydag ôl-groniad cenedlaethol o 30% o'r holl ddefnyddiau ar hyn o bryd heb eu catalogio. Mae gan y

Llyfrgell ei hun ôl-groniad o 8,000 blwch o ddefnyddiau. Er hynny, does dim ôl-groniad o ddefnyddiau mwy diweddar, gafwyd ar ôl 1981 , ac mae'r Llyfrgell yn gweithio at darged o gatalogio 100% o'r holl ddefnyddiau dderbynnir yn gyfredol oddi fewn i 12 mis o'u derbyn.

3.40 Mater o bwys gyda defnyddiau archifo yw bod rhai unigolion a sefydliadau yn rhoi cryn dipyn o ddefnydd i'r Llyfrgell sydd heb ei ddidoli hyd yn oed, weithiau, llond fan o fagiau bin du. Caiff hyn gryn effaith ar lwyth gwaith yr adran archifo, yn nhermau peidio â gwybod pryd y gall y fath ddeunydd gyrraedd, yn ogystal â sicrhau defnyddio staff drud, proffesiynol, yn effeithiol. Fel y dywedodd un person, defnydd gwael o amser person proffesiynol yw gofyn iddo ddidoli derbynebion siopa a ffotocopiau dyblygedig o bapurau stadau ac ewyllysiau.

3.41 Mae'r Llyfrgell yn amcangyfrif fod 75% o amser archifydd proffesiynol yn cael ei dreulio'n trefnu defnyddiau (didoli, penderfynu beth i'w gadw a thaflu dyblygiadau), a sefydlu rheolaeth dros yr archifau, tra mai dim ond 25% sy'n cael ei dreulio'n allweddellu disgrifiadau o'r defnyddiau. Ym 1992 amcangyfrifodd y Llyfrgell y byddai'n cymryd 80 blwyddyn person i gatalogio'r ôl-groniad oedd yn bodoli'r bryd hynny.

3.42 Mewn ymdrech i wrthbwyso'r broblem hon, mae'r adran, yn ddiweddar, wedi mabwysiadu agwedd mwy rhagweithiol. Yn 2001 cynhaliodd staff yr archif seminar, gan wahodd amrywiaeth o sefydliadau, megis yr Eglwys yng Nghymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, a phartîon gwleidyddol. Y bwriad oedd dod i gytundeb gyda'r gwahanol sefydliadau ynglynþn â sut y bydden nhw'n cynnal y cofnodion a'r defnyddiau archifo fyddai, yn y pen draw, yn ffeindio'i ffordd i mewn i gasgliadau'r Llyfrgell. Mae'r adran hefyd wedi dechrau gweithio gyda dau sefydliad y flwyddyn er mwyn eu helpu i drefnu eu casgliadau a datblygu polisïau rheolaeth grymus o'r cofnodion (gan gynnwys polisi ar waredu defnyddiau).

3.43 Er bod y mentrau hyn yn ganmoladwy, maen nhw'n ddibwys yn nhermau amser, ac roedd yn amlwg adeg yr arolwg bod cryn dipyn o ddefnyddiau yn dal i gael eu rhoi i'r Llyfrgell.

3.44 Mae'n aneglur beth yw'r gymhareb orau bosibl rhwng yr amser dreulir yn archifo casgliadau ac yn hyfforddi sefydliadau allanol mewn rheolaeth archifau.

- **Argymhellion:**
  - bod yr adran data archifo yn ymgymryd â gwneud dadansoddiad cost a budd o'i gweithgareddau. Dylai hyn gynnwys treulio amser proffesiynol yn gweithio'n allanol i roi cymorth i sefydliadau i resymoli eu harchifau, ac amser y staff iau yn cael ei dreulio'n chwalu defnyddiau diangen.
  - Dylid rhoi amcangyfrif yng nghynlluniau corfforaethol y dyfodol o oblygiadau staffio lleihau ôl-groniadau catalogau archif ar sail synhwyrol, wedi ei blaenoriaethu.

**Cadwraeth a chefnogaeth**

3.45 Mae cyfleusterau cadwraeth a storio'r Llyfrgell o safon uchel iawn, yn dilyn ychwanegiadau i'r adeiladau ym 1980 a 1996. Mae'r cyfleusterau storio erbyn hyn yn cynnwys nifer o gromgelloedd tanddaearol ar gyfer yr eitemau mwyaf gwerthfawr a brau yn y casgliad. Mae'r tymheredd a'r atmosffer yn y cromgelloedd yn cael eu rheoli, gyda systemau rheoli, larymau a system taenellu dwr soffistigedig iawn, sydd yn monitro'u hunain i raddau helaeth.

3.46 Mae'r rhan fwyaf o'r prif staciau ar draciau, gyda silffoedd symudol yn caniatáu'r defnydd gorau o'r gofod. Gwnaeth y Llyfrgell benderfyniad bwriadol i beidio â modureiddio'r staciau oherwydd y costau uchel sy'n gysylltiedig â thalu i beirianwyr cynnal a chadw deithio i Aberystwyth. Yn ddiweddar cynlluniodd a chomisiynodd y Llyfrgell silffoedd cantilifer arbennig ar gyfer papurau newydd, gan wneud y defnydd gorau o ofod unwaith eto. Tra bod peth o'r casgliad o weithiau celf wedi ei hongian yn y Llyfrgell ac yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r rhan fwyaf ohono mewn raciau dal celf. Mae mapiau a chynlluniau'n cael eu cadw mewn cypyrddau arbennig â raciau ynddyn nhw. Mae microffilmiau, defnyddiau sain a delweddau symudol yn cael eu cadw mewn celloedd wedi eu cynllunio'n arbennig ac wedi eu leinio â chopr.

3.47 Mae peth o’r gofod storio’r microffilm yn cael ei rentio allan i lyfrgelloedd eraill o dan gytundeb lle bod negatifau gwreiddiol yn cael eu cadw ar gyfer cadwraeth tymor hir mewn llyfrgelloedd adnau cyfreithiol gwahanol. Mae hyn i sicrhau na fyddai unrhyw eitem, petai trychineb yn digwydd i unrhyw un casgliad, yn cael ei cholli i’r genedl.

3.48 Mae cadwraeth yn defnyddio ymyrraeth weithredol unai i ddychwelyd y defnyddiau i gyflwr mor agos â phosib i’r gwreiddiol, neu i’w cadw yn eu cyflwr presennol i warchod rhag dirywiad pellach. Mae lleoliad Aberystwyth o gryn fantais ar gyfer cadwraeth yn nhermau aer glân a diffyg llygredd.

3.49 Mae’r Llyfrgell yn ymgymryd â sawl ffurf o driniaethau a phrosesau i hybu cadwraeth er mwyn gwarchod ei chasgliadau:

- Trwsio dogfennau
- Rhwymo cadwriaethol arbenigol, er enghraifft o lyfrau prin iawn
- Digideiddio, o lawysgrifau brau neu luniau, er enghraifft
- Microffilmio cadwriaethol, gaiff ei ddefnyddio ar gyfer papurau newydd yn bennaf
- Adfer darluniau
- Ffacsimilïau, er enghraifft o lawysgrifau brau i’w defnyddio mewn arddangosfeydd

3.50 Mae gan y Llyfrgell hefyd raglen gadwriaethol ataliol, lle, fel rhan o’r broses dderbyn wreiddiol, mae eitemau newydd yn cael eu hasesu i weld beth yw eu hanghenion cadwriaethol. Mae’r tîm cadwraeth ataliol yn gyfrifol am:

· Bacio, mowntio, mewngapsiwleiddio, mân atgyweiriadau.

· Glanhau casgliadau

· Storio mewn blychau di-asid

3.51 Mae yna bwyllgor cadwraeth, gyda chynrychiolwyr o bob adran, sy’n penderfynu ar gynllun gwaith yn ymwneud â chadwraeth ar gyfer y flwyddyn sy’n dod. Er hyn, er yn cymeradwyo’r broses cynllunio gwaith, mae’n ymddangos bod y meini prawf ar gyfer dewis yr eitemau ar gyfer eu cadw, er yn addas, ddim yn cael eu dewis oddi fewn i fframwaith wrthrychol. Mae’r rhain yn cynnwys ystyried a fyddai angen eitemau ar gyfer arddangosfeydd, a yw staff yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus yn sylwi ar unrhyw ddifrod pan yn casglu eitemau ar gyfer darllenwyr, a chyngor arbenigol saff curadurol.

- **Argymhellion:** bod meini prawf cadwraeth mwy gwrthrychol yn cael eu datblygu a bod oblygiadau adnoddau yn cael ei asesu.

3.52 Mae’r adran cadwraeth ataliol yn anarferol gan y telir am y staff o gronfeydd preifat, gyda nifer ar gytundebau tymor-byr. Mater pellach yw lefel isel cyllido’r adran ar £362,000 o’i gymharu â £909,000 ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol yr Alban. Canlyniad hyn yw nad oes llawer o weithgaredd cadwriaethol mewn rhai rhannau o’r casgliad. Er enghraifft, mae adferwyr yn treulio dim ond 0.5 diwrnod yr wythnos ar waith adfer yn y Llyfrgell er bod y casgliad yn cynnwys dros 4,000 o ddarluniau. Mae’r adferwr yn rhoi ei amser "am ddim" yn gyfnewid am ddefnyddio stiwdio a chyfleusterau eraill y Llyfrgell am weddill yr wythnos. Er efallai iddi fod yn angenrheidiol i gynnig y cymhelliad hwn i ddenu person sydd ag arbenigedd proffesiynol, mae’n ymddangos mai dim ond ychydig gaiff y Llyfrgell yn ôl am ei

fuddsoddiad lle ac offer.

- **Argymhelliad:** bod y Llyfrgell yn adolygu termau ac amodau'r contract gyda'r adferwr celf, er mwyn sicrhau gwerth gorau am yr arian

**Adran cefnogi**

3.53 Yn ogystal â' rôl gadwriaethol, mae'r adran hon hefyd yn gyfrifol am briodoli lleoliadau ar silffoedd, rhoi defnyddiau ar y silffoedd a chynnal y casgliadau. Mae'r gweithgareddau hyn wedi eu lleoli'n iawn yn yr adran hon gan, yng nghwrs eu gwaith, gall y staff sydd wedi eu hyfforddi mewn cadwraeth adnabod yn hawdd eitemau sydd angen triniaeth. Mae hyn yn ymdriniaeth cost-effeithiol sy'n osgoi dyblygu gwaith.

3.54 Er hyn, mae un agwedd o'r gwaith cefnogi nad yw yn ymddangos fel petai'n gweddu i'r adran hon - sef dychwelyd llyfrau i'r silffoedd ar ôl iddyn nhw gael eu defnyddio gan ddarllenwyr. Trafodir hyn mewn mwy o fanylion yn y rhan am yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Digideiddio a thrawsnewid adolygol**

3.55 Mae'r adran hon yn gyfrifol am ddau gylch o waith sy'n benodol, er yn debyg. Mae'r rhaglen ddigideiddio'n cynnwys gwneud eitemau ar gyfer y casgliadau yn hygyrch ar-lein, eitemau megis llyfrau prin, ffotograffau a lluniau, a chaiff hyn ei drafod yn fanwl yn rhan 4.6.

3.56 Mae'r gwaith digideiddio a thrawsnewid adolygol yn golygu sganio a digideiddio catalogau o lyfrau ac eitemau eraill er mwyn eu gwneud yn hygyrch trwy'r systemau sy'n bodoli eisoes - ISYS, CAIRS a GEAC. Mae hwn yn waith o natur dechnegol, ond nid yw'n gofyn am sgiliau catalogio. Mae ansawdd y cynnyrch terfynol yn ddibynnol ar y catalog gwreiddiol.

3.57 Mae gan y Llyfrgell nifer o gatalogau ar ffurf cardiau a rhestrau, rhai'n dyddio nôl i'r ugeinfed ganrif gynnar. Mae'r rhain yn cwmpasu'r casgliadau i gyd ac mae maint y dasg o'u digideiddio i gyd yn anferth. Mae'r Llyfrgell wedi mynd i'r afael â hyn yn rhannol trwy ddarparu rhai crynodebau, neu restrau, ar y wefan, yn hytrach na chofnodion manwl ar gyfer eitemau unigol.

- **Argymhellion:**
    - Mae'r Llyfrgell yn gosod blaenoriaethau gwrthrychol ar gyfer rhaglen trawsnewid adolygol y catalog. Gall hyn gynnwys mwy o restrau yn hytrach na thrawsnewid pob eitem unigol.

**Systemau**

3.58 Mae'r adran fechan, newydd hon oddi fewn i Casgliadau â chyfrifoldeb trwy'r Llyfrgell gyfan am sicrhau bod safonau'r systemau meddalwedd yn cwrdd â safonau cenedlaethol a rhyngwladol, a bod ansawdd cyson ar draws y Llyfrgell gyfan. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys:

- datblygu a chynnal systemau
- trawsnewid data

- hyfforddi safonau ar gyfer staff
- teilwra meddalwedd i gwrdd â safonau
- gwella rhyngwynebau defnyddwyr (staff)
- darparu cyfieithiadau er mwyn sicrhau fod y systemau i gyd yn gallu cael eu gweithredu'n ddwyieithog
- Coladu'r catalogau sy'n bodoli eisoes i'r nifer lleiaf o systemau ag sy'n bosibl.

3.59 Er na sefydlwyd yr adran tan Ionawr 2002 o dan y strwythur newydd, rhagwelir y bydd ei gylch gwaith, sy'n cynnwys sicrhau safonau ac ansawdd, yn cyfrannu at effeithlonrwydd y sefydliad cyfan. I gyflawni hyn, rhaid i holl adrannau a rhannau eraill y Llyfrgell ddeall a bod yn barod i weithio gyda'r adran systemau. .

- **Argymhelliad:** bod pob rhan o'r Llyfrgell yn derbyn hyfforddiant sylfaenol i ddeall y rôl traws-adrannol a chyfrifoldebau'r adran systemau.

**Casgliadau arbennig**

3.60 Mae'r adran hon yn cadw a chatalogio llyfrau prin, mapiau, cerddoriaeth, ffotograffau a darluniau. Mae rhai materion ynglþn â'r casgliadau arbennig wedi eu trafod ar wahân. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol fod y rhain i gyd yn ddefnyddiau hollol wahanol, gyda gofynion trafod a storio gwahanol hefyd. Er enghraifft, ni ellir trafod llawysgrifau a ffotograffau ond gyda menig, caiff mapiau eu cadw mewn raciau arbennig ac mae angen cadw negatifau mewn celloedd wedi eu hoeri. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at y costau cymesur uwch sy'n gysylltiedig â chadw'r casgliadau hyn o'u cymharu, er enghraifft, â llyfrau newydd.

61. Un gweithgaredd bychan, ond effeithiol, yw cadw ffotograffau mewn mowntiau o faint safonol sy'n ffitio yn fframiau clip yr arddangosfa. Mae hyn yn sicrhau fod arddangosfeydd o ffotograffau yn gallu cael eu codi'n gyflym, gyda chyn lleied â phosibl o ddyblygu gwaith. Mae yna tua 0.5m o ffotograffau - dim ond ychydig dros eu hanner sydd wedi eu catalogio.

**Trysorau'r Llyfrgell**

3.62 Mae gan y Llyfrgell gasgliad arbennig o drysorau o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Casgliad Hengwrt-Peniarth o 500 o lawysgrifau o'r llenyddiaeth Gymraeg gynharaf yn cynnwys
    - Llyfr Du Caerfyrddin
    - Llyfr Taliesin
    - Chaucer Hengwrt – y llawysgrif Chaucer cynharaf mewn bodolaeth
- Archifau Lloyd George
- Casgliad John Thomas o ffotograffau
- Casgliad aml-gyfrwng o waith yr artist a'r bardd o'r 20ed ganrif David Jones; ymhlith y rhain mae ei waith graffig, paentiadau a llythrennu, llawysgrifau o'i farddoniaeth, ei lyfrgell bersonol a llyfrau amdano. Mae rhychwant y casgliad arbennig hwn yn pwysleisio pwysigrwydd casgliad aml-gyfrwng y Llyfrgell.

- Paentiadau gan yr artist o’r 18ed ganrif Richard Wilson, tad paentio tirluniau.
- Paentiadau gan yr artist o’r 20ed ganrif sy’n dal yn fyw - Syr Kyffin Williams R.A
- Y ffilm ddogfennol gynharaf a wnaed yn yr iaith Gymraeg - Yr Etifeddiaeth, trysor yn y Gymraeg o’r 1940au.
- Siartiau a mapiau o arfordir Cymru o’r 18ed a’r 19eg ganrif gan y brodyr Lewis a William Morris, sydd hefyd ar gael ar y wefan.

Dim ond rhoi blas o drysorau’r Llyfrgell mae’r enghreifftiau hyn, ond maen nhw’n pwysleisio rôl ganolog y Llyfrgell mewn cynnal treftadaeth diwylliant Cymru a’i gwneud yn hygyrch, i gyd-fynd â chynllun y Llyfrgell - Rhoi Cymru Gyntaf a’r Cynllun I Gymru 2001

3.63 Roedd gan y tîm adolygu un gofid ynglþn â’r casgliad o luniau, sef ei fod yn cael ei storio yn y fframwaith stac yn y prif Lyfrgell, ac felly mae’n anhygyrch i’r cyhoedd. Darperir cyfleusterau archwilio ar gyfer defnyddwyr sy’n dymuno astudio gweithiau celf gaiff eu tynnu o’r staciau a’u harddangos mewn man addas. Mae amrywiaeth cynyddol o waith celf hefyd yn hygyrch ar y we. Mae’r mater o ddewis beth yw’r ffordd orau i arddangos darluniau wedi cael ei ystyried gan y tîm sy’n cynllunio’r Profiad i Ymwelwyr, ac fe fydd mwy o ofod arddangos yn cael ei ddarparu yn yr adeilad newydd. Er hyn, fe fydd y gofod yn gyfyngedig o gofio’r defnydd helaeth o Oriel Gregynnog ar gyfer arddangosfeydd teithiol.

3.64 Yn y rhannau hynny sy’n agored i’r cyhoedd mae gan y Llyfrgell Brydeinig gyfres o raciau y gellir eu tynnu allan i arddangos ei chasgliad ffilatelig. Mae i’r ffurf yma o arddangos nifer o fanteision, er nad yw’n ddelfrydol gan nad yw’r eitemau i’w gweld yn barhaol. Mae’n ddiogel rhag dwyn neu ddifrod, gellir newid yr arddangosfa’n hawdd, mae’n bosib dangos nifer o eitemau mewn gofod bychan a, gyda labelu addas, mae’n hygyrch iawn i unrhyw aelod o’r cyhoedd heb fod aelod o staff y Llyfrgell yn gorfod bod yn bresennol.

- **Argymhelliad:** bod y Llyfrgell yn ystyried gwneud mwy o’r casgliad celf yn hygyrch i’r cyhoedd.

## GWASANAETHAU CYHOEDDUS

3.65 Mae’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus yn tynnu at ei gilydd bob adran yn y Llyfrgell sy’n darparu gwasanaethau uniongyrchol i’r cyhoedd. Mae i’r Adran bedair rhan yn delio â gwasanaethau darllenwyr, rhaglenni cyhoeddus, marchnata a hygyrchedd, ac Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru.

66. Gydag un eithriad, gaiff ei drafod yn yr adran am Wasanaethau darllenwyr, mae strwythur newydd yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymddangos yn addas ar gyfer yr anghenion gwasanaeth er, fel yn yr Adran Casgliadau, mae’r strwythur yn dal i fod yn hierarchaidd iawn. Mae gofidiau wedi eu mynegi ynglþn â’r nifer fach o staff sy’n delio a desg ymholiadau hynod brysur, gafodd ei gadarnhau trwy arsylwi yn ystod ymweliadau adolygu. Yr un pryd mae’r desgiau ymholiadau eraill, er eu bod wedi eu staffio, yn aml yn wag o ddarllenwyr. Mae’r Llyfrgell yn ymwybodol iawn o hyn, ac mae eisoes wedi cynllunio i leihau nifer y desgiau ymholiadau o bedair i ddwy, ddylai wneud gwell defnydd o staff. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar drawsnewid yr ystafell darllen mapiau i fod yn ail brif ystafell ddarllen. Mae’r cynlluniau’n cynnwys gosod mesurau diogelwch ychwanegol yn eu lle.

    3.67 Mae lefelau gweithgaredd uniongyrchol gyda darparwyr gwasanaeth yn ymddangos yn isel mewn cymhariaeth â llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill. Er hyn, gan bod gan y Llyfrgell bolisi o hygyrchedd llawer mwy agored na rhai o’r llyfrgelloedd eraill, mae’r rhifau is o ddefnyddwyr yn debygol o fod yn gysylltiedig â lleoliad. Yn gyffredinol mae’r Llyfrgell yn cofnodi gweithgaredd yn llai manwl na llyfrgelloedd cenedlaethol eraill, felly nid yw bob amser yn bosibl i wneud cymariaethau uniongyrchol.

    3.68 Mae gan yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus gynllun gweithredol clir, sy’n cynnwys targedau i wella rhwydwaith mewnol yr adran, er enghraifft i greu

disgrifiadau swyddi newydd. Mae yna dargedau meintiol ac ansoddol, er enghraifft adolygu darpariaeth gwasanaethau i’r anabl.

69. Mae yna hefyd nifer o dargedau datblygiad yn gysylltiedig â’r Profiad I Ymwelwyr, yn cynnwys datblygu cynllun ar gyfer y Ganolfan hanes Teuluol, creu siop newydd, t bwyta, gweithdy arddangos a storfa newydd hefyd, ynghyd â’r lleoedd arddangos newydd i gyd. Mae hyn yn cynrychioli llwyth gwaith uchel, gyda datblygiadau ar draws pob adran yn effeithio ar bob aelod o’r staff. Er ei bod yn ddealledig y caiff staff ychwanegol eu cyflogi unwaith y bydd y Profiad I Ymwelwyr wedi ei gwblhau, mae’n aneglur a fydd unrhyw staff ychwanegol, yn ystod yr ad-drefnu, yn cael eu dyrannu i’r adran hon er mwyn llenwi lle aelodau allweddol o’r staff sy’n mynychu’r cyfarfodydd cynllunio niferus, ond angenrheidiol, ac i ail-hyfforddi’r holl staff yn eu rholiau newydd fel bo’r cynlluniau’n datblygu i fod yn wasanaethau newydd.

- **Argymhellion:**
  - Bod yna fonitro gofalus o holl lwyth gwaith a gweithgareddau staff yn ystod amserlen hanfodol cynllunio a gweithredu ar gyfer y datblygiadau newydd.
  - Bod yna gysylltiad agos gydag adrannau eraill, er mwyn nodi unrhyw lacrwydd yn y system, a sicrhau fod staff ychwanegol yn gallu cael eu hyfforddi’n ddigonol a’u symud i’r gwasanaethau cyhoeddus yn gyflym, petai angen.

**Gwasanaethau darllenwyr**

3.70 Ym Mai 2002 cyhoeddodd y Comisiwn Arolwg adroddiad ar lyfrgelloedd cyhoeddus yn Lloegr a Chymru oedd yn dangos lleihad yn nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd, benthyciadau llyfrau a’r nifer o bobl sy’n benthyg llyfrau dros y deng mlynedd diwethaf. Fel llyfrgell genedlaethol doedd y Llyfrgell ddim yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn. Er hynny, mae’n ganmoladwy, yn ystod y cyfnod yma o ddirywiad ymhlith llyfrgelloedd cyhoeddus, bod y Llyfrgell wedi cynyddu’n sylweddol cyfanswm y gwaith wneir yno yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwasanaeth.

**Darllenwyr**

3.71 Mae’r Llyfrgell yn dosbarthu 11,000 o docynnau darllenwyr yn flynyddol, o’i gymharu â 59,000 yn y BL. Cyfanswm benthyciadau blynyddol y Llyfrgell (y nifer o eitemau ddarparwyd ar gyfer eu defnyddio yn yr ystafelloedd darllen) yn ystod 2000-2001 oedd 76,445 (i lawr 9.3% ar y flwyddyn flaenorol), o’i gymharu â 294,000 ar gyfer yr NLS. Er hyn, roedd nifer y benthyciadau yn ystod pedwar mis cyntaf 2002 dros 37,000, yn dynodi fod y galw’n cynyddu’n gyflym iawn. Gan fod yr NLS yn casglu gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol, mae’n amhosib gwneud cymhariaeth uniongyrchol, er eu bod wedi cofnodi 80,000 o ymweliadau gan ddarllenwyr. Ar yr ochr gwasanaeth, mae’r Llyfrgell yn agos i’w tharged o gyflenwi 90% o eitemau i ddarllenwyr o fewn 45 munud. Mae hyn yn cymharu’n ffafriol iawn a’r BL, sy’n cyflenwi 90% i ddarllenwyr o fewn 70 munud.

3.72 Gyda ychwanegiadau diweddar i systemau GEAC (ar gyfer llyfrau printiedig) a CAIRS (ar gyfer deunydd nad yw yn brintiedig), mae gan y Llyfrgell nawr system soffistigedig iawn i gofnodi, gweithredu ar, a dadansoddi ceisiadau darllenwyr. Trwy’r systemau yma, mae gan ddarllenwyr y dewis o wneud cais o bell am eitemau hyd at 7 niwrnod ymlaen llaw. Mae i hyn y fantais ychwanegol o alluogi staff i gyflawni’r ceisiadau ymlaen llaw hyn yn ystod adegau tawel.

3.73 Mae gan adran gwasanaethau darllenwyr yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddi nifer o ‘redwyr’ sy’n gyfrifol am goladu ceisiadau am eitemau, dod o hyd i eitemau ar y silffoedd, gadael nodyn cais dyblyg ar y silffoedd i ddynodi lleoliad eitem fenthyciwyd, a rhoi’r eitemau a geisiwyd i ddarllenwyr. Yn rhyfedd iawn, cyfrifoldeb adran gefnogi’r Adran Gasgliadau yw dychwelyd yr eitemau i’r silffoedd pan nad oes eu hangen mwyach. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw y gall gwasanaethau cefnogi roi pethau nôl ar y silffoedd yn ystod cyfnodau tawel., a’u bod wedi eu hyfforddi i nodi eitemau sydd, efallai, angen eu hatgyweirio neu driniaeth gadwriaethol arall. Yn ymarferol, mae targed yr adran cefnogi o roi 80% nol ar y silffoedd o fewn diwrnod a’r gweddill ymhen yr wythnos yn golygu bod y rhedwyr yn methu dod o hyd i rai

eitemau.

- **Argymhellion:**

    - Pan fo'r newidiadau i'r ystafelloedd darllen a'r desgiau ymholiadau wedi eu cwblhau, bod y Llyfrgell yn adolygu'r penderfyniad i rannu'r cyfrifoldebau rhwng gwahanol adrannau am leoli ac i roi nôl ar y silffoedd yr eitemau y gofynnwyd amdanyn nhw.

    - Bod holl aelodau'r staff yn yr adran gwasanaethau darllenwyr yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i adnabod eitemau fyddai efallai angen triniaeth gadwriaethol.

**Galw electronig**

3.74 Yn ddiweddar mae'r Llyfrgell wedi uwchraddio ei gwefan, ac mae'r trawiadau wedi cynyddu'n ddiweddar i 200,566 ar gyfer 2001-2002, yn fwy o gryn dipyn na'r targed o 114,000. Ond mae hyn yn isel o'i gymharu â llyfrgelloedd eraill: 21m ar gyfer y BL; 87m ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Canada, 348,000 ar gyfer NLS, ond mae'n fwy na'r 100,000 gafodd NLI. Er bod y wefan yn hawdd ei llywio, mae yna gynlluniau i'w gwella.

- **Argymhelliad:** bod y wefan, er mwyn codi proffil y Llyfrgell yn datblygu cysylltiadau dwy ffordd gyda safleoedd eraill megis yr Amgueddfa Genedlaethol, Bwrdd Croeso Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru.

**Ymholiadau**

3.75 Mae'r Llyfrgell yn derbyn cyfanswm o tua 15,000 o ymholiadau dros y ffôn ac yn ysgrifenedig yn flynyddol, ac mae nifer cynyddol o'r rhain yn dod trwy e-bost. Ond, nid yw hwn yn rif cywir, gan nad yw'r Llyfrgell yn cofnodi ymholiadau syml, uniongyrchol. Felly mae'r rhifau hyn yn ymddangos yn isel o'u cymharu â llyfrgelloedd cenedlaethol eraill, er enghraifft mae'r NLS yn derbyn 50,000 o ymholiadau'n flynyddol.

3.76 Yn nhermau gwasanaeth mae'r Llyfrgell yn debygol o wella ar darged 2001-2002 o ateb 90% o ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol iawn gyda'r BL, lle gosodir targed o ddim ond cydnabod neu ateb ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith, ac yn hyn maen nhw'n llwyddo bron 100%.

3.77 Ers yr ailstwythuro, mae'r adran gwasanaethau darllenwyr yn delio a 90% o ymholiadau ysgrifenedig, gyda 10% yn cael ei basio ymlaen i'r adran casgliadau i gael mewnbwn mwy arbenigol.

3.78 Mae'r Llyfrgell yn cynnig gwasanaeth achyddol sylfaenol am ddim, gyda thâl benodedig ar gyfer amser ychwanegol. Mae hyn yn gwneud defnydd da o arian cyhoeddus tra'n cynnal ecwiti. Mae hwn yn wasanaeth poblogaidd, a does dim arwydd bod pobl yn peidio'i ddefnyddio oherwydd y tâl.

3.79 Mae patrymlun yn bodoli ar gyfer e-byst ddaw i mewn, sydd hefyd yn cynnig y dewis o dalu am archwiliadau achyddol pellach. Mae hyn, ynghþd â'r gydnabyddiaeth awtomatig o e-byst, yn helpu i hwyluso'r system a chynyddu effeithlonrwydd. Ond, nododd y tîm adolygu yr amrywiadau eang mewn atebion ysgrifenedig; roedd rhai ohonyn nhw'n gymharol hir a manwl.

- **Argymhellion:**

    - Bod y Llyfrgell yn ystyried polisi codi tâl y BL er mwyn gweld a fyddai'n addas ar gyfer ei sefyllfa'i hun yn achos ymholiadau sydd angen cryn dipyn o amser staff

- Bod y Llyfrgell yn ystyried cyflwyno patrymlun ateb ymholiadau er mwyn hwyluso’r gwasanaeth ymhellach

**Rhaglenni cyhoeddus**

**Ymwelwyr ac arddangosfeydd**

3.80 Roedd 2000-2001 yn flwyddyn lwyddiannus iawn yn nhermau arddangosfa bwysig y Llyfrgell am Owain Glyndðr,- arddangosfa a ddenodd 70,000 o ymwelwyr. Mae hyn yn cymharu’n ffafriol iawn â’r 31,000 o ymwelwyr aeth i weld "Chapter and Verse: 1000 years of English literature" yn y BL, a’r arddangosfa bwysig "Oscar Peterson: a Jazz sensation" yn Llyfrgell Genedlaethol Canada, a ddenodd 25,000 o ymwelwyr. Mewn cymhariaeth, denodd yr NLS 200,000 o ymwelwyr i safleoedd ei bedair arddangosfa deithiol, a 16,000 i’w neuadd arddangos ei hun.

3.81 Mae’r Llyfrgell felly wedi arddangos ei gallu i drefnu a rhedeg arddangosfa o bwys, er gwaetha anfantais ymddangosiadol y lleoliad. Tra bod y Llyfrgell yn cydnabod ei bod wedi derbyn tipyn o ariannu ychwanegol ac arbenigedd allanol yn gefnogaeth i’r arddangosfa, nid yw hyn yn tynnu oddi wrth y llwyddiant.

- **Argymhelliad:** bod y Llyfrgell yn ymgymryd â’r gwaith o wneud dadansoddiad manwl o’r ffactorau gyfrannodd at lwyddiant arddangosfa Owain Glyndrðr, er mwyn sicrhau gallu dyblygu hyn yn y dyfodol.

82. Mae’r Llyfrgell wedi arddangos ei ymrwymiad i ymestyn ei sylfaen cwsmeriaid, trwy wella ar darged 2001-2002 ar gyfer nifer yr ymwelwyr, gyda 68,000 yn y naw mis cyntaf yn erbyn targed blynyddol o 54,000. Mae hefyd yn anelu at y targed ar gyfer arddangosfeydd mewnol, ac mae wedi pasio’r targed ar gyfer arddangosfeydd teithiol. Er ei bod yn annhebyg o gyrraedd y targed ar gyfer eitemau a ar fenthyg mewn mannau eraill, mae’n amheus a yw hyn yn darged addas, ac i ba bwrpas y benthycir yr eitemau.

**Gwasanaethau benthyg a reprograffig rhwng llyfrgelloedd**

3.83 Ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol, mae gwasanaeth benthyg rhwng llyfrgelloedd (a elwir hefyd yn wasanaethau cyflenwi dogfennau) wedi mynd trwy gryn newidiadau yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae hyn o ganlyniad yn rhannol i’r costau cynyddol a hefyd y gostwng mewn galw oherwydd y cynnydd yn y wybodaeth ar gael ar y rhyngrwyd. Mae llyfrgelloedd eu hunain wedi derbyn a gwneud defnydd o’r adnoddau electronig lle mae un llyfrgell yn gallu anfon defnydd cyfeiriadol, trwy gyfrwng y system Ariel, gaiff ei lwytho i lawr yn electronig gan lyfrgell arall. Mae’r system yn cynnwys rheolaethau sy’n cyd-fynd â deddfwriaeth hawlfraint. O’r herwydd mae’r galw am fenthyciadau corfforol o lyfrau a defnyddiau eraill wedi lleihau. Un peth ddioddefodd yn ddiweddar oedd y cynllun Cymraeg, Cydfenthyca Cymru (CC-IW - Cydfenthyca Cymru - Interlending Wales), a ddiddymwyd yn ddiweddar oherwydd methiant llyfrgelloedd oedd yn cymryd rhan, gan gynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus, i gwrdd â’r costau cynyddol.

3.84 Oherwydd y pwysigrwydd sydd ynghlwm â benthyciadau rhwng llyfrgelloedd, mae’r tîm adolygu wedi gwneud cymariaethau manwl â’r NLS a’r BL.

3.85 O dan Ddeddf Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, 1925, mae’n ddyletswydd\ ar yr NLS i fenthyca llyfrau ac eitemau eraill i lyfrgelloedd eraill. O’r herwydd mae wedi creu casgliad o 140,000 o eitemau a 1,500 microffilm ac mae wedi neilltuo rhan o’i gyllideb yn benodol i ychwanegu at y casgliad benthyg. Mae ganddi bolisi benthyca hael iawn, yn ehangach lawer na dim ond deunydd Albanaidd ac mae’n anelu at ymateb i bob ymholiad, gyda dros 50% o’i stoc ar gael ar gyfer darllen gartref. Nid yw’n codi tâl am geisiadau, ymholiadau na chwilio llyfryddol. Ond, mae’r galw am fenthyciadau rhwng y llyfrgelloedd wedi bod yn dirywio’n gyson o 14,000 ym 1996-1997 i tua 9,000 yn 2000-2001, yn cynhyrchu incwm blynyddol gros o tua £8,000 oddi wrth fenthyciadau a llungopïau.

86. Mewn cyferbyniad mae gan y BL system wedi ei mecaneiddio sy’n gallu darparu dogfennau o bedwar ban byd, wedi ei seilio ar y casgliad benthyciad sengl mwyaf yn y byd. Mae’r casgliad yn cynnwys 3,000 o lyfrau, 250,000 o wahanol deitlau cylchgronau, adroddiadau o weithgareddau 400,000 o gynadleddau, 4 miliwn o adroddiadau, 48 miliwn o batentau o dros y byd, traethodau ymchwil doethurol a cherddoriaeth. Mae ei gaffaeliadau blynyddol yn cynnwys 35,000 o

deitlau cylchgronau, 50,000 o lyfrau a defnyddiau eraill. Mae'r gwasanaeth yn derbyn tua 18,000 o geisiadau'n **ddyddiol.** Mae gan y BL drefniadau hefyd gyda chyhoeddwyr lle mae'n gallu casglu ffioedd hawlfraint ac yna'u trosglwyddo ymlaen, cyfleuster na all llawer o lyfrgelloedd ei gynnig. Yn naturiol, mae rhwydwaith casglu, cadw a rhannu anferth mewn bodolaeth i gynnal gweithredu o'r maint hwn. Er hyn, er gwaetha'r ffaith mai'r gwasanaeth hwn sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r £24m o incwm a grëwyd mewn cyfanswm gan y BL yn 2000-2001, mae'r galw am y gwasanaeth hefyd yn gostwng.

3.87 Mae gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru bolisi cyfyng o fenthyg rhwng llyfrgelloedd, fel cefnogaeth i'r BL, ac fe wnaiff fenthyg o'i gasgliad benthyg bychan o tua 15,000 o gopïau dyblyg o ddeunydd yn ymwneud â Chymru. Gwnaiff ond benthyg i lyfrgelloedd eraill sy'n gwarantu na fydd y defnyddiau ar fenthyg yn cael eu defnyddio y tu allan i'r llyfrgell fenthyg. Mae hefyd yn fodlon darparu llungopïau o erthyglau o gylchgronau, oddi fewn i derfynau deddfwriaeth hawlfraint. Mae'r gwasanaeth benthyg rhwng llyfrgelloedd yn fach iawn, gyda dim ond 300 o rifynnau'r flwyddyn, yn cynnwys llungopïau. Galwodd nifer o lyfrgelloedd am estyn y gwasanaeth benthyg yn ystod yr adolygiad fel modd i ddod dros y problemau ymddangosiadol cyrraedd Aberystwyth.

3.88 **Nid** argymhellir bod y Llyfrgell yn datblygu ymhellach ei gwasanaethau benthyg rhwng llyfrgelloedd presennol am y rhesymau canlynol:

- Darpariaeth gwasanaeth gwych a chynhwysfawr gan y BL
- Y gostwng cenedlaethol, rhyngwladol o bosib, yn y galw am y fath wasanaethau
- Ansicrwydd ynglþn â'r gofyn yn y dyfodol, oherwydd darpariaeth electroneg
- Cost uchel ymestyn y gwasanaeth, oherwydd yr angen i sefydlu strwythurau gweinyddu a dosbarthu
- Y pwysau ar y Llyfrgell i weithredu'r rhaglen bresennol o ddatblygiadau

89. Yn ddiweddar mae'r Llyfrgell wedi datblygu ffurfiau eraill o gyflenwi dogfennau trwy ei wasanaethau reprograffig. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau llungopïo, microffilmio, delweddu ffotograffig a digidol. Hyd yn hyn, y prif ddarpariaeth yw microffilmiau o bapurau newydd i lyfrgelloedd eraill. Ond, mae hwn yn faes o alw cynyddol, ac mae BL yn cynnig cymhariaeth ddefnyddiol.

3.90 O fewn strwythur y BL mae Gwasanaeth Copïo Llundain yn rhan o'r holl geisiadau reprograffig i'r BL, yn cynnwys y rhai sy'n cael eu derbyn trwy'r prif Wasanaeth Cyflenwi Dogfennau. Mae tua 150 o staff ac mae'r adran yn hollol hunan-gynhaliol yn ariannol, heb unrhyw gymorth oddi wrth Grant Mewn Cymorth. Mae'r trosiant tua £3m. Dyfais ddiweddar o bwys yw bod y gwasanaeth nawr ar gael i unrhyw unigolyn preifat, yn ddarllenwr cofrestredig neu beidio, - dim ond i lyfrgelloedd a sefydliadau eraill roedd y gwasanaeth ar gael yn y gorffennol. Gellir archebu eitemau ar-lein, a chyn bo hir bydd un bosibl i gwsmeriaid i dalu ar lein gyda cherdyn credyd. Mae hwn yn wasanaeth sy'n torri tir newydd ac mae'n rhoi'r cwsmer gyntaf.

3.91 Mae'r Llyfrgell eisoes wedi sefydlu gwasanaeth tebyg, er ar raddfa llai. Mae costau newydd y Llyfrgell (Ebrill 2002) yn rhesymol, rhwng 50% a 75% y BL. Ni ddylid argymell bod y taliadau'n cael eu cynyddu ymhellach er mwyn gwneud yn siwr eu bod o fewn cyrraedd cynifer o bobl â phosib. Mae tipyn o ddeunydd yn ymwneud â Chymru eisoes wedi ei ddigideiddio ac mae ar gael ar-lein, er nad o safon uchel o eglurder. O'r herwydd, mae'n ymddangos bod cyfleon ar gael i ddatblygu'r gwasanaeth hwn gyda phwyslais ar Gymru a'r Cymry. Byddai hyn yn sicrhau nad oes gwrthdaro na chystadleuaeth gyda'r gwasanaeth sy'n bodoli eisoes gan y BL., tra ar yr un pryd byddai hyn yn cynyddu hygyrchedd i gelfyddyd Cymru.

- **Argymhelliad:** Bod y Llyfrgell yn adolygu ac yn datblygu ymhellach ei wasanaeth reprograffig, gan gynyddu argaeledd y deunydd ar-lein, gyda phwyslais ar Gymru ac ar gelfyddyd Cymru.

## CYDWEITHREDU PROFFESIYNOL

3.92 **NB** Mae'r term 'pwyllgor' yn cael ei ddefnyddio i gynnwys yr holl bwyllgorau, grwpiau, cyrff proffesiynol a grwpiau eraill allanol mae'r Llyfrgell yn perthyn neu'n cyfrannu iddyn nhw.

3.93 Mae gan y Llyfrgell broffil uchel ymhlith cydweithwyr proffesiynol, ac, yn 2001-2002, cafodd ei chynrychioli ar 134 o bwyllgorau ar lefelau cenedlaethol, Prydeinig a rhyngwladol:

- Cynrychiolaeth genedlaethol yng Nghymru ar 62 o bwyllgorau, roedd 19 o'r rhain wedi eu mynychu gan fwy nag un aelod o staff y Llyfrgell.
- cynrychiolaeth ar draws y DU ar 56 o bwyllgorau, roedd 5 o'r rhain wedi eu mynychu gan fwy nag un aelod o staff y Llyfrgell
- cynrychiolaeth yn rhyngwladol ar 16 o bwyllgorau

3.94 Mae'r lefel yma o gynrychiolaeth yn dangos fod y Llyfrgell yn chwarae rhan weithredol mewn cydweithio proffesiynol. Mewn nifer o achosion mae wedi cymryd yr arweiniad mewn sefydlu, cadeirio a darparu'r ysgrifenyddiaeth neu ddarparu man cyfarfod.

3.95 Ond mae cydbwysedd y gynrychiolaeth yn edrych yn hynod anwastad, gyda'r Llyfrgellydd yn mynychu 37 o bwyllgorau, mae presenoldeb y cyfarwyddwyr yn amrywio rhwng dau a 19, ac mae tri o staff Band 6 bob un yn mynychu 10 neu fwy. Mae cyfanswm o 39 o bobl yn mynychu pwyllgorau allanol.

3.96 Mae staff y Llyfrgell hefyd yn mynychu ac, yn aml, yn cyflwyno papurau mewn cynadleddau allanol. Mae'r staff yma yn aml yn teithio cryn bellterau i fynychu pwyllgorau allanol. Mae'r tîm arolwg hefyd yn cydnabod pwysigrwydd mynychu pwyllgorau allanol i ddatblygiad yr iaith a chelfyddyd Gymraeg. Ond mae cost yn gysylltiedig â phresenoldeb bob un, yn nhermau amser (yn cynnwys, yn aml, amser teithio hir), adnoddau, ac amser a dreulir i ffwrdd o'r Llyfrgell. Mae cynadledda fideo ar gael erbyn hyn ac mae aelodau o'r staff wedi dechrau ei ddefnyddio.

- **Argymhellion:**
    - Bod y Llyfrgell yn ymgymryd â gwaith i werthuso'r manteision iddi o aelodaeth cymaint o grwpiau allanol, gan gynnwys canfod yr aelodau o staff mwyaf addas gan sicrhau cyn lleied â phosib o ddyblu presenoldeb.
    - Bod y Llyfrgell yn cynnwys yn ei chynlluniau strategaeth cyfathrebu fath o system i rannu canlyniadau pob cyfarfod allanolyn well ymhlith staff. Gallai hyn fod yn gyfraniad pwysig i ddatblygiad staff.
    - Bod y defnydd o gynadledda fideo yn cael ei annog er mwyn byrhau'r cyfnodau o absenoldeb o'r adeilad ac i wrthbwyso costau teithio.

97. Arwahan i fynychu pwyllgorau mae'r Llyfrgell yn ymgymryd â gwaith allan yn y gymuned, er enghraifft mae'r adran archifo'n cynnig hyfforddiant cychwynnol archifo i rai sefydliadau. Mae'r Llyfrgell yn awyddus i godi ei phroffil mewn nifer o wahanol feysydd, yn ogystal â gyda phobl broffesiynol.

    - **Argymhelliad:** Dylai'r Llyfrgell werthuso pob ffurf o gydweithio proffesiynol, allanol a gwaith allan yn y gymuned er mwyn nodi'r gweithgareddau mwyaf cost-effeithlon yn nhermau arweiniad proffesiynol, marchnata a gwell hygyrchedd i'r casgliadau.

3.98 Agwedd arall o gydweithio proffesiynol yw'r hyfforddiant mae'r Llyfrgell yn ei gynnig. Bob blwyddyn mae yna nifer o leoedd i raddedigion i ennill profiad ymarferol cyn iddyn nhw fynychu cyrsiau prifysgol mewn gwyddoniaeth llyfrgell neu archifo. Mae rhai o'r rhain wedyn yn ymuno â staff parhaol y Llyfrgell . Ymddengys hyn yn ffordd ddefnyddiol i sicrhau cyflenwad parhaus o staff newydd â chymwysterau.

- **Argymhelliad:** Bod sefydlu lleoedd ar gyfer rhai dan hyfforddiant yn cael ei estyn er mwyn sicrhau fod canran o'r staff yma'n ail ymuno â'r Llyfrgell ar ddiwedd eu hyfforddiant. Gellid ystyried cynllun nawdd er mwyn cynyddu teyrngarwch a chodi tebygolrwydd dychweliad.

3.99 Mae'r Llyfrgell yn cynnig hyfforddiant i staff proffesiynol sefydliadau eraill, er enghraifft ar gatalogio, a secondiadau byrion i staff ar ymweliad o wledydd eraill. Caiff y trefniadau hyn eu talu nôl, er enghraifft yn ystod cyfnod yr arolwg roedd un aelod o'r adran data llyfryddol yn mwynhau tair wythnos o hyfforddiant rhad yn Llyfrgell y Gyngres. Mae hon yn enghraifft dda o fanteision polisi'r Llyfrgell o gydweithio agored, aml-ffased, rhwng-broffesiwn, ac mae hefyd yn debygol o gael effaith ar gadw staff.

## GWASANAETHAU CYNNAL

3.100 Ffurfir y gwasanaethau cynnal gan adran y Llyfrgellydd, yn cynnwys cyllid a'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol i gyd. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau AD, gwasanaethau'r adeiladau a'r tiroedd, arlwyo, diogelwch, gwasanaethau porthor, argraffu a systemau gwybodaeth. Mae nifer o feysydd mwy rheolaidd wedi eu profi yn y farchnad - mae'n amlwg o hanes yr adolygiadau hyn nad yw'n hawdd denu rhestr fer o safon uchel o gynigwyr allanol am y math hwn o waith yn Aberystwyth. Yn ddiweddar profodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y lefel o ddiddordeb yn y gwasanaethau arlwyo i gefnogi'r Profiad i Ymwelwyr ac o ganlyniad i'r lleoliad ac ansicrwydd cafwyd cyfres o gynigion oedd ddim yn cynnwys risg oddi wrth arlwywyr contract.

3.101 Prif lwyddiant y rhaglen hon oedd chwalu'r uned argraffu, y codwyd cwestiynau ynglþn â hi yn yr Arolwg Cyllid a Pholisi ym Medi 1993. Cost yr uned yn 2000 0edd c£100,000, ond yn lle hynny erbyn hyn wynebir cost o £40,000 o gyllideb allanol. Canlyniadau eraill oedd:

- Cynnal a chadw adeiladau - pob cynnig yn ddrytach na'r ddarpariaeth fewnol
- Gwasanaethau Arlwyo a chynnal a chadw'r Tiroedd - wedi eu trosi'n gynigion mewnol ar sail cymhorthdal y cytunwyd arni yn erbyn Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chynilion bychain

3.102 Yn ogystal â hyn mae'r Llyfrgell yn cael prisiau cystadleuol am danwydd ac fel mater o arfer, mae'n gwirio pob pryniant sylweddol yn erbyn prisiau geir gan yr Asiantaeth Brynu a CHEST (Combined Higher Education Software Team). Arbedwyd £18,000 trwy gyfuno ac ail dendro contractau'r lifftiau.

3.103 Un anhawster sylfaenol yw'r lefelau o waith sydd wedi ei gontractio, a ellir cael ei gynnig i gontractwyr sy'n delio â gwasanaethau unigol. Yn nes at amser cwblhau'r Profiad i Ymwelwyr rydyn ni'n credu y byddai o fudd edrych am y posibilrwydd o ddod o hyd i ddarparwr aml-wasanaeth ar sail partneriaeth gyda'r Llyfrgell a thrwy hyn gallai'r Llyfrgell a'r contractiwr gydweithio i gyflawni arbedion.

- **Argymhelliad:** Cynllunio i gyfuno gwasanaethau cynnal ar gyfer arolwg gwerth gorau ac, o bosib, fel targed ar gyfer contract partneriaeth gwasanaethau cynnal bras. Yr amser gorau fyddai ail hanner 2003 pan fydd union ofynion y Profiad i Ymwelwyr wedi dod yn amlwg.

3.104 Yn ddiweddar penodwyd Rheolwr Cyfleusterau Adeiladu, ac un o'i dasgau cyntaf, sy'n dal ar droed, oedd edrych ar y sefyllfa'n ymwneud â phorthorion. Oherwydd yr angen i ddarparu diogelwch saith diwrnod/24 awr yn y Llyfrgell, mae swyddogaeth y porthorion yn dal ynghlwm â gweithredu archwiliadau diogelwch. Caiff diogelwch ei drin yn fanylach yn rhan 4 isod ond mae'n amlwg bod dyfodiad y Profiad i Ymwelwyr yn mynd i greu cyfle i ddatblygu monitro wedi ei ganoli gan ddefnyddio fideo a bod agweddau staffio gwasanaethau'r porthorion a diogelwch nawr yn barod ar gyfer eu hadolygu. Mae'r aildrefnu hefyd yn rhoi cyfle i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i weithio'n agos ar y mater yma gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddem yn disgwyl i'r arolwg parhaus hwn edrych ar:

- Adolygiad o lwyth gwaith y porthorion yn cynnwys derbyn adnau cyfreithiol a defnyddiau casgliadau eraill, defnyddiau arddangosfeydd, aildrefnu materol wedi ei gynllunio a defnyddiau eraill.

- Dyfodol rôl y staff Gwasanaethau Cyhoeddus v patrôl diogelwch mewn monitro diogelwch.

- Y posibiliadau ar gyfer monitro canolog yn defnyddio fideo.

- Gofynion y dderbynfa a threfniadau diogelwch y ffiniau.

**Gwarchod adeilad y Llyfrgell**

3.105 Agwedd bwysig o’r adran warchod yw’r gwaith parhaol i gynnal safonau’r adeilad a’i arteffactau mor agos i’r gwreiddiol â phosibl. Yn 2001 comisiynodd y Llyfrgell ymgynghorwyr allanol i ymgymryd ag arolwg cynhwysfawr o’r adeilad cyfan a’r arteffactau. Y canlyniad oedd y Cynllun Gwarchod yr Adeilad, ac mae’r Llyfrgell nawr yn dilyn y Cynllun hwn. Roedd hwn yn disgrifio holl agweddau’r adeilad, yn tynnu sylw at wendidau ac yn rhoi hyfforddiant manwl ar sut y dylid eu cywiro. Er enghraifft mae yna fanylion penodedig ar drwsio a chynnal ffenestri.

3.106 Ar hyn o bryd mae’r Llyfrgell yn ymgymryd â’r gwaith o atgyweirio ac adfer byrddau a chadeiriau mewn lledr i gydweddu â’r gwreiddiol. Er, o bosib, bod hyn yn ddrytach na phrynu dodrefn newydd, caiff y gweithgaredd hwn ei ganmol fel cyfraniad at gynnal treftadaeth fyd-eang llyfrgelloedd mawrion. Enghraifft debyg yw prif ystafell ddarllen Llyfrgell Ganolog Efrog Newydd, sydd wedi ei chadw yn ei chyflwr gwreiddiol, mor bell â thrwsio neu gopïo’r lampau darllen Tiffany.

- **Argymhelliad:** fod y Llyfrgell yn parhau i gefnogi ariannu gwarchod yr adeilad gwreiddiol a’r arteffactau. Gan ei fod yn adeilad cofrestredig gradd II* fe fydd raid cynllunio ar gyfer yr ymrwymiad hwn oddi fewn i ragamcaniadau ariannol.

**Yr Adran Cyfrifiaduron**

3.107 Mae’r Adran Cyfrifiaduron yn uned cymharol fach ac arbenigol sydd â ffocysau clir ynglþn â rheolaeth gwe fan, cefnogaeth cymwysiadau, (GEAC a CAIRS yn bennaf a thrawsnewid data perthnasol) a datblygiad technegol - mae rhwydweithiau mewnol, intranet a chefnogaeth i ddigideiddio yn weithgareddau allweddol. Mae cefnogaeth dechnegol yn cael ei roi allan i’r adran TG sy’n llawer mwy yn y Brifysgol gyfagos, un o’r ychydig drefniadau a allai roi lefel boddhaol o wasanaeth yn y lleoliad. Mae’r adran yn barhaus yn jyglo’i blaenoriaethau er mwyn darparu’r gwasanaeth gorau ac fe roddodd dyfodiad "Casglu’r Tlysau" cryn straen ar adnoddau. Mae argymhelliad i flaenoriaethu adnoddau er mwyn darparu ar gyfer hygyrchedd o bell ar gyfer deunydd wedi ei ddigideiddio wnaed mewn man arall yn yr adroddiad wedi ei weithredu eisoes.

3.108 Mae’r Adran Cyfrifiaduron oddi fewn i Gwasanaethau Corfforaethol ond mae ei gleientiaid oddi fewn i’r Gwasanaethau Casgliadau neu’r Gwasanaethau Cyhoeddus - mae unrhyw newid yn eu blaenoriaethau yn debygol o gael effaith ar yr adran fechan hon. Mae’r rheolwr IS wedi bod yn grefftus yn rheoli newid blaenoriaethau, ond mae angen cynnal agwedd gorfforaethol dros effaith datblygu galwadau roddir ar yr adran hon.

- **Argymhelliad:** Dylai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ynghyd â Rheolwr yr Adran Cyfrifiaduron adrodd yn uniongyrchol i’r Tîm Rheolwyr Hþn ar effaith y blaenoriaethau gaiff eu datblygu gan yr adran er mwyn sicrhau bod y rhaglen orau’n cael ei gwireddu.

3.109 Y mater allweddol strategol arall sy’n wynebu’r Adran Cyfrifiaduron yw dyfodol y systemau catalogio. Cafodd y system GEAC, sy’n delio a’r holl ddeunydd printiedig, ei chyflwyno’n gyflym. Doedd y system flaenorol ddim yn cydymffurfio â gofynion 2000 ac fe wynebodd y cyflenwr broblemau ariannol. O ganlyniad cafodd y Llyfrgell system newydd nad oedd wedi ei chynllunio’n arbennig i gyflenwi effeithlonrwydd gweithredol. Yn y tymor hirach fe fyddai’n ddymunol cael un system i ddelio â defnyddiau printiedig yn ogystal â’r rhai nad yw yn waith print (ar hyn o bryd ar CAIRS yn bennaf), yn cynnwys y corff sylweddol o ddefnyddiau

sydd ar gael ar hyn o bryd ar gronfeydd data atodol y gellir eu cyrraedd trwy ISYS ar hyn o bryd. Fe fydd, wrth gwrs, yn angenrheidiol fod y swm sylweddol o wybodaeth gatalogio sydd ar gael ar y systemau presennol yn gallu cael eu trosglwyddo i unrhyw system ddilynol. Mae ail osod systemau catalogio yn fater strategol i'r Llyfrgell ac mae'n holl bwysig fod cynllunio'n cael ei gychwyn yn ddigon buan er mwyn sicrhau bod gwelliannau mewn effeithiolrwydd gwasanaeth ac effeithlonrwydd gweithredol.

- **Argymhelliad:** Dylai'r cynllunio ar gyfer cyfnewid y systemau catalog gael eu seilio ar sail ffurfiol trwy sefydlu grwp prosiect yn gyflym gyda thermau gorchwyl a thargedau graddfa amser yn cael eu hadlewyrchu'n glir oddi fewn i'r broses gynllunio corfforaethol.

**Cyllid ac AD**

3.110 Adrannau bychain yw Cyllid ac AD. Mae AD wedi dioddef yn uniongyrchol oherwydd yr oedi mewn penodi rheolwr AD - mae ailgyfeirio'r Rheolwr Hyfforddi i lenwi'r rôl hwn wedi cael peth effaith ar ddatblygiad staff. Mae'r ddwy swyddogaeth hyn yn cael eu trafod mewn mwy o fanylder yn rhan 5 isod.

# 4. Cyraeddiadau Gwasanaeth a Chyflwyno Blaenoriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Cyflwyno Blaenoriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol**

4.1 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gosod allan ei flaenoriaethau polisi mewn cyfres o ddogfennau o'r "Cynllun i Gymru 2001" trwy "Diwylliant Cyffredin", adroddiad y Pwyllgor Addysg ôl-16 i gyhoeddiad diweddar o 'Cymru Greadigol' sy'n newid gweledigaeth 2010 y Gweinidog Diwylliant i gynlluniau gweithredol. Yn ail baragraff yr adran gweithredu y ddogfen hon mae rôl yr ASPB mewn cyflwyno'r weledigaeth yn cael ei thanlinellu. Gwelir cefnogaeth y Cynulliad i Ganolfan Ymwelwyr y Llyfrgell fel un o'r camau cyntaf pwysicaf yn y gweithredu. Mae consortiwm "Casglu'r Tlysau" a gynhelir gan y Llyfrgell hefyd yn cael ei enwi fel cam arwyddocaol ymlaen mewn hyrwyddo gwybodaeth digidol am ddiwylliant Cymru ar-lein, ac yn ddatblygiad sylweddol yn y defnydd o gyfryngau newydd.

4.2 Mae disgwyliadau'r Cynulliad o'r Llyfrgell wedi cael eu mynegi'n fwyaf penodol yn y llythyr sy'n disgrifio'r cyfrifoldebau i'r Llywydd am 2001-02. Y targedau allweddol yw:

- i gynyddu'r nifer o ymwelwyr i'r Llyfrgell Genedlaethol;
- i sicrhau fod camau'n cael eu cymryd i gynnwys y rhai sydd ar hyn o bryd heb eu cynnwys;
- i sicrhau fod cyfleusterau a gwybodaeth diwylliannol yn hollol hygyrch;
- cyfrannu at amcanion y Llywodraeth ynglþn â dysgu gydol oes, yn enwedig trwy gysylltiad gyda datblygiad y Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant.

4.3 Nodir y prif feysydd ar gyfer datblygiad parhaus fel:

- Digideiddio rhannau o'r casgliad
- Rhoi hygyrchedd ar-lein i restr gynhwysfawr o eitemau
- Casglu defnydd digidol, wedi eu hargraffu a'u harchifo
- Cwblhau cyfnod 1 o'r Profiad i Ymwelwyr erbyn Rhagfyr 2003
- Sefydlu gwasanaethau wedi eu hanelu'n arbennig at addysg a dysgwyr
- Datblygu gwasanaethau gyda AU ac AB er mwyn hybu manteisio'n helaethach ar gyfleusterau
- Presenoldebau llyfrgelloedd agored y tu allan i Aberystwyth
- Casglu'r Tlysau i'w ddechrau yn Hydref 2001 a'i orffen erbyn Mawrth 2003

4. Mae'r cynnydd ar dargedau arbennig 2001-2 osodwyd gan y gweinidog fel a ganlyn:

| **Meysydd** | **Y Targed osodwyd** | **Cynydd** |
|---|---|---|
| Nifer o Ymwelwyr | 54,000 y flwyddyn | Pob ymwelydd 2001/2 91,970 |
| Nifer o ddefnyddwyr pell y rhwydwaith | 114,000 ymweliad y flwyddyn | 200,566 ymweliad erbyn diwedd 2001/2 |
| Faint o ddata sydd ar gael i'w ddefnyddio ar y we | 278 Mbeitiau | 321 Mbeitiau ar y wefan ar ddiwedd 2001/2 |
| Nifer o arddangosfeydd gynhaliwyd yn y Llyfrgell (mewn man arall) | 12 (5) | 13 (10) yn ystod 2001/2 |

| | | |
|---|---|---|
| Incwm allanol | £215,000 | Cyrhaeddwyd 2001/2 |

4.5 Casgliad - mae’r Llyfrgell wedi cyrraedd y nôd neu wedi gwneud yn well na’r nôd osodwyd yn amcanion osodwyd gan y Gweinidog.

**Digideiddio rhannau o’r casgliad:**

4.6 Mae gwaith yn parhau’n gyflym ar amrywiaeth o brosiectau. Mae’r gefnogaeth gynlluniwyd ar gyfer y prosiect Casglu’r Tlysau wedi cael ei arafu gan yr angen am wybodaeth metadata oddi wrth dîm y Prosiect. Mae prosiect Profiant wedi cael ei ddal yn ôl gan broblem dechnegol (yn ymwneud â digideiddio’r wybodaeth ar fformat microffilm) ond mae prosiectau ffotograffig ymhell ar y blaen. Rydyn ni’n credu fod problem yma wrth i’r Llyfrgell symud o’r ‘modd arbrofol’ i’r ‘modd cynhyrchu’. Mae hyn yn hollol ddealladwy gan fod y Llyfrgell yn gweithio ar y ‘blaenymyl’. Rydym wedi darllen y strategaeth digideiddio ac nid yw’n glir sut mae’r dewis o brosiectau yn berthnasol i’r egwyddorion osodir yn y strategaeth. Yn benodol mae’n anodd gweld y cysylltiad rhwng yr hyn mae’r Llyfrgell yn ei ddigideiddio a’r hyn mae’n gredu y dylai fod yn ei gyflenwi’n lleol ac o bell.

- **Argymhelliad:** Dylai’r Llyfrgell adolygu ei strategaeth digideiddio er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi sylw i ddefnydd o bwysigrwydd uchel yn nhermau blaenoriaethau o bell ac yn lleol - dylai’r cysylltiadau fod yn eglur. Dylai unrhyw brosiect sy’n dal i fod o natur arbrofol gael ei nodi felly.

**Rhoi hygyrchedd ar-lein i restr gynhwysfawr o gynnwys:**

4.7 Mae’r mater hwn yn syrthio i ddau brif gategori - y catalog a defnyddiau wedi eu digideiddio.

4.8 Mae’r catalog ar-lein yn cael ei bennu’n gyntaf gan faint o ddefnydd sydd wedi ei gatalogio ac yn ail gan y ffaith a yw wedi ei integreiddio gyda’r system GEAC (deunydd printiedig) neu system CAIRS (deunydd heb fod yn brintiedig) neu’r mynediad trwy ISYSWEB i gyfres o ddata-basau llai. Mae mynediad diogel yn darparu cysylltiadau ar gyfer y defnyddiwr i mewn i rannau catalogio o’r systemau addas. Mae defnyddiau newydd i gyd yn cael eu catalogio’n gyfrifiadurol ond mae’r Llyfrgell yn dal i weithio drwy ei ôl-groniad - mae tua 80% o’r defnydd ar y system GEAC ar gyfer llyfrau printiedig. Mae graddfa catalogio defnyddiau heb fod yn brintiedig yn gyffredinol lawer yn is ond mae’n cynyddu’n gyflym (c50% ar gyfer mapiau a ffotograffau). Mae hefyd feysydd allweddol, megis AGSSC, nad yw ynghlwm â’r naill system na’r llall (cafodd y mater yma’I drin yn adroddiad Cam1) Er gwaetha’r problemau ymarferol hyn mae’r cynnydd wedi bod yn sylweddol ac mae’n cynrychioli cynydd gwirioneddol yn erbyn targed y Gweinidog o roi mynediad ar-lein i restr gynhwysfawr o bynciau.

- **Argymhelliad:** Dylai’r Llyfrgell egluro’i hamcanion ar gyfer ehangu’r mynediad trwy’r we i’r catalogau ac i’w blaenoriaethau. Mae cynlluniau pendant yn bodoli mewn perthynas â thai setiau arbennig o ddefnyddiau ond fe fyddai cynydd yn erbyn trosolwg yn creu targedau mwy gwir.

4.9 Mae’r mynediad i ddefnydd wedi ei ddigideiddio wedi bod, hyd yn ddiweddar, trwy gyfrwng dewis tudalennau’r we ar themâu arbennig megis y thema "Ymgyrch" ddiweddar.Yn ddiweddar mae cryn dipyn o ddefnyddiau wedi eu gwneud yn hygyrch o ganlyniad i ychwanegu delweddau o eglurdeb isel i’r systemau catalogio, sydd ar gael ar y we’n barod. Mae’r datblygiad hyn yn galonogol iawn ac mae’n cynnig y cyfle i weithio ar gyflwyno themâu mewn perthynas â chwricwla ysgolion a darparu defnydd o fudd addysgol, ac mae’n addas iawn ar gyfer delweddau a thestunau byrion. Ond nid yw’n ffurfio mynediad eang i ddefnyddiau wedi eu digideiddio i bwrpas ymchwil. I gyflawni hyn mae’r Llyfrgell yn gweithio ar ffyrdd i ganiatáu mynediad i ddefnyddiau dethol sydd wedi eu digideiddio trwy fynediad wedi ei reoli i ddata-basau "swyddfa gefn". Rhaid goresgyn dwy brif broblem. Yn gyntaf rhaid i’r Llyfrgell fod yn siwr nad yw’r torri rheolau hawlfraint. Yn ail rhaid i fynediad fod yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Mae’r Llyfrgell eisoes wedi gwella’i rhwydwaith i fod yn abl i ddelio â mwy o fynediadau allanol, ond nid yw eto wedi gwneud y gwaith angenrheidiol ar uwchraddio’i waliau tân diogelwch a rhoi trefniadau rheoli llwyth rhwydwaith yn eu lle. Mae ar y rhestr prosiectau ond mae wedi cael ei ohirio, yn bennaf oherwydd y pwysau a achoswyd gan y gwaith ar y prosiect "Casglu’r Tlysau". Cafodd y gwaith hwn ei ail ddyrannu i Adnoddau.

- **Argymhellion:**

  o Dylai’r Llyfrgell fonitro’r gwaith ar ddiogelwch sydd wedi ei ailflaenoriaethu’n ddiweddar ynghyd â rheoli llwyth ar gyfer mynediad o bell i’w chasgliadau sydd wedi eu digideiddio. Gallai hyn gymryd hyd at ddwy flynedd ac felly mae’n fater llwybr critigol.

  o Mae angen i’r Llyfrgell barhau i weithio gyda Llyfrgelloedd eraill i ddatrys materion hawlfraint a phenderfynu sut mae’n mynd i ganiatáu mynediad o bell dim ond i’r defnyddiau sydd â’r hawlfraint wedi ei glirio. Gwerthfawrogir fod hyn yn fater sy’n bur sensitif ac ni ellir ond datrys hyn mewn cydweithrediad â chyhoeddwyr.

**Casgliad o ddefnyddiau wedi eu digideiddio:**

4.10 Mae mater digideiddio deunydd y Llyfrgell ei hun yn cael ei drafod uchod. Hefyd mae yna gydweithrediad cynyddol rhwng y llyfrgelloedd adnau cyfreithiol i rannu mynediad i ddeunydd wedi ei ddigideiddio. Nid yw’r ddeddfwriaeth eto wedi ei ymestyn i gynnwys defnyddiau "digidol wreiddiol" ond mae rhai cyhoeddwyr yn adneuo’n wirfoddol ddefnyddiau sydd yn cael eu hychwanegu at gasgliadau. Daw hyn yn fater hynod bwysig pan fydd y ddeddf yn newid ac mae’n fater allweddol i SCOLD (Pwyllgor Sefydlog ar Adnau Cyfreithiol). Efallai y bydd materion hawlfraint ac amser seneddol yn ei gwneud yn anodd i’r mater yma gael ei drafod yn ystod bywyd y senedd bresennol. Yn y cyfamser ein barn ni yw bod y Llyfrgell yn gwneud cymaint ag y gellid disgwyl yn y maes yma.

**Cwblhau Rhan 1 o’r Ganolfan Ymwelwyr ar amser:**

4.11 Mae grwp llywio gaiff ei gadeirio gan y Llyfrgellydd yn rheoli amcanion gwasanaeth y prosiect hwn. Mae’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cadeirio’r tîm sy’n gyfrifol am drosglwyddo’r prosiect. Mae’r dangosyddion i gyd yn awgrymu y bydd y cerrig milltir cynnar yn cael eu cyrraedd - mae contractwyr wedi eu hapwyntio ac mae trefniadau mewn llaw i ddelio â’r trefniadau arlwyo. Ein hunig ofid yw bod yna gryn waith i’w wneud mewn amser cymharol fyr wrth drafod cynnwys y ganolfan a sut y bydd y rhain yn cael eu cyflwyno’n raddol. Mae’r monitor sy’n adolygu cynydd ar ran Cronfa Treftadaeth y Loteri yn gyffredinol fodlon gyda’r cynydd ond mae wedi lleisio peth siom ynglþn â diffyg arddangosfeydd newydd wedi eu seilio ar TG oedd wedi eu cynllunio ar gyfer rhannau cyntaf datblygiad y Ganolfan. Mae hyn yn adlewyrchiad o’r angen i reoli’n fanwl flaenoriaethau’r Adran Cyfrifiaduron y sonnir amdanyn nhw uchod.

- **Argymhelliad:** Dylai grðp llywio’r Profiad i Ymwelwyr gadw i adolygu‘r setiau o sgiliau maen nhw’u hangen i gwblhau’r prosiect ac ychwanegu atyn nhw os oes angen, er mwyn cael canlyniadau boddhaol.

**Sefydlu gwasanaethau wedi eu hanelu at addysg a dysgwyr:**

4.12 Er bod y mater hwn ar agenda’r Llyfrgell mae wedi cael ei ohirio rhywfaint oherwydd yr amser mae wedi ei gymryd i apwyntio Swyddog Addysg fydd yn arwain datblygiad i waith estyn allan i’r gymuned mewn ysgolion. Mae wedi ei phenodi ac fe fydd yn ymuno â’r staff yn yr haf. Mae’r Llyfrgell wedi bod yn fwy llwyddiannus yn ystod 2001-2 yn denu partïon ysgol i ymweld ag arddangosfeydd, yn enwedig arddangosfeydd ffotograffig pynciol megis "Ron’s World".

4.13 Hefyd mae cyfle da’n bodoli erbyn hyn i recriwtiaid newydd gael cryn effaith. Mae’r wybodaeth sydd wedi ei ddigideiddio ac sydd ar gael erbyn hyn yn adnodd sylfaenol addysg dda ac mae, er enghraifft, athrawon celf yng Nghymru, yn cymryd lluniau sydd ar gael ar wefan y Llyfrgell fel deunydd astudio sylfaenol. Hefyd fe fydd ymestyniad o allu arddangos y Llyfrgell yn darparu’r potensial ar gyfer casgliadau symudol ar raddfa fach fydd yn gallu ffurfio sylfaen i waith estyn allan i’r gymuned gan ysgolion. Gall ehangder y defnydd sydd ar gael ffurfio sail i becynnau adnoddau llawn dychymyg.

**Datblygu gwasanaethau gyda AU ac AB:**

4.14 Mae'r Llyfrgell wedi derbyn nifer o sylwadau o'r sector yn dweud y byddai gwelliant i wasanaethau'r rhyngrwyd yn bwysig . Fel a nodwyd uchod, mae cynnydd real a mesuradwy wedi ei wneud yn y maes hwn ac mae'n dal i symud ymlaen. Mae'r tîm arolwg yn cael peth adborth oddi wrth AD yn dweud bod rhai meysydd ddim wedi eu darparu cystal ag mewn llyfrgelloedd eraill - mae ymchwil diwydiant yn un achos. Mae teimlad nad yw'r cysylltiadau AB mor gryf â chysylltiadau gyda'r prifysgolion.

**Argymhellion:**

- Dylai'r Llyfrgell adolygu ei threfniadau rhwydweithio gydag adrannau ymchwil Prifysgolion a Cholegau AB er mwyn cael gwell adborth ar anghenion a gwelliannau posibl.

- Dylid defnyddio'r polisi Casgliadau sydd nawr ar droed fel cyfle i drafod gyda'r sector addysg uwch yr hyn mae'r Llyfrgell yn bwriadu ei ddarparu ac i hyrwyddo'r hyn sydd ar gael - mae gofid rhai defnyddwyr ynglþn â'r amrywiaeth deunydd wedi ei seilio'n fwy ar amgyffred nag ar wirionedd. Ni all y Llyfrgell fod yn bob peth i bawb. Mae hwn yn gyfle i egluro beth fydd, yn ogystal â beth fydd ddim, ar gael.

**Presenoldebau Llyfrgelloedd Agored y tu allan i Aberystwyth:**

4.15 Mewn ymgynghoriad gydag aelodau'r Cyngor, trafodwyd y mater hwn yn drylwyr. Yn rhy aml, mae'r syniad o bresenoldeb wedi ei weld yng Nghymru fel mater o "frics a morter". Mae'n fwy tebygol o fod yn bresenoldeb rhithwir mewn adeiladau sefydliadau eraill. Efallai y bydd angen i'r pwynt presenoldeb hefyd, yn y tymor hir, allu cynnig mwy na'r gwasanaethau ar gael ar y rhyngrwyd ac efallai, felly, y bydd angen caniatáu mynediad i wybodaeth wedi ei ddigideiddio nad yw ar gael dros y rhyngrwyd am resymau cyfreithiol. Byddai angen i'r Llyfrgell ddangos y gallai reoli mynediad i ac, yn arbennig, atgynhyrchu defnyddiau. Yn y tymor byrrach gellid creu presenoldeb trwy gynnig addysg mynediad i'r we, pecynnau gwybodaeth, fideos ac yn y blaen, mewn mannau dethol sy'n estyn allan i'r gymuned. Ar hyn o bryd does dim mannau fel hyn ar gael, er ni ddylid diystyru manteision gwir estyn allan i'r gymuned trwy'r arddangosfeydd teithiol a chydweithio proffesiynol, a amlinellwyd uchod. Yn yr ymgynghoriad mwy cyffredinol, nododd nifer o awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus a chyrff AU eu parodrwydd i weithio gyda'r Llyfrgell yn y modd hwn.

- **Argymhellion:**

    **o** Dylai'r Llyfrgell geisio nodi pwyntiau presenoldeb mewn adeiladau grwpiau estyn allan I'r gymuned wedi eu targedu ac sydd wedi eu seilio ar becyn wedi ei gynllunio i gynnwys presenoldeb ar y rhyngrwyd, hyfforddi a chefnogi copi caled, sain a deunydd gweledol. Mae ysgolion, llyfrgelloedd cyhoeddus, colegau AB a chanolfannau cymunedol mawr i gyd yn dargedau tebygol. Dylai cynlluniau arbennig i estyn allan i'r fath sefydliadau, ynghþd â'r cynlluniau ar gyfer yr adnoddau fyddai eu hangen, fod yn rhan o gynlluniau corfforaethol yn y dyfodol.

    **o** Byddai o fudd, trwy'r sianeli cyfathrebu arferol, petai'r Adran Diwylliant yn rhoi gwell arweiniad i'r Llyfrgell ar ffyrdd maen nhw'n credu y gallai'r strategaeth pwyntiau presenoldeb gael eu datblygu'n effeithiol mewn cydweithrediad â rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Datblygiad Casglu'r Tlysau:**

4.16 A bod yn hollol gywir aelod o'r consortiwm yw'r Llyfrgell a llywydd y prosiect ac mae cyfrifoldebau cyflenwi yn cael ei rannu ag eraill. Mae tîm y prosiect yn dîm llawn ac mae'r Llyfrgell yn cwrdd â'u hymrwymiadau i gyflenwi cyfleusterau i'r prosiect. Er gwaetha problemau cychwynnol ynglþn â darparu metadata (a

nodwyd o dan ddigideiddio uchod) mae’n ymddangos fod y prosiect erbyn hyn wedi ei sefydlu ac ar y ffordd i gyflawni ei amcanion.

**Cyflwyno Gwasanaeth**

4.17 Mae gan y Llyfrgell nifer sylweddol o ddangoswyr perfformiad sy’n ymwneud â chyflwyno gwasanaeth gaiff eu nodi yn ei Chyflwyniad Gweithredol. Caiff y rhain eu monitro a chyflwynir adroddiad ar sail reolaidd. Ceir nodiadau gyda’r adroddiadau er mwyn egluro’r gwahaniaethau sylweddol â’r targedau. Gwelir adroddiadau Chwarter 4 yn atodiad A. Hoffem dynnu sylw at y sylwadau canlynol:

- Mae targedau’r cynllun yn gyffredinol yn fwy cynhwysfawr wrth fesur gwasanaeth nag y maen nhw wrth fesur effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd - mae eitemau mewn cadwraeth, digideiddio a chyllid sydd wedi eu mesur, ond mae mesur effeithlonrwydd mewn meysydd craidd, megis derbyn defnyddiau a gwasanaethu darllenwyr, ar goll.

- Mae rhai targedau yn ymddangos yn anaddas. Dylai Eitem 1.1 ar dderbyn adneuon nadydynt yn gyfreithiol fod yn seiliedig ar ansawdd, nid ar faint. Hefyd nid ydym yn argyhoeddedig fod y targed o dreulio 2% o amser staff ar hyfforddiant ffurfiol yn cydnabod yn ddigonol yr amser mae rhai staff yn ei dreulio ar hyfforddiant anffurfiol (e.e. ar systemau) neu’n gweithio gyda grwpiau y tu allan i’r Llyfrgell.

- Ar wahân i hynny mae targedau gwasanaeth yn cael eu cwrdd, yn agos at gael eu cwrdd neu ddim yn cael eu cwrdd oherwydd trafferthion na ellid eu rhagweld sydd yn cael eu rheoli (e.e. cynlluniau i adfer amser a gollwyd ar ddigideiddio profebion trwy fenthyg sganiwr arall).

**Y Materion Eang**

4.18 Y themâu arweiniol sydd wedi eu gosod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw mynd ar drywydd cyfleon cyfartal, ymdrin ag anfantais gymdeithasol a llwyddo i sefydlu datblygiadau cynaladwy. Mae’r Llyfrgell yn cyfrannu at y rhain yn nhermau sut mae’n ymddwyn fel sefydliad cyhoeddus ac yn nhermau’r gwasanaeth mae’n ei gynnig. Mae mynd ar drywydd cyfleon cyfartal oddi fewn i’r Llyfrgell yn cael ei amlygu gan y lefel uchel o gyfathrebu mewnol sydd wedi ei sefydlu ac a gaiff ei ddatblygu ymhellach pan ystyrir materion bandiau cyflog mewn cydymffurfio ag argymhelliad 7 o adroddiad Rhan 1. Bydd darparu gwybodaeth a chael mynediad i gasgliadau trwy weithgareddau cyrraedd allan cynyddol yn gyfraniad pwysig i wasanaethu’r ymgeisio am gyfleon cyfartal yng Nghymru.

4.19 Mae darparu gwasanaethau rhad ar bwynt mynediad yn bwysig wrth herio anfantais gymdeithasol. Gellir disgwyl i gynlluniau’r Llyfrgell ar gyfer ehangu gwasanaethau addysgol wneud cyfraniad pwysig yn y cyswllt hwn.

4.20 Wrth geisio am ddatblygiadau cynaladwy mae’r Llyfrgell wedi bod yn ofalus i ddatblygu gweithgareddau newydd, megis digideiddio, mewn ffordd a ellir ei gynnal i ddarparu gwelliannau gwirioneddol i’r gwasanaeth. Mae i’r chwilio am bartneriaethau i fynd ar drywydd rhai amcanion y fantais o uno grwpiau gydag amcanion cyffredin i ymdrin â phrosiectau gyda dealltwriaeth gyffredinol well a chyfle am lwyddiant. Yn y gymuned letach mae’r Llyfrgell mewn sefyllfa i wneud cyfraniadau mwy i’r sector addysg gyfan ac i helpu yn natblygiad canolbarth Cymru trwy ddatblygu i fod yn atyniad mwy drosti ei hun yn Aberystwyth.

**Crynodeb**

4.21 Mae’r Llyfrgell yn gwneud cyfraniadau positif iawn tuag at nodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nhermau datblygiad y fframwaith diwylliannol a’r hyrwyddo cyfartal o’r iaith Gymraeg a’r Saesneg. Mae hefyd wedi gwneud cynydd sylweddol tuag at y targedau arbennig osodwyd gan y Gweinidog ac mae wedi cyrraedd y targedau sydd wedi eu mesur. Mae’r rhaglen datblygu sydd mewn llaw yn gwneud cyfraniad cynyddol tuag at amcanion mwy eang y Cynulliad. Natur nifer o weithredoedd y Llyfrgell yw eu bod yn cymryd amser i gynhyrchu canlyniadau sylweddol ac mae angen buddsoddiad parhaol yn y rhydwaith mewnol. Mae’r gallu i gynhyrchu mwy yn cael ei sefydlu, ond mae’n bwysig i fod yn realistig yngln ag amserlennu a chadw i ganolbwyntio ar flaenoriaethau.

# 5. Llywodraeth Gorfforaethol

### Trefniadau Rheoli Ariannol a Rheolaethol.

5.1 Fel y disgrifiwyd yn Rhan 1 mae perthynas ariannol a rheolaethol rhwng y Llyfrgell a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei reoli gan Osodiad gan y Rheolwyr a Memorandwm Ariannol, a thrwy hwn caiff y Llyfrgellydd ei sefydlu fel y Swyddog Cyfrifeg. Mae hwn hefyd yn pennu'r strwythur cynllunio sydd i'w fabwysiadu gan y Llyfrgell a'r materion mae'n rhaid i'r broses gynllunio eu hystyried. Mae hefyd yn darparu ar gyfer gosod targedau a mesuryddion perfformiad. Mae'r Llyfrgell wedi gosod y mesurau hyn i gyd yn eu lle.

5.2 Mae Grant Mewn Cymorth (GMC) yn cael ei hawlio drwy fecanwaith o ddatganiadau o dderbynion a thaliadau gyflwynir gan y Llyfrgell - drwy'r mecanwaith hwn mae'r Llyfrgell yn cael ei chyfarwyddo i osgoi dal mantolen weithio uwch na 2% o'r GMC blynyddol. Mae'r cyfrifo hwn wedi ei reoli gan y Llyfrgell mewn modd proffesiynol oddi fewn i'r rheolau. Mae trefniadau ar gyfer trafod cario mwy ymlaen o flwyddyn i flwyddyn yn cael ei ragweld oddi fewn i'r Memorandwm Cyllidol ond nid yw'r angen wedi codi hyd yma.

5.3 Mae anghenion ar gyfer archwiliad wedi eu dilyn ac maen nhw'n cael eu trafod isod.

5.4 Mae un maes lle nad yw'r Llyfrgell yn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd osodwyd. Yn sylfaenol problem drafftio'r memorandwm yw hyn, yn hytrach na phroblem gydag arferion y Llyfrgell . Mae Cymal 4.5.2 Datganiad y Rheolwyr yn ei gwneud yn glir bod holl incwm y Llyfrgell, yn cynnwys arian na ddaw o'r Trysorlys, yn cael ei drin fel arian cyhoeddus. Mae Cymal 2.1.4 o'r Memorandwm Cyllid yn nodi "Os digwydd bod arian dros ben, rhaid ei roi ar gadw nes y gellir ei ddefnyddio". Atgyfnerthir hyn gan gymal 4.2. Ymddengys bod y cyfuniad o'r cymalau hyn yn gwahardd buddsoddi arian preifat y Llyfrgell (gafwyd o gyfraniadau a chymynroddion) mewn gwariannau. Mae cryn dipyn o hyn yn y tymor canolig i hir. Mae hyn wedi bod yn mynd ymlaen ers i'r Llyfrgell dderbyn cyllid cyhoeddus trwy ganiatâd y Swyddfa Gymreig ac, yn awr, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hefyd yn faes gweithgaredd sy'n cael ei reoli'n dda gan y Llyfrgell, gyda chyllid cyhoeddus yn cael ei gadw'n hollol arwahan i GMC, a chyllid cyfyngedig yn cael ei gadw arwahan i arian anghyfyngedig.

- **Argymhelliad:** Dylid arolygu'r Memorandwm Cyllidol a dylid addasu'r geiriad i ganiatáu mwy o ryddid wrth fuddsoddi arian preifat (yn ôl rheolau'r Comisiwn Elusennau) tra'n cadw'r cyfyngiadau ar gyllid sy'n tarddu o'r GMC.

5. Arwahan i hyn mae'r trefniadau oddi fewn i'r Memorandwm yn addas ac maen nhw'n darparu ar gyfer digon o atebolrwydd cyhoeddus. Mae rhai o'r awdurdodau dirprwyedig yn ymddangos yn isel, o gofio lefel monitro'r Cynllun Gweithredol a'r taliadau, ac rydym yn deall nad yw'r rhain wedi eu hadolygu ers peth amser.

    **Argymhelliad:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r lefelau o awdurdod gaiff eu dirprwyo i'r Llyfrgell o dan y Memorandwm Cyllidol yng ngolau gweithgareddau monitro eraill sy'n bodoli ac i gymryd chwyddiant i ystyriaeth.

5.6 Adolygodd y tîm adolygu setiau'r Llyfrgell ei hun o awdurdodau sy'n plethu â'r rhai osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y Memorandwm Cyllidol. Mae'r rhain yn cwrdd â gofynion sydd wedi eu sefydlu a sefydlu rheolaeth addas dros gaffael nwyddau ac mae'n fodd i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol..

### Archwiliad Mewnol ac Allanol

5.7 Rydym wedi adolygu'r adroddiadau archwiliad allanol gynhyrchwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac wedi trafod yr arolwg o'r Llyfrgell gyda rheolwr yr arolwg. Mae'r adroddiadau'n creu darlun o gyllid sy'n cael ei redeg yn effeithiol a lefel dda o hyder yn y rheolwyr i ymgymryd â'u dyletswyddau'n effeithiol yn hyn o beth. Dim ond un gwyn barhaus a geir ynglþn â methiant y Llyfrgell i weithredu archwiliad effeithiol annibynnol o'r rhestr gyflogau trwy wahanu ei swyddogaethau.

5.8 Caiff y rhestr gyflogau ei pharatoi gan y swyddogaeth cyllid ac nid oes gwirio rheolaidd annibynnol ar y rhestr gyflogau gan yr adran personél. Ni cheir awgrym o golledion arwyddocaol neu gamymddwyn, ond mae gofid bod y trefniadau presennol yn agored i'r ddau. Mewn amddiffyniad mae'r Llyfrgell yn nodi mai adrannau bychain yw cyllid a phersonél, mai dim ond yn ddiweddar maen nhw wedi gallu apwyntio swyddog personél a bod gwneud archwiliad addas yn flaenoriaeth i'r penodiad newydd, ynghydþâ chyflwyno meddalwedd bas-data gwell er mwyn hwyluso archwilio.

- **Argymhelliad:** Dylid cofnodi trefn archwilio'r rhestr gyflogau a'i gopïo ar y cyfle cyntaf i gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

5.9 Mae'r gwasanaethau archwilio mewnol yn cael eu hanfon allan i gwmni o gyfrifwyr, yn ddibynnol ar broses tendro gystadleuol. Mae'n amlwg bod y Llyfrgell yn cael gwell gwasanaeth gan y cwmni presennol nac a gawsant gan ei ragflaenwyr. Mae'r cwmni hefyd yn gallu cynhyrchu gwaith o safon uchel ar faterion TG. Mae argymhellion defnyddiol wedi cael eu gwneud ar yr amgylchedd rheoli mewnol. Caiff gwaith yr archwiliad mewnol ei wella pan fydd ei raglen yn fwy cynhwysfawr o ganlyniad i'r dadansoddiad risg wnaed mewn ateb i argymhellion adroddiad Turnbull (gweler isod) ac mewn ateb i fframwaith Gwerth Gorau, sydd yn y broses o gael ei ffurfio, gan y Llyfrgell.

## Y Pwyllgor Archwilio

5.10 Caiff y Pwyllgor Archwilio'i gadeirio gan yr Is-Lywydd ac fe'i ffurfir gan aelodau cyfetholedig y Cyngor ynghþd â'r archwilwyr. Mae'r Llyfrgellydd (Swyddog Cyfrifeg) a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn mynychu cyfarfodydd. Yn ein dealltwriaeth ni o'r term mae felly'n cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol. Er bod yr Is-Lywydd, fel y Llywydd a'r Trysorydd yn Swyddog etholedig o'r Cyngor, nid oes ganddo unrhyw gyfrifoldeb dros weithrediadau o ddydd i ddydd y Llyfrgell. Mae aelodau eraill y Cyngor sy'n gwasanaethu ar y pwyllgor hefyd yn anweithredol ac yn annibynnol o'r rheolwyr. Mae felly'n cydymffurfio ag argymhellion y Trysorlys.

5.11 Er hynny, yn ein barn ni, gellid cryfhau'r Cyngor trwy ychwanegu aelod annibynnol o'r tu allan i'r Llyfrgell, yn enwedig os y gellid dod o hyd i aelod â phrofiad diweddar o ddatblygu gwaith, a gweithredu ar, Bwyllgor Archwilio, i roi cyngor i aelodau anweithredol ar y rôl ddatblygedig.

- **Argymhelliad:** Bod y Cyngor yn ystyried cryfhau'r Pwyllgor Archwilio trwy ychwanegu aelod o'r tu allan i'r Cyngor gyda phrofiad perthnasol diweddar yn y sectorau preifat neu gyhoeddus.

5.12 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Heb fod yn gyfarwyddol mae angen i'r cyfarfodydd gael eu cynnal yn ddigon aml i ddelio â'r agenda ganlynol:

- Adolygiad annibynnol o'r cyfrifon ar gyfer eu cyhoeddi - yn enwedig yn y polisïau ymholgar a chyfrif, rhoi'r safonau cyfrifo ar waith ac amcangyfrif cronfeydd a darpariaethau.
- Ystyriaeth o adroddiadau archwilio allanol a mewnol a gweithredu ar unrhyw gamau angenrheidiol.
- Herio archwilwyr ynglþn â'i ymdriniaeth a'u tybiaethau.
- Gwerthuso risgiau a sicrhau bod y camau addas mewn lliniaru yn cael eu cymryd.

- Darpariaeth ar gyfer cyfarfodydd preifat rhwng y cadeirydd a'r archwilwyr.

- Cytundeb a monitro'r rhaglen archwilio mewnol a dilyn y gweithredoedd canlyniadol.

5.13 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n rheoli'r math hwn o raglen ar sail 3-5 cyfarfod y flwyddyn wedi eu trefnu i gyd-fynd â dyddiadau allweddol megis dyddiad cwblhau'r arolwg allanol, arolygu'r dogfennau risg, dyddiadau cwblhau ar gyfer gwaith arolygu mewnol hollbwysig a chynigiad y rhaglen arolwg mewnol blynyddol.

## Asesu Risg

5.14 Erbyn hyn gwelir y dylai asesu risg fod wrth galon Llywodraethu Corfforaethol. Gwelir gwerthfawrogiad o'r risg mae unrhyw sefydliad yn ei wynebu fel bod wrth galon gonestrwydd ac yn sicrhau bod sylw manwl yn cael ei dalu i feysydd risg uchel a meysydd sy'n wynebu'r posibilrwydd o golledion uchel.

5.15 Yn y mater hwn mae'r Llyfrgell ar y blaen i nifer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus wrth weithredu ar argymhellion Pwyllgor Turnbull. Cwblhawyd yr arolwg risg ar draws yr holl sefydliadau yn ystod chwarter cyntaf 2002. Adolygwyd risgiau ar lefel corfforaethol ac adrannol ac yna'u categoreiddio yn nhermau'r lefel o risg a'r effaith debygol petai risg yn cael ei wireddu. Cafodd yr ymarferiad ei gydlynu gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac mae erbyn hyn wedi cynhyrchu cyfres o weithrediadau arfaethedig i liniaru'r risg - cryfhau rheolaeth fewnol, gweithredu oddi fewn i'r rhaglen arolwg mewnol, buddsoddiadau mewn diogelwch ac ati.

5.16 Mae'r Llyfrgell i'w llongyfarch ar yr hyn mae wedi ei gyflawni hyd yma ac mae adrannau yn y Cynulliad Cenedlaethol wedi dangos peth diddordeb mewn mabwysiadu ei methodoleg. Mae'r sialensiau y daethom ar eu traws yn ddeublyg:

- Yr angen i ymgorffori'r fframwaith asesu yng ngwaith y Pwyllgor Archwilio- ei amlygu i archwiliad a holiadau, a sicrhau ei fod yn hysbysu'r rhaglen arolwg mewnol.

- Ymgorffori'r arolwg risg yn y broses gynllunio er mwyn helpu'r broses o flaenoriaethu gwaith a buddsoddiadau.

## Cynllunio Corfforaethol

5.17 Yn y rhan uchod ar Drefniadau Rheoli Ariannol a Rheolaethol rydym wedi dweud bod y trefniadau cynllunio'n cydymffurfio â'r Memorandwm Ariannol. Mae hyn yn wir. Mae'r Llyfrgell yn cynhyrchu Cynllun Corfforaethol tair blynedd gaiff ei ddilyn gan Gynllun Gweithredol blwyddyn wedi ei seilio ar ariannu GMC (GIA) gytunwyd gyda Adran Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae nifer o nodweddion yn y dogfennau hyn sy'n haeddu cymeradwyaeth. Yn benodol fe fyddem yn argymell:

- Datganiad clir iawn o flaenoriaethau a chyfeiriad strategol, a'r hyn mae'r Llyfrgell yn mynd i'w gyflenwi yn nhermau gwasanaeth.

- Datganiad clir o’r gwelliannau sy’n cael eu cynnig i’r gwasanaeth, costau’r rhain a’r flaenoriaeth roddir iddyn nhw gan y Llyfrgell.

- Golwg lefel uchel wedi ei chyflwyno’n dda ar sut bydd y cynllun yn cael ei ariannu o’r gwahanol ffurfiau o gyllido sydd ar gael - grant mewn cymorth, ariannu preifat, gweithgareddau masnachol a grantiau oddi wrth wahanol gyrff.

5.18 Hoffem hefyd gymeradwyo’r ffaith bod y Llyfrgell yn defnyddio’i fecanwaith cyfathrebu i ymgynghori â staff ar elfennau ychwanegol o wasanaeth maen nhw’n ei deimlo y gellid eu cynnig i gynyddu’r gwerth ymddangosiadol.

5.19 Yn erbyn y cefndir hwn rydym yn dal i deimlo bod lle i wella. Hoffem dynnu sylw arbennig at y materion canlynol:

- Mae cynllunio’n dal i fod wedi ei ganoli’n llwyr bron yn y Llyfrgell. Mae’r rhagolygon ariannol gaiff eu cynnwys yn y cynlluniau wedi eu tynnu at ei gilydd gan Cyllid. Yn y tymor byr, yn dilyn yr ail-strwythuro trefniannol dyw hyn ddim fawr o syndod, ond mae angen ar i reolwyr gweithredol adeiladu gwell dealltwriaeth o sut mae adnoddau’n cael eu defnyddio i gyflwyno gwasanaethau ac felly’n sefydlu’r strwythur newydd ac ymestyn eu galluoedd rheoli. Mae cyllidebau nawr yn cael eu trafod yn rheolaidd gan y Tîm Rheolwyr Hþn. Ond mae’r rhan mae rheolwyr adrannau a staff yn ei chwarae yn dal yn isel. Mae ein harolwg o sefydliadau tebyg wedi datgelu nifer fawr o anghysonderau yn y dulliau ddefnyddir i gyflenwi gwasanaethau ac fe fyddai’n beth da petai ffyrdd y Llyfrgell o weithio’n cael eu gwerthuso’n erbyn methodoleg amgen.

- Dim ond ychydig o gynllunio gwaith cyfeintiol sy’n bwydo’r ymarfer cynllunio. Fyddai hyn ddim yn addas ar gyfer pob maes ond byddai’n berthnasol, er enghraifft, i drafod defnyddiau adnau cyfreithiol, ymweliadau darllenwyr neu ymholiadau darllenwyr. Byddai’n fwy credadwy i bennu cysylltiad clir, lle’n bosibl, rhwng y llwythi o waith a’r lefelau staffio a gallai alluogi’r Llyfrgell i arddangos effeithlonrwydd gweithredol yn wyneb llwythi cynyddol o waith.

- Nid yw gweithgareddau cyfredol yn cael eu cwestiynu’n glir oddi fewn i’r broses gynllunio - os ydyn nhw does dim tystiolaeth bod hyn wedi ei wneud. Eto rhaid cydnabod bod terfynau’n bodoli - er mwyn bod yn aelod o’r Rhaglen Rhannu Catalogau Llyfrgelloedd Hawlfraint (CLSCP) a chael budd o rannu gwaith, mae’n rhaid i’r Llyfrgell ymrwymo i safonau cyffredin y grðp. Er hyn mae meysydd lle mae mwy o ddewisiadau ynglþn â sut y gwneir gwaith, i ba safon ac i ba raddau. Byddai’n ddefnyddiol ynysu elfennau o waith crai sy’n ddewisol, er mor llesol, o’u cymharu â’r rhai sy’n orfodol.

- O ganlyniad ymddengys gweithgareddau newydd yn y broses gynllunio fel gofynion cyllido newydd. Ni chyflwynir unrhyw dystiolaeth na ellid mynd ar drywydd y rhain o ganlyniad I ail-flaenoriaethu oddi fewn i’r lefelau cyllido presennol. Nid yw hyn yn mynnu nad oedd achos cryf dros fwy o ariannu er mwyn cefnogi mwy o wasanaethau o fewn y blynyddoedd diweddar. Gellir rhagweld amgylchiadau lle bydd yn angenrheidiol ailasesu’r gweithgareddau presennol - e. e pan fydd adnau cyfreithiol ar ffurf ddigidol yn arferol. Byddai’n ddefnyddiol i ailasesu rheolaidd ddod yn ymarferiad arferol cyn digwyddiad o bwys o’r math yma.

5.20 Rydym felly’n ystyried bod newidiadau o fudd yn y broses gynllunio fyddai’n galluogi’r Llyfrgell i dangos cynnydd yn fwy effeithiol.

- **Argymhelliad:** Dyllai’r Llyfrgell adolygu ei ymdriniaeth, yn enwedig o’r broses Cynllunio Corfforaethol dros y tymor hirach, i bwysleisio’r elfennau canlynol:

  - Mwy o ymrwymiad ar ran y rheolwyr gweithredol yn y broses.

  - Mwy o bwyslais ar edrych ar ffyrdd amgen o weithio (petai ond i’w gwrthod).

  - Cysylltiadau cryfach â chynllunio gwaith cyfeintiol fyddai’n creu targedau mesuradwy.

  - Dealltwriaeth well o’r gweithgareddau gorfodol a dewisol.

o Mwy o herio’r gweithgareddau sy’n bodoli (mwy o ymdriniaeth ar sail angen).

5.21 Yn ddiweddar iawn mae’r Llyfrgell wedi rhaeadru ei gynllun gweithredol i mewn i bob Rhan grëwyd o ganlyniad i’r ail-strwythuro. Dylid cymeradwyo hyn fel modd o roi ffocws clir i’r timau oddi fewn i’r Rhaniadau hyn. Mae nifer o ddogfennau strategaeth hefyd wedi eu hysgrifennu i ddelio â materion megis digideiddio, TGCh, marchnata ac arddangosfeydd. Ysgrifennwyd nifer o’r rhain cyn yr ail-strwythuro ac fe’u hysgrifennwyd ar adegau gwahanol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. O ganlyniad ceir rhai problemau cydgysylltu, yn enwedig rhwng digideiddio a TGCh ac mae eraill nad sy’n adlewyrchu’r strwythur rheoli a’r canoli adnodau presennol. Yn ein barn ni byddai o gymorth petai’r strategaethau sy’n bodoli yn cydgysylltu’n fwy effeithiol gyda’r broses gynllunio corfforaethol.

- **Argymhellion:**

    o Dylai dogfennau strategaeth gael eu harchwilio’n flynyddol i wirio’u perthnasedd â’i gilydd a gyda chynnwys y cynllun corfforaethol.

    o Rydym yn awgrymu bod strategaethau nad ydynt bellach yn briodol i’r sefyllfa gyfredol yn cael eu tynnu’n ôl ac yn eu lle dylid rhoi datganiad byr o amcanion allweddol nes bod amser ar gael ar gyfer atgyweirio trylwyr ac ystyriaeth gan y Cyngor.

    o Rydym yn awgrymu bod datganiadau byrion o strategaethau, wedi eu seilio ar arolwg o’r amgylchedd gweithredol a’r amcanion allweddol yn llawer mwy effeithiol, ac yn haws i’w diweddaru a’u dosbarthu, na dogfennau swmpus.

## Fframwaith Effeithiolrwydd

5.22 Fel a ddisgrifir yn y rhan Gwasanaethau Corfforaethol o adran 3 uchod, mae peth gwaith tendro cystadleuol wedi ei wneud oddi fewn i’r maes hwn o weithrediadau, a deimlwyd, yn rhesymol ddigon, i fod y maes fyddai’n denu’r diddordeb potensial mwyaf gan darparwyr ar gyfer y farchnad. Mae cymhwyso’r ymdriniaeth hwn â meysydd crai’r Systemau Casglu a Gwasanaethau Cyhoeddus yn amlwg yn anodd, o gofio’r sgiliau arbenigol fyddai eu hangen, a lleoliad y Llyfrgell.

5.23 Ar hyn o bryd mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn sefydlu grðp llywio i reoli’r chwilio am brosiectau gwerth am arian oddi fewn i’r Llyfrgell ond nid yw’n weithredol eto. Yn amlwg mae’r aildrefnu ei hun wedi magu golwg newydd ar sut mae gwahanol agweddau o’r gwasanaethau’n cael eu cyflwyno. Mae hyn yn benodol wir am yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus lle mae’r Cyfarwyddwr a’i dîm yn cymryd golwg newydd ar beth yw’r ffordd orau i ymateb i’r holl amrywiaeth o alw gan ddefnyddwyr ac estyn allan i’r gymuned. Yn ei dro mae hyn yn hyrwyddo meddylfryd mwy positif ynglþn â sut y gall swyddogaethau oddi fewn i’r tîm weithio orau gyda’i gilydd. Enghreifftiau o hyn fyddai marchnata effeithiol ar y rhyngrwyd, defnyddio sgiliau arddangos i ateb gofynion addysg a chysylltu mwy effeithiol rhwng ymholiadau cwsmeriaid a chwynion am ddatblygiad gwasanaethau darllenwyr.

5.24 Mae’r ffaith fod staff y Llyfrgell yn cymryd rhan mewn nifer o gyrff a phrosiectau cydweithredol yn golygu fod cyfleon ychwanegol yn codi i gasglu gwybodaeth ynglþn a sut mae sefydliadau eraill yn cynllunio’u prosesau i gyflenwi gwasanaethau. Er bod enghreifftiau o gasglu’r fath wybodaeth fel sail i adolygu gweithgareddau oddi fewn i’r Llyfrgell, ni ellir, ar hyn o bryd, ei ddisgrifio’n systematig.

- **Argymhelliad:** Dylai’r grðp llywio Gwerth Gorau sicrhau bod pob elfen o weithredu’r Llyfrgell wedi eu seilio ar ymgynghoriad gyda defnyddwyr (allanol a mewnol) a rhoi sialens i’r prosesau a ffyrdd o weithio presennol fel elfennau allweddol yn y broses gynllunio. Dylid mabwysiadu dangosyddion perfformiad er mwyn effeithlonrwydd yn ogystal ag effeithiolrwydd y gwasanaeth, er mwyn arddangos gweithio effeithiol yn erbyn cymysgedd cyfnewidiol a’r llwyth o waith.

## Natur Agored, Ansawdd a Delio â Chwynion

5.25 Yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus sy’n delio â’r holl gysylltiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol gyda defnyddwyr unigol y Llyfrgell. Mae’r Llyfrgell yn diffinio’r defnyddwyr hyn fel darllenwyr, gaiff dicedi sy’n eu caniatáu i ddefnyddio’r ystafelloedd darllen, ac ymwelwyr, sy’n ymweld â’r Llyfrgell fel unigolion, rhan o grŵp ar daith, neu i edrych ar arddangosfeydd.

**Mynediad i wasanaethau’r Llyfrgell**

5.26 Mae gan y Llyfrgell bolisi drws agored, yn cynnig tocynnau darllenwyr i unrhyw un dros 18. Mewn amgylchiadau eithriadol gall pobl dan 18 gael tocyn darllenwr. Mewn gwrthgyferbyniad, dyw’r llyfrgelloedd cenedlaethol a rhai adnau cyfreithiol eraill ddim ond yn rhoi cynnig tocynnau i raddedigion ac, yn achos y Llyfrgell Brydeinig, dim ond os nad yw’r deunydd maen nhw’i angen ar gael rywle arall.

27. Mae sawl rhan o’r Llyfrgell yn hollol agored i unrhyw aelod o’r cyhoedd. Mae’r rhain yn cynnwys mannau arddangos ac orielau, y ffreutur a’r siop. Yn ystod cyfnod yr arolwg ymwelodd amrywiaeth o unigolion a grwpiau â’r Llyfrgell, yn cynnwys teuluoedd, plant ysgolion cynradd, grwpiau hanes lleol a ffotograffig ac eraill.Fe fydd y polisi drws agored yma’n cael ei ymestyn gydag agor siop newydd, t bwyta, a chyfleusterau i bartïon ysgol yn hwyrach yn 2002, ac yn 2004 gydag agoriad y theatr aml-gyfrwng newydd.

5.28 Mae’r polisi drws agored hwn yn cydymffurfio â gweledigaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y Cynllun i Gymru a Rhoi Cymru Gyntaf, sy’n pwysleisio pwysigrwydd cynhwysiad cymdeithasol, cydraddoldeb cyfle a hyrwyddo dysgu gydol oes

**Mynediad o bell**

5.29 Trwy switsfwrdd y teleffon, e-bost a’r wefan y ceir mynediad o bell i’r Llyfrgell. Caiff y ddau olaf eu trafod mewn man arall yn yr adroddiad hwn. Mae gan y Llyfrgell switsfwrdd awtomatig dwyieithog, sy’n cynnig dewis i alwyr i gael ateb yn y Gymraeg neu’r Saesneg. Mae’r cysylltiad cyntaf yma’n ymddangos fel petai’n gweithio’n dda, ond o’r ymarferiad ymgynghorol nododd rhai galwyr drafferthion mewn enwi, a chael eu rhoi trwodd at, y person cywir. Ar un achlysur ni allodd y tîm adolygu fynd heibio i’r ateb awtomatig oherwydd problemau meddalwedd. Efallai i’r problemau yma godi oherwydd gosod y meddalwedd newydd, a chanlyniad byrdymor yr ail-strwythuro ac adleoli nifer o staff i swyddfeydd newydd. Er hynny, gellir creu argraff wael o’r Llyfrgell trwy ymgais aflwyddiannus i gysylltu â’r Llyfrgell.

- **Argymhelliad:** Bod y Llyfrgell yn adolygu’r prosesau sy’n ymwneud â mynediad trwy deleffon er mwyn cynyddu effeithiolrwydd. Gallai hyn gynnwys neges wahanol ar beiriant ateb yn ymddiheuro am broblemau meddalwedd, a’r derbynnydd yn nodi wrth enw a rhif yr estyniad y person mae’r galwr yn ceisio cysylltu ag ef rhag ofn iddynt gael eu datgysylltu yn ystod yr alwad.

**Mynediad i’r anabl**

5.30 Dyw adeilad gwreiddiol 1907 y Llyfrgell ddim yn darparu mynediad hawdd i bobl ag anabledd, gan fod y prif fynedfa ar ben rhes hir o risiau carreg. Nid yw’n bosibl gosod ramp oherwydd goledd serth y safle ac ni fyddai’n gweddu o gwbl gyda’r adeilad rhestredig Gradd II*.

5.31 Mae’r Llyfrgell yn cynnig dewis arall i bobl â phroblemau symud o gwmpas trwy ddefnyddio mynediad staff ar y llawr gwaelod, sydd wedi ei gysylltu â’r lloriau eraill trwy lifftiau. Mae’r trefniadau yma braidd yn anfoddhaol, gan eu bod yn golygu bod aelodau o’r cyhoedd yn pasio drwy rannau sydd yn staff-yn-unig sy’n cynnwys staciau llyfrau. Mae’r Llyfrgell yn ymwybodol iawn o’r problemau hyn ac, fel rhan o’r paratoadau ar gyfer y Profiad i Ymwelwyr newydd, mae wedi bod yn trafod gydag amrywiol grwpiau i sicrhau mynediad i bobl â gwahanol anableddau. Mae’r cynlluniau’n cynnwys mynediad llawn i’r anabl a chyfleusterau toiled, ac arwyddion wedi eu cynllunio i gwrdd ag anghenion pobl â nam ar eu golwg. Mae adolygu’r ddarpariaeth ar gyfer yr anabl wedi ei osod fel targed gweithredol i’r Adran

Gwasanaethau Cyhoeddus.

- **Argymhelliad:** Bod cynrychiolwyr pobl gydag anableddau'n cael eu gwahodd i ymuno â'r grwðp cynllunio ar gyfer y Profiad i Ymwelwyr a'r grðp Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi eu sefydlu i adolygu'r mater hwn, i sicrhau monitro parhaol o ddatblygiadau yng ngolau amrywiol anghenion pobl ag anableddau. Gallai hyn gynnwys cynrychiolaeth o fudiadau lleol ar gyfer pobl ddall, byddar a'r rhai ag anabledd corfforol.

**Cynhwysiad addysgol a chymdeithasol**

5.32 Yn wahanol i'r llyfrgelloedd cenedlaethol ac adnau cyfreithiol eraill, roedd y Llyfrgell yn annog ymweliadau gan blant ysgol, roedd nifer yn amlwg yn ystod yr arolwg. Er mwyn cefnogi a hybu ymweliadau ysgolion mae'r Llyfrgell wedi apwyntio swyddog addysg, fydd yn cychwyn ar y swydd ym mis Gorffennaf. Ar wahân i oruchwylio'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer partïon ysgolion y Profiad i Ymwelwyr, bydd gan y swyddog addysg gylch gwaith ehangach i ddatblygu defnyddiau addysgu o gasgliadau'r Llyfrgell yn gefnogaeth i'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys eitemau wedi eu seilio ar y we.

5.33 Hyd yn hyn dyw'r Llyfrgell ddim wedi gorfod darparu ar gyfer anghenion pobl â sgiliau llythrennedd gwan. Ond, os yw'r Profiad i Ymwelwyr i gwrdd â'i nodau sydd wedi eu datgan, o ddod â'r Llyfrgell i gymdeithas ehangach nag yn y gorffennol, rhaid fydd ystyried anghenion y rhai â sgiliau llythrennedd gwan.

- **Argymhelliad:** Y gallai'r swyddog addysg sydd newydd ei apwyntio fod yn rhan o'r ystyriaeth ar sut y byddai orau i gwrdd ag anghenion pobl â sgiliau llythrennedd gwan, er enghraifft wrth baratoi i labelu'r pethau gaiff eu harddangos a thapiau sain. Fe fyddai tapiau sain hefyd yn cwrdd ag anghenion pobl â nam ar eu golwg.

5.34 Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Profiad i Ymwelwyr, mae'r Llyfrgell wedi ymgymryd ag arolwgallanol o fynediad er mwyn canfod o ble mae pobl yn teithio, sut maen nhw'n teithio, hþd ac amser y daith, a'r problemau a'r gwelliannau gaiff eu hawgrymu ar gyfer rhannau allanol y Llyfrgell. Mae'r adroddiad sy'n nodi'r canlyniadau newydd ei gwblhau ac fe fydd y canlyniadau'n cael eu cynnwys yn y cynlluniau ar gyfer y Profiad i Ymwelwyr.

**Safonau gwasanaeth**

5.35 Cafwyd newid amlwg mewn agwedd at ddefnyddwyr y Llyfrgell dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a gwelir hyn yn rhai o'r taflenni hþn, sy'n dal i gael eu defnyddio. Mae'r hen "Rheolau ar gyfer darllenwyr" yn nodi'n foel 14 o reolau a dim ond yn rhif 15, yr olaf, y nodir "Mae staff y Llyfrgell yn awyddus i helpu darllenwyr ble bynnag mae hynny'n bosibl". Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr â'r Datganiad Siarter Safonol, sy'n rhestru'r safonau gwasanaeth y gall y cyhoedd eu disgwyl gan y Llyfrgell. Mae'r rhain yn cynnwys polisi dwyieithog, mynediad ac amserau targed ar gyfer ymholiadau a cheisiadau.

5.36 Er bod y safonau yma'n ganmoladwy, mae'n ddadleuol y gellid eu datblygu ymhellach. Er enghraifft, does dim safon ar gyfer agweddau staff megis cwrteisi a chymwynasgarwch. Er hynny, mae yna darged yn y cynllun gweithredol adrannol i sefydlu safonau croeso i ymwelwyr erbyn Medi 2002.

- **Argymhelliad:** Bod y Llyfrgell yn datblygu ymhellach ei safonau gwasanaeth, yn ddelfrydol trwy ymgynghoriad gyda defnyddwyr ynglþn â'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, ochr yn ochr â mecanwaith ar gyfer monitro a gwerthuso.

**Gwasanaeth dwyieithog**

5.37 Mae'r Llyfrgell yn unigryw ymhlith llyfrgelloedd cenedlaethol a rhai adnau cyfreithiol ar Ynysoedd Prydain yn y ffaith ei bod yn gosod safon gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n derbyn ymholiadau ysgrifenedig o bedwar ban byd. O'r rhain mae 42% yn wreiddiol o Gymru, 36% o rannau eraill y D.U. ac Iwerddon a'r 22% ar ôl o weddill y byd. Mae 26% o ymholiadau yn y Gymraeg, 18% o'r rhain yn wreiddiol o'r tu allan i Gymru. Mae'n addo ateb i'r ymholiadau, p'run âi'n bersonol neu'n ysgrifenedig, yn iaith yr ymholiad. Daeth y tîm arolwg ar draws tystiolaeth ddyddiol a chyson i gefnogi hyn, sydd hefyd

yn ychwanegu at natur unigryw’r Llyfrgell yn darparu profiad diwylliannol cyflawn. Y Llyfrgell genedlaethol arall y cafodd yr arolygwyr cryn gyswllt â hi, sy’n darparu gwasanaeth dwyieithog tebyg, yw Llyfrgell Genedlaethol Canada.

5.38 Trwy ei ymrwymiad gweithredol a gweledol iawn i ddarparu gwasanaeth Dwyieithog, mae’r Llyfrgell yn cynyddu’n gryf weledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol o ymestyn hunaniaeth Cymru ynghþd â’r mynediad i, ac ymwybyddiaeth o’r iaith Gymraeg.

**Darparu gwybodaeth oddi fewn i adeilad y Llyfrgell**

5.39 Mae’r Llyfrgell yn darparu amrywiaeth o wybodaeth ar ffurf taflenni ar adegau amrywiol. Mae’r rhain yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol ar wasanaethau ac oriau agor, a rhai mwy arbenigol, er enghraifft, canllaw i ffynonellau hanes teuluol. Maen nhw i gyd ar gael yn y Gymraeg a’r Saesneg.

5.40 Tra bod nifer o’r taflenni o ffurf a lliw cyson, ac yn cynnwys logo Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae’r Llyfrgell yn dal i ddefnyddio rhai hen daflenni fel y rheolau i ddarllenwyr y soniwyd amdanyn nhw uchod, sy’n cyflwyno’r Llyfrgell mewn dull braidd yn ddigroeso.

5.41 Mae tîm y rheolwyr hþn yn cynllunio i ddatblygu strategaeth cyfathrebu yn y dyfodol agos ac mae’n ymddangos yn addas i sicrhau bod y strategaeth hon, nid yn unig yn cwmpasu cyfathrebu mewnol ymhlith staff ond hefyd holl agweddau cyfathrebu gyda defnyddwyr mewnol ac allanol, un ai’n unigol neu’n sefydliad.

- **Argymhelliad:** Bod y Llyfrgell yn ymgymryd ag arolwg o’i holl lenyddiaeth brintiedig ar gyfer ymwelwyr a darllenwyr yn adeilad y Llyfrgell er mwyn sicrhau ymdriniaeth gyson o ffurf, cyflwyno a thôn. Dylid hefyd ystyried anghenion pobl gyda nam ar eu golwg a’r rhai â sgiliau llythrennedd isel. Byddai’r "Plain English Crystal Mark" yn ganllaw ddefnyddiol.

**Ymgynghoriad**

5.42 Ymgymerodd y Llyfrgell ag ymgynghoriad eang ym 1999, Dewis y Dyfodol,. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn bennaf gyda sefydliadau eraill ac fe’i trafodir yn yr Adroddiad Interim. Oddi fewn i’r adeilad, mae’r Llyfrgell yn gwneud arolygon bob pedwar mis o’r darllenwyr a’r ymwelwyr â’r Llyfrgell. Mae’r arolygon hyn yn cynnwys y pellter deithiwyd, arosiadau dros nos, pynciau a lefelau astudio a boddhad. Yn ganmoladwy iawn, mae’r Llyfrgell wedi bod yn cymharu’r canlyniadau hyn am nifer o flynyddoedd ac erbyn hyn mae ganddi broffil manwl nad yw, er gwaetha’r gred gyffredin, yn cynnwys nifer uchel o is-raddedigion.

    - **Argymhelliad:** Bod yr arfer o adolygiadau darllenwyr rheolaidd yn cael ei estyn i gynnwys pob ymwelydd, yn enwedig pan agorir y Profiad i Ymwelwyr.

5.43 Mae’r arolwg 4 mis yn canolbwyntio’n bennaf ar wybodaeth geir gan ddarllenwyr a dim ond un cwestiwn ofynnir am foddhad, er eu bod hefyd yn gwahodd sylwadau ac awgrymiadau. Er mwyn darparu gwell gwasanaeth i’w darllenwyr mae angen mwy o wybodaeth am eu barn ar y Llyfrgell. Mae angen i’r Llyfrgell hefyd ymestyn amrywiaeth ei gwestiynau yn yr holiadur er mwyn cael gwobr y Marc Siarter; ceir mwy o fanylion am hyn yn y Canllaw i Ymgeiswyr am y Marc Siarter, 2002.

5.44 Er mwyn creu persbectif mwy cytbwys, ystyriodd y tîm arolygu wasanaeth llyfrgell gyhoeddus, Llyfrgelloedd a Gwasanaeth Celf Cyngor Sir Dorset (DCCLAS). Gan ei bod yn llyfrgell gyhoeddus mae’r gwasanaeth hwn yn gorfod cydymffurfio â’r Asesiad a Safonau llyfrgelloedd cyhoeddus yn Lloegr. Mae gan DCCLAS nifer o enghreifftiau o arfer da, megis ffocws pendant ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Fel arf ymgynghorol, mae’n defnyddio Arolwg Defnyddwyr Llyfrgelloedd Cyhoeddus CIPFA (PLUS) ac yna’n dadansoddi cwynion o dan yr un categorïau PLUS.

5.45 Mae yna nifer o arfau ymgynghorol eraill ar gael, tebyg i’r un ddyfeisiwyd gan Gymdeithas Llyfrgelloedd Cenedlaethol, Colegau a Phrifysgolion.

- **Argymhelliad:** Bod y Llyfrgell yn ystyried ymestyn ei gylch gwaith i gynnwys arolwg 4 mis rheolaidd, wedi ei seilio ar rai o'r arfau ymgynghorol eraill sydd ar gael eisoes.

### Cwynion

5.46 mae'r Llyfrgell yn gwahodd sylwadau, cwynion ac awgrymiadau trwy gardiau sylwadau sydd ar gael wrth ddesgiau ymholiadau'r ystafelloedd darllen. Mae'r rhan fwyaf o gwynion anffurfiol yn cael eu hateb yn syth gan staff y desgiau ymholiadau. Os nad yw'r person sy'n cwyno yn cael ei fodloni, yna caiff gyfarfod yn syth gyda unai'r cyfarwyddwr gwasanaethau cyhoeddus, neu ddirprwy gyfarwyddwr y gwasanaethau darllenwyr. Os yw'n dal yn anfodlon, caiff y person sy'n cwyno'i wahodd i gwblhau cerdyn sylwadau. Mae pob cwyn ysgrifenedig, yn ymwneud ag unrhyw ran o'r gwasanaeth, yn cael ei basio i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, sydd yn ei gydnabod yn syth yn ysgrifenedig, ac yn ei basio ymlaen, pan yn addas, ar gyfer ymchwiliad llawn gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus neu, mewn achosion difrifol, gan y Llyfrgellydd. Mae cwynion ysgrifenedig i gyd yn cael eu gweld yn bersonol gan y Llyfrgellydd, er mwyn cydymffurfio â'r Datganiad Y Siarter Safonau lle mae'r Llyfrgellydd yn addo i weld pob cwyn yn bersonol, sicrhau bod y rhain yn cael eu harchwilio'n deg ac y bydd ateb yn cael ei anfon ymhen 10 diwrnod yn yr iaith y cafodd ei dderbyn. Daeth y tîm arolwg i'r casgliad fod y system ymdrin â chwynion yn cydymffurfio â safonau'r sector cyhoeddus.

5.47 Mae'r rhan hon o'r drefn yn cael ei monitro'n agos ac mae'n ymddangos ei fod yn gweithio'n dda. Er hyn, er bod y cardiau sylwadau i gyd yn cael eu casglu, does dim gweithredu dilynol i gasglu neu i ddadansoddi cwynion, sylwadau ac awgrymiadau.

- **Argymhellion:** Bod y Llyfrgell yn ymgymryd â'r gwaith o gasglu, dadansoddi a gwerthuso'r holl gwynion, sylwadau ac awgrymiadau. Byddai hyn yn cynnwys y rhai dderbyniwyd trwy ffyrdd gwahanol, er enghraifft, llythyrau diolch oddi wrth ddarllenwyr am ateb boddhaol i ymholiadau. Gellid monitro'r adroddiadau dilynol am welliannau potensial i'r gwasanaeth gan y Tîm rheoli Hþn ac yna gellid bwydo'r crynodebau (gyda'r enwau wedi eu dileu) yn ôl i'r staff.

### Oriau Agor

5.48 Mae prif ystafell ddarllen y Llyfrgell ar agor am 50 awr yr wythnos, sydd dipyn uwch na Safon Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru o 45 awr. Mae'r Llyfrgell ar agor o 9.30am hyd 6pm ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 10am hyd 5pm ar ddydd Sadwrn. Mae'r oriau yma'n uwch na rhai'r Llyfrgell Brydeinig, sydd ar agor am 48 awr yr wythnos, ar adegau tebyg, ond yn cau am 4.30pm ddydd Gwener a Sadwrn. Mae Llyfrgell Genedlaethol yr Alban ar agor yn hirach na'r ddau, yn aros ar agor tan 8.30pm bedair noson yr wythnos ond yn cau am 1pm ar ddydd Sadwrn.

5.49 Mae'r Llyfrgell wedi ystyried y galw am, ac oblygiadau, oriau agor hirach mewn cryn fanylder. Mae nifer o faterion y dylid eu hystyried cyn y gellir gwneud unrhyw newidiadau:

- A oes digon o alw ymhlith darllenwyr.
- Os sefydlir bod galw, pa ffurf y dylai ei gymryd, megis agor cynharach yn y bore, nosweithiau hwyrach neu fore Sul.
- Lefel y gwasanaeth i'w ddarparu. Er enghraifft darparu rhoi gwasanaeth benthyg llyfrau ac ymholiadau llawn, neu ddim ond ymestyn oriau agor un ystafell ddarllen gyda'r nifer lleiaf o staff.
- Y newidiadau fyddai'n dilyn i batrymau gwaith a chytundebau i gwmpasu'r oriau hirach.

- Yr oblygiadau adnoddau yn nhermau staff diogelwch a gwasanaethau cyhoeddus.

- Barn yr undebau am unrhyw newidiadau arfaethedig.

5.50 Mae'r Llyfrgell wedi trafod opsiynau amrywiol, yn cynnwys:

- Agor o 9am rhwng dydd Llun a dydd Gwener, fyddai'n rhoi dwy awr a hanner ychwanegol bob wythnos ar gost bychan.

- Cynnal peilot o agor hwyrach yn y min nos, gyda neu heb wasanaeth llawn yn yr ystafell ddarllen.

- Cynnal peilot o agor min nos rhwng Mawrth a Hydref yn unig.

5.51 Mae'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd trwy gyfnod o gryn newid, gan ei fod yn cyfuno'i phedair ystafell ddarllen i ddwy. Mae'n anodd rhagweld ar hyn o bryd pa effaith gaiff y newidiadau ar wasanaethau. Mae'r Adran wedi cynnwys targed o arolygu oriau agor erbyn Hydref 2002 yn ei chynlluniau gweithredol.

- **Argymhelliad:** Bod arolwg o'r oriau agor yn cael ei chynnal yn dilyn sefydlu newidiadau i'r ystafelloedd darllen. Dylid seilio hyn ar arolwg manwl o ddefnydd ac ar holiaduron darllenwyr. Disgwyliem i amseru hyn fod tua diwedd 2002/ dechrau 2003.

### Datblygu Adnoddau Dynol

5.52 Mae'r Llyfrgell wedi cyflawni nifer o asesiadau swyddi o dan gynllun asesu swyddi JEGS. Yn ogystal, ymgymerodd y Llyfrgell ag ymarferiad ail-strwythuro o bwys yn Ionawr 2002, gaiff ei drafod mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

5.53 Wedi cyfnod hir o amser, mae'r Llyfrgell erbyn hyn wedi llwyddo i benodi rheolwr personél newydd, ddechreuodd ar ei waith ym Mai 2002. Mae hyn weddi galluogi'r rheolwr hyfforddi, sydd wedi bod yn gwneud gwaith y rheolwr personél dros dro, i ymgymryd â'i ddyletswyddau hyfforddi a datblygu ar sail llawn amser.

### Gwobrau allanol

54. Mae'r Llyfrgell yn cynllunio nifer o fentrau i gefnogi a datblygu ei staff. Ym mis Gorffennaf 2000 cynhaliodd arolwg staff fel gwaith rhagarweiniol i geisio am wobr Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP). Dynododd yr arolwg hwn y gwaith oedd angen ei wneud er mwyn haeddu'r wobr ond, oherwydd diffyg gallu hyfforddi a phersonél roedd yn rhaid gohirio'r gwaith hwn. Er hyn, mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i weithredu'r newidiadau er mwyn ennill BMP ac mae nawr mewn sefyllfa i barhau âr gwaith hwn.

5.55 Mae'r Llyfrgell hefyd wedi ymrwymo i ennill gwobr Marc Siarter y Llywodraeth am ansawdd gwasanaethau cwsmeriaid. Er bod rhai trafodaethau cynnar wedi eu cynnal, daethpwyd i'r penderfyniad, yn ddoeth, i ganolbwyntio ymdrechion cynnar ar BMP ac yna symud ymlaen i'r Marc Siarter, yn hytrach nag ymgeisio am y ddau 'run pryd. Er hyn, byddai rhai o'r gwelliannau arfaethedig i wasanaethau yn ateb gofynion y Marc Siarter, a gellir defnyddio'r rhain fel canllawiau effeithiol.

### Cyflog staff ac amodau gwaith.

5.56 Ystyrir bod y cyflog yn isel gan y staff a'r Cyngor, o'i gymharu â sefydliadau tebyg. Ar y lefelau uchaf, mae'r graddfeydd cyflog yn cymharu'n anffafriol â'r Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban. Penodir aelodau o'r staff i fandiau cyflog sefydlog sydd heb bwyntiau cynyddol. Mae'r strwythur trefniannol, hyd yn oed yn dilyn yr ymarferiad ail-strwythuro diweddar, yn dal i fod yn haenedig iawn, gyda 7 band cyflog (lefelau) oddi tan i'r Llyfrgellydd. Nodwyd materion strwythurol yn y Cam cyntaf o'n adroddiad a dylid ymdrin â hyn o dan argymhelliad 7 o'r adroddiad hwnnw.

5.57 Mae mater y staff a gyflogir ar gontractau tymor byr nawr yn fach iawn - cânt eu hosgoi ymhob maes lle nad yw'r gwaith o natur prosiect byr dymor.

5.58 Dyw'r swyddogaeth hyfforddi a datblygu oddi fewn i'r Llyfrgell, am resymau a eglurwyd uchod, ddim wedi eu datblygu'n llawn. Cynhaliwyd arolwg staff eang fel rhagflaenydd i ymgais y Llyfrgell am Buddsoddwyr Mewn Pobl.

**Recriwtio staff**

5.59 Yn wahanol i'r Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, mae'r Llyfrgell wedi ei lleoli mewn canolfan fechan o boblogaeth, sydd yn anodd ei chyrraedd ar ffyrdd ac ar y rheilffordd. Y prif gyflogwyr lleol eraill yw'r brifysgol, y cyngor sir ac ymddiriedolaeth yr ysbyty, sydd yn cyfyngu braidd ar unrhyw staff fyddai'n dymuno symud ymlaen o'r Llyfrgell. Mewn gwirionedd, mae'r staff wedi eu clymu i'w swyddi yn y Llyfrgell oni bai eu bod eisiau symud allan o'r ardal.

5.60 Gall recriwtio fod yn anodd, yn enwedig o siaradwyr Cymraeg sy'n meddu ar y sgiliau, y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol. Rhoddwyd enghreifftiau o bobl yn gwrthod cynigion o swyddi gan eu bod yn teimlo na fyddai eu Cymraeg yn foddhaol. Rydym wedi cyflwyno gwybodaeth i'r Llyfrgellydd gafwyd o Lyfrgell Genedlaethol Canada ar sut mae delio â materion dwyieithrwydd.

5.61 Fel a drafodwyd uchod, ystyrir bod lefelau cyflog yn isel mewn ardal lle mae'r prisiau tai yn uchel. Ar y lefelau is, lle nad oes angen cymwysterau, ymddengys bod recriwtio'n gymharol hawdd, gyda phobl ifanc yn cael eu denu at y clod sy'n gysylltiedig â gwaith y Llyfrgell o'i gymharu â gwaith lleol arall. Gan bod nifer o staff ifanc y Llyfrgell hefyd yn byw adref, 'dyw prisiau tai ddim yn broblem iddyn nhw.

5.62 Gall rhai o'r materion hyn hefyd effeithio ar gadwraeth, trafodir hyn isod. Nid yw'r Llyfrgell yn ymchwilio i'r rhesymau pam fod staff yn gadael neu pam fod ymgeiswyr ddim yn cymryd y swydd. 'Dyw holi pobl wrth iddyn nhw adael ddim yn dilyn ffurf benodedig ond fe'i cynhelir fel trafodaethau anffurfiol.

- **Argymhellion:**
  - o Bod y Llyfrgell yn cynnal cyfweliadau wrth i bobl adael adael ar ffurf benodol ac yn dadansoddi'r canlyniadau a'u rhoi i'r Tîm Rheolwyr Hþn.
  - o Dylai'r Llyfrgell gysylltu â'r ymgeiswyr swyddi i gyd sy'n gwrthod cyfweliad neu gynnig swydd i ddarganfod y rheswm.
  - o Bod y trefniadau ar gyfer hyfforddi dysgu Cymraeg ar gyfer staff newydd yn cael ei hysbysebu'n well er mwyn denu a datblygu staff di-Gymraeg - mae nifer o sgiliau angenrheidiol yn arbenigol ac mae angen darparu cyflwyniad effeithiol ar gyfer y rhai di-Gymraeg. Efallai y gallai ariannu'r costau perthnasol fod yn gymorth y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn fodlon ystyried ei estyn i'r Llyfrgell.

**Cadw staff.**

5.63 Mae lefel cadw staff yn uchel, gyda'r trosiant isel o 6.5%, gyda nifer o bobl yn treulio'u gyrfaoedd cyfan yn y Llyfrgell. Mae hyn yn wych ar gyfer dilyniant a gwybodaeth am y casgliadau a systemau'r Llyfrgell. Ond, mae hefyd nifer o anfanteision, un o'r rhain yw'r anfodlonrwydd potensial i newid. Yr argraff yw fod newid yn cael ei drafod mewn ffordd hynod o sensitif, a bod rhai fu'n lleisio'u gofid am newid strwythurol yng nghyfarfod cyntaf y tîm arolwg ym mis Mawrth, yn frwdfrydig amdano erbyn Mai.

5.64 Anfantais arall grðp sefydlog iawn o staff yw diffyg cyfleon am gynydd mewn gyrfa ar gyfer staff iau. Y gwrthwyneb i hyn yw bod nifer o staff hþn yn mynd i ymddeol yn ystod y deng mlynedd nesaf, a gallai hyn arwain at brinder sgiliau dybryd oni bai fod y broblem yn cael ei hwynebu.

- **Argymhelliad:** Bod y Llyfrgell yn ystyried mynychu cyfarfodydd allanol fel arf ar gyfer datblygiad staff, efallai'n sefydlu system gysgodi. Byddai hyn yn golygu fod aelod iau'r staff yn cadw cwmni i aelod hþn mewn cyfarfodydd, gan gynrychioli'r Llyfrgell yn allanol, gyda'r bwriad bod yr aelod hþn ynn gallu cilio wedi amser penodedig. Byddai hyn yn golygu staff iau ac yn rhyddhau amser staff hþn.

**Hyfforddi a datblygiad.**

5.65 Oherwydd problemau penodi, llenwyd swydd y swyddog personél ar sail weithredol dros dro, gan y rheolwr rheoli a datblygu. Arweiniodd hyn at leihad mewn hyfforddi a gweithgaredd datblygu gydag un person yn ceisio cyflenwi'r ddwy swydd. Er hynny, mae'r sefyllfa erbyn hyn wedi ei chywiro ac mae'r rheolwr hyfforddi a datblygu wedi ailafael yn ei swydd. Un datblygiad newydd cyffrous yw'r ystafelloedd hyfforddi newydd sydd wedi eu cynllunio, fydd yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer hyfforddi TG, ac ystafelloedd seminar hyblyg. Mae hefyd yn bosibl y bydd yr ystafelloedd yn cael eu hagor i'w defnyddio gan y gymuned leol.

5.66 Er y problemau hyn, mae tipyn o weithgareddau strategol wedi cymryd lle yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Cafwyd newid agwedd sylfaenol tuag at ymgynghori â staff, gafodd ei gadarnhau gan ymgynghoriad y tîm arolygu â'r staff. Ymgymerodd ymgynghorwyr allanol ag ymarferiad ymgynghori o bwys gyda'r staff cyn yr ail-strwythuro trefniadol diweddar. Mae dadansoddiad o anghenion hyfforddi ym Mawrth 2001, y Strategaeth Datblygiad Staff 2001-2004 a'r fforwm hyfforddi i gyd wedi cyfrannu at fframwaith cadarn ar gyfer hyfforddi a datblygu staff.

5.67 Yn dilyn yr ad-drefnu diweddar, mae rhaglen o reolaeth newid wedi ei chyflwyno ar gyfer y staff i gyd. Mantais arbennig y rhaglen hon ei bod yn cael ei rhedeg gan ymgynghorydd allanol sy'n cynghori'r Llyfrgell ar lwyddo i gael gwobr Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP).

5.68 Mae yna gydnabyddiaeth gyffredinol na all un swyddog hyfforddi ymgymryd â'r holl hyfforddi sydd ei angen. Tra bydd y pwyslais yn y dyfodol yn troi i ffwrdd oddi wrth ddatganoli cyllido hyfforddi tuag at ganoli hyfforddi staff ac adnoddau, bydd disgwyl i reolwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb am hyfforddi oddi fewn i'w adrannau ei hunain. Tra'n ganmoladwy mewn theori, yn ymarferol gall hyn achosi problemau wrth i reolwyr weld hyn fel colled adnoddau adrannol.

- **Argymhelliad.**
  - Bod cylch gwaith cyfrifoldebau hyfforddi'r rheolwyr yn cael eu diffinio'n glir o'r dechrau, gyda digon o amser yn cael ei ganiatáu i'r rhai sy'n ymgymryd â hyfforddi staff eraill.
  - Bod cymaint o weithgaredd hyfforddi rhyng-adrannol â phosibl, i leihau peth o'r bariau ymddangosiadol rhwng adrannau a rhannau.

5.69 Mae patrwm da ar gyfer hyfforddi rhyng-adrannol eisoes yn bodoli yn yr adran gadwraeth, sy'n cynnig hyfforddiant i'r staff i gyd ar adnabod eitemau sydd angen triniaeth cadwraeth.

5.70 Mae'r Llyfrgell yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddi trwy osod dangosydd perfformiad allweddol o 1.5%, ond dim ond 6% a gyrhaeddwyd yn 2001-2002. Er

hynny, mae’r rhan fwyaf o atebion hyfforddi a nodwyd yn y dadansoddiad o anghenion hyfforddi yn weddol gul, gan fod dibyniaeth drwm ar fynychu cyrsiau mewnol. Felly nid yw’n debygol bod y Llyfrgell yn cydnabod, nac yn cofnodi fel gweithgaredd hyfforddi, y cydweithio proffesiynol helaeth a’r rhwydweithio a ymgymerir gan aelodau staff hþn. Ni chofnodir yn ffurfiol hyfforddiant "Mewn swydd". Maes arall sy’n cael ei ddatblygu yw’r cyfle am secondiad i wahanol adrannau neu rannau. Mae’r adrannau yn cynnig y rhain ond nid mewn unrhyw ffordd strwythurol.

- **Argymhelliad**
  - Bod y Llyfrgell yn ystyried hyfforddi mewn modd mwy cyfannol, i gynnwys, er enghraifft, dysgu trwy weithgaredd, rhwydweithio, cynghori, mynychu cynadleddau a seminarau. Rydym hefyd yn argymell bod hyn yn cynnwys cyflwyniadau/cadeirio cyfarfodydd, defnyddio portffolios preifat, cofnodi llawn o hyfforddiant "mewn swydd" ac ystyried defnyddio secondiadau mewnol.

5.71 Gall y nifer isel o newidiadau ymhlith staff, er yn werthfawr, gyfyngu ar gyflwyno syniadau a dulliau o weithio newydd. Y Llyfrgell yw un o’r pedwar prif gyflogwr yn Aberystwyth, ynghþd â’r brifysgol, yr ysbyty a’r cyngor sir. Byddai hyfforddi ar y cyd yn dod â manteision yn nhermau rhannu adnoddau ac amlygu syniadau newydd

- **Argymhelliad:** Bod y Llyfrgell yn ystyried hyfforddi ar y cyd gyda sefydliadau eraill ar gyfer cyrsiau cyffredinol megis sgiliau rheoli, gofal cwsmeriaid a gwerthuso.

## Diogelwch

5.72 Nid yw’r Llyfrgell yn adlewyrchu gwerth ei chasgliadau hanesyddol yn ei fantolen, er y bydd yn dechrau rhoi gwerth ar gaffaeliadau newydd o 2001/2. Er hynny mae’n cadw nifer o eitemau o werth uchel potensial ar y farchnad sydd angen eu diogelu yn erbyn difrod a lladrad. Yn ychwanegol at hyn mae nifer o’r eitemau mwyaf gwerthfawr wedi eu rhoi i’r Llyfrgell dros y blynyddoedd ac mae’n bwysig bod rhoddwyr y fath eitemau wedi eu hargyhoeddi eu bod yn eu hymddiried i amgylchfyd fydd yn rhoi gofal ac sy’n ddiogel.

5.73 Mae’r Llyfrgell felly wedi sefydlu cyfres o systemau wedi eu cynllunio i ddiogelu ei chasgliadau. Y maes cyntaf o bwys fyddai’r systemau diogelu rhag tân sefydlwyd oddi fewn i’r adeiladau’n gyffredinol ac yn arbennig lle mae’r staciau. Mae nifer o systemau soffistigedig wedi eu gosod wedi eu cynllunio i roi’r diogelwch addas i gasgliadau arbennig, yn amrywio o ysgeintwyr i systemau blancedi CO2 - mae angen rheolaeth a hyfforddiant gofalus ar y system honno i osgoi gweithredu damweiniol a allai fygwth staff.

5.74 Yn ail mae gan y Llyfrgell amrywiaeth o amgylcheddau storio wedi eu cynllunio i leihau dirywiad, gan gynnwys cyfleusterau mewn cypyrddau rhew. Mae ganddi hefyd gyfleusterau cadw a gwarchod wedi eu hanelu at wrthsefyll y difrod a achosir gan amser a defnydd. Mae’r adnoddau wedi eu targedu’n ofalus at y prif gasgliadau sydd yn destun rhaglen gadwraeth wedi ei chynllunio’n ofalus. Dylid nodi yma nad yw’r gyllideb gadwraeth ond tua 40% o’r un a dderbynia Llyfrgell Genedlaethol yr Alban hyd yn oed ar ôl cyfraniad sylweddol o arian preifat.

5.75 Yn olaf mae yna rychwant eang o fesurau diogelwch mewn grym yn y staciau, yr ystafelloedd darllen ac ardaloedd cyhoeddus eraill. Ceir CCTV ymhob un o’r mannau cyhoeddus yn y Llyfrgell a chaiff y rhai nad ydynt yn staff eu cadw allan o’r ardaloedd nad ydynt yn gyhoeddus trwy’r defnydd o gloeon mynediad codedig. Mae cynlluniau ar y gweill i gyflwyno cardiau adnabod electronig fyddai hefyd yn rheoli mynediad i ardaloedd cyfyngedig. Caiff CCTV ei fonitro ar hyn o bryd o’r ddesg ym mlaen yr adeilad ac oddi fewn i’r ystafelloedd darllen ond does dim cyfleuster canolog. Mae cynlluniau ar gyfer y fath gyfleuster wedi cael ei gynllunio fel rhan o’r datblygiad Profiad i Ymwelwyr.

5.76 Am nifer o flynyddoedd mae’r Llyfrgell wedi gwahardd pob bag yn yr ystafelloedd darllen er gwaethaf amhoblogrwydd hyn ymhlith defnyddwyr - does dim loceri personol ar gael eto. Caiff y darllenwyr gynnig waledi tryloyw i ddal yr eitemau maen nhw’u hangen yn yr ystafelloedd darllen. Caiff darllenwyr hefyd eu

rhybuddio eu bod yn agored i gael eu harchwilio er, mewn gwirionedd, ni cheir fyth archwiliadau corfforol.

5.77 Mae’r staff yn ymwybodol iawn pa eitemau sydd o werth sylweddol. Ni chedwir eitemau fel hyn ar silffoedd agored oddi fewn i’r ystafelloedd darllen (wedi eu cadw’n bennaf ar gyfer defnyddiau cyfeiriadol). Caiff pob eitem ei ddychwelyd i’r staciau neu fan cadw ar gyfer gwaith pellach ac felly fe gyfrifir yr eitemau gaiff eu cymryd allan ar gyfer ymchwiliadau darllenwyr a’r rhai roddir yn ôl. Gwneir archwiliadau bob yn hyn a hyn oddi fewn i’r staciau, nid yn unig i sicrhau fod popeth yn ei le ond hefyd er mwyn sicrhau fod eitemau wedi eu hailosod yn y man cywir wedi iddyn nhw gael eu dychwelyd.

5.78 Yn olaf gwneir patrôl rheolaidd gan aelodau o’r staff diogelwch oddi fewn i’r staciau, yr ystafelloedd darllen ac ardaloedd cyhoeddus eraill. Yn y nos ychwanegir at y rhain gan archwiliadau allanol. Caiff darllenwyr restr o ymddygiad annerbyniol pan roddir eu tocyn iddyn nhw ac mae staff diogelwch, ynghyd â staff yr ystafell ddarllen, yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth.

5.79 Er gwaetha’’r ffaith bod nifer o’r mesurau hyn mewn grym, cofnodwyd nifer sylweddol o ladradau ym 1999. Rhoddodd y Llyfrgell wybod i’r heddlu’n syth gan ymgymryd â’r holl gamau gafodd eu hargymell. Cafwyd lladradau eraill mewn llyfrgelloedd archifo Ewropeaidd eraill, er bod gan y rhain drefniadau mwy diogel na Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn seiliedig ar fideo dynnwyd yn y Llyfrgell Frenhinol, Copenhagen, o berson y gwyddys ei fod yn rhan o’r lladrad yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yr unig ffyrdd i ganfod y broblem fyddai trwy sylwi craff neu drwy CCTV, neu trwy archwiliad corfforol wrth fynd allan.

5.80 Ers y lladradau mae’r Llyfrgell wedi cymryd nifer o gamau synhwyrol iawn:

- Cwblhawyd archwiliad manwl o ddiogelwch a’r risg i ddiogelwch.
- Mae pob clo allanol yn y Llyfrgell wedi ei uwchraddio.
- Darparwyd cynydd sylweddol mewn CCTV yn y cynllun adeiladu 10 mlynedd.
- Ceir cyngor rheolaidd ar ddiogelwch gan Resource, y Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, sy’n cynnig cynghorionynglþn â diogelwch..
- Mae desgiau ar gyfer defnyddio eitemau o werth uchel wedi eu clustnodi oddi fewn i’r ystafell ddarllen, gan roi maes gwylio delfrydol ar gyfer camerâu CCTV - mae darllenwyr sy’n gofyn am ddeunydd gwerthfawr yn cael eu cyfeirio at y seddi hyn.
- Wrth ailgynllunio’r ystafelloedd darllen, sydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, mae darpariaeth wedi ei wneud ar gyfer man darllen o ddiogelwch uchel. Dylai hwn fod barod i’w ddefnyddio yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
- Mae cysylltiadau wedi eu gwneud gyda llyfrgelloedd archifo eraill ac mae Llyfrgell Frenhinol Denmarc, Copenhagen, yn cynnal cynhadledd wedi ei chynllunio i rannu gwybodaeth am ddiogelwch a risgiau diogelwch cydnabyddedig - gallai hyn wneud mwy na dim arall i rybuddio’r gymuned llyfrgellyddol o risg. Mae’n debygol mai protocol diogelwch gwell fydd y canlyniad.
- Mae opsiynau eraill yn dal i gael eu hystyried, megis defnyddio clorian eglurder uchel i fonitro defnyddiau gwerthfawr.
- Mae cynlluniau ar gyfer canoli monitro fideo mewn grym. Mae parhad y monitro wedi bod yn broblem mewn nifer o sefydliadau - fel yn yr achos y soniwyd amdano yn y Llyfrgell Frenhinol, Copenhagen. Mae’r lle bydd y cyfleusterau hyn wedi eu canoli hefyd wedi ei ddynodi fel yr ystafell y gall pobl edrych ar eu delweddau, yn ôl eu hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data.

5.81 Gyda dyfodiad y Profiad i Ymwelwyr disgwylir i’r nifer o ymwelwyr gynyddu ond disgwylir i hyn effeithio ar ardaloedd cyhoeddus o’r adeiladau yn hytrach na’r

ystafelloedd darllen. Mae'n annhebygol o arwain at gynnydd mewn risg diogelwch. Caiff yr eitemau sy'n cael eu harddangos mewn gwahanol rannau o'r ganolfan eu diogelu'n dda, ac fel arfer defnyddir atgynyrchiadau o ddefnyddiau gwerthfawr. Mae'r orielau wedi eu gwarchod yn helaeth gan CCTV ac mae'r eitemau sy'n cael eu harddangos yn dueddol o fod yn drwsgl, heb fod yn hawdd eu symud mewn modd amlwg.

82. Mae'r Llyfrgell wedi pwysleisio'r angen i gael cydbwysedd rhwng sefydlu lefel uchel o ddiogelwch a darparu croeso cynnes i ymwelwyr. Am y rheswm hwn ceir toriad rhwng y dderbynfa a diogelwch ar y prif ddrws. Er hyn rydyn ni o'r farn na fydd y posibilrwydd o archwiliadau corfforol ar gyfer defnyddwyr yr ystafell ddarllen yn datblygu'n rwystr pan welir eu bod yn digwydd.

- **Argymhelliad:** Bod y Llyfrgell yn edrych ar gyflwyno archwiliadau corfforol achlysurol ar hap o'r math a ddefnyddir mewn diogelwch meysydd awyr, gan edrych, os oes angen, ar y posibilrwydd o isgontractio'r gwasanaeth neu hyfforddiant staff i sefydliad sydd â phrofiad mewn delio â'r mater hwn yn sensitif.

83. Mae'r Llyfrgell yn cymryd agwedd gyfrifol a chytbwys at sicrhau ei chasgliadau ac mae'n parhau i geisio cyngor gan y ffynonellau addas. Caiff aelodau o'r staff eu hyfforddi mewn risgiau allweddol a chaiff adnoddau eu canoli ar sefyllfaoedd risg ar gyfer defnyddiau gwerthfawr. Mae datgeliad risg yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd trwy gysylltu ag ymgynghorwyr y sector a sefydliadau sydd â chasgliadau o werth cymharol.

# Atodiad A

## Adroddiad Dangosyddion Gwasanaeth Chwarter 4

**Service Performance Indicators**

| *NLW*<br><br>*No.* | *Measure*<br><br>*(Cross reference to existing KPI if relevant)* | *How data are acquired* | *Comment* | *Target*<br><br>*2001-2002* | *Returns for: Q1 – April to June*<br><br>*Q2 – July to September*<br><br>*Q3 – October to December*<br><br>*Q4 – January to March* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Core Function 1: Collecting** | | | | | |
| 1.1 | Number of items acquired through purchase, donation, deposit or bequest during the period. (Legal deposit intake is not included in this measure.) | Manually | Use accession records to record separately the number of items and collections acquired. Statistics are produced by the both CAIRS and GEAC but need interpretation as, for example, the accessions records can refer to more than one item.<br><br>(Note - Targets assume adequate purchase grant provision.) | 39,000 | Q1 3666<br><br>-1 2040 donations, deposits or bequests<br><br>-2 1626 purchases<br><br>Q2 6405<br><br>-3 4202 donations, deposits or bequests<br><br>-4 2203 purchases<br><br>Q3 12927<br><br>-5 8542 donations, deposits or bequests<br><br>-6 4385 purchases<br><br>Q4 7699 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | -7 5610 donations, deposits or bequests<br><br>-8 2089 purchases<br><br>2001/2 30697 (78.7% of original target)<br><br>-9 20394 donations, deposits or bequests<br><br>-10 10303 purchases |
| Core Function 2: Preserving | | | | | |
| 2.1 | Number of hours per conservator during the period | Automatically | Number of conservator hours devoted to conservation of Library materials. | 1000 hours per conservator year | Q1 5.95 FTE conservators worked 1224 hours<br><br>i.e. 205.7 hours per conservator.<br><br>Q2 5.95 FTE conservators worked 1420 hours<br><br>i.e. 238.6 hours per conservator.<br><br>Q3 5.95 FTE conservators worked 1301.5 hours<br><br>i.e. 218.7 hours per conservator.<br><br>Q4 5.95 FTE conservators worked 1752.5 hours<br><br>i.e. 294.5 hours per conservator.<br><br>2001/2 957.5 hours per conservator (95.75% of original target) |
| 2.2 | Number of items receiving preventative treatment during the period | Automatically | Assuming a relatively stable mix of work (i.e. ~ 4,000 phase boxes and wallets, ~ 4,000 stock boxes, 1,500 encapsulations & 500 mounts.) | 10,000 items | Q1 1670 items received preventative treatment<br><br>Q2 2499 items received preventative treatment<br><br>Q3 1914 items received preventative treatment<br><br>Q4 3245 items received preventative treatment<br><br>2001/2 9328 items have been treated (93.28% of original target) |

| Core Function 3: Giving Access and Information | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Number of remote network users during the period | Automatically (Using Web monitoring software) | Will note the number of different IP addresses used to access the Library's web site. | 114,000 | Q1 45172<br><br>Q2 42284<br><br>Q3 49973<br><br>Q4 63137<br><br>2001/2 200566 (176% of original target) |
| 3.2 | Number of visitors to the Library during the period | Automatically (counter at main access doors) & Manually (disabled visitors using copper door). | Currently cannot distinguish between readers and visitors. (Basic figures will need adjustment to account for staff movement etc.)<br><br>Work on the Visitor Experience developments is likely to affect visitor numbers during this period until completion at end Dec. 2003 | 54,000 | Q1 24163<br><br>Q2 20801<br><br>Q3 22955<br><br>Q4 23791<br><br>2001/2 91710 (170% of original target) |
| 3.3 | Number of new reader tickets issued during (and valid at end of) period. | Automatically (from Reader Ticket System) | Will provide combined figure of all 1-month tickets issued and valid 5-year tickets. | 7600 | Q1 1851 (1383 1 month and 468 5-year tickets)<br><br>Q2 1835 (1453 1 month and 382 5-year tickets)<br><br>Q3 2119 (1364 1 month and 755 5-year tickets)<br><br>Q4 1926 (1343 1 month and 583 5-year tickets)<br><br>2001/2 7731 (101.2% of original target) |
| 3.4 | Time taken to deliver items during the period | Automatically (GEAC) & Manually (Non print materials) | (Note – Material from cold store require 24 hours acclimatisation before being viewed.) | 90% within 45 mins. | Q1 58623 items were retrieved of which 46615 (79.5%) were delivered within 45 mins of the request being made.<br><br>Q2 51288 items were retrieved of which 47751 (93.1%) were delivered within 45 mins of the request being made.<br><br>Q3 47944 items were retrieved of which 40857 (85.2%) were delivered |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | within 45 mins of the request being made.<br><br>Q4 46807 items were retrieved of which 32859 (70.2%) were delivered within 45 mins of the request being made.<br><br>2001/2 204662 items retrieved 168082 (82.1%) were delivered within 45 minutes of the request being made. |
| 3.5 | Time taken to answer curatorial enquiries during the period | Automatically | Information is recorded on enquiries databases maintained by the three curatorial departments. All written enquiries are included in these figures (i.e.; e-mail, Fax and letter)<br><br>3% growth rate assumed.<br><br>(During the 2001-2002 reporting year investigate whether general enquiries answered by Admin can be identified and included in figures produced.) | 90% within 10 working days (Workload estimated at 7,500 enquiries per annum) | Q1 1793 enquiries of which 1636 (91.24%) were answered in 10 days.<br><br>Q2 1725 enquiries of which 1574 (91.25%) were answered in 10 days.<br><br>Q3 1697 enquiries of which 1562 (92.05%) were answered in 10 days.<br><br>Q4 1286 enquiries of which 928 (72.16%) were answered in 10 days.<br><br>2001/2 6501 enquiries of which 5700 (87.68%) were answered within 10 days. |
| Core Function 4: Publicising and Marketing | | | | | |
| 4.1 | Number of exhibitions held at NLW during the period | Manually | Information from Exhibitions Section | At NLW: Ex'bitions 12<br><br>Elsewhere: Ex'bitions 5 | Q1 3 In-house Exhibitions<br><br>·1 Edward Ardizzone<br><br>·2 Cader Idris<br><br>·3 Crime and Punishment (Blood on Their Hands)<br><br>3 Touring Exhibitions<br><br>·4 Cader Idris<br><br>·5 Will Roberts |

·6 St David's Festival

Q2 3 In-house Exhibitions

·7 The Needle Points North

·8 Gareth Parry

·9 Kyffin Williams (Display)

3 Touring Exhibitions

·10 Eisteddfod Genedlaethol

·11 Will Roberts (2 further locations)

·12 Drovers

Q3 3 In-house Exhibitions

·13 Gwilym Prichard - Retrospective

·14 Edgar Holloway: Capel y Ffin to Ditchling

·15 Brig. General Lewis Pugh Evans

0 New Touring Exhibitions

·16 (Will Roberts moved to NMGW)

Q4 4 In-house Exhibitions/Displays

·17 Arthur Giardelli

·18 Ron Davies

·19 John Harvey

·20 World Book Day (Display)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 Touring Exhibitions<br><br>·21 Gwilym Prichard (Theatr Clwyd)<br><br>·22 Gwilym Prichard (Oriel Pictwn)<br><br>2001/2 13 In-house Exhibitions/ Displays (108% of original target)<br><br>10 Sites for Touring Exhibitions (200% of original target) |
| 4.2 | Number of (exhibition) items on loan elsewhere during the period | Manually | Information from Curatorial Departments. | 550 | Q1 140 Items issued<br><br>-1 115 from Pictures and Maps<br><br>-2 25 from Manuscripts and Records collections<br><br>Q2 148 Items issued<br><br>-1 146 from Pictures and Maps collections (120 to touring NLW exhibitions and 26 to other sites),<br><br>-2 2 from Manuscripts and Records collections<br><br>Q3 65 Items issued<br><br>-3 63 from Pictures and Maps collections (60 items on loan in touring NLW exhibitions and 3 new to other sites),<br><br>-4 2 from Manuscripts and Records collections<br><br>Q4 18 Items issued |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | -5 18 from Pictures and Maps collections (12 items on loan in touring NLW exhibition and 6 to other sites),<br><br>4 items are on permanent loan from the printed materials collection.<br><br>2001/2 375 Items (68.2% of original target) |
| 4.3 | Volume of data available for access on the Web during the period | Automatically | Collected automatically. | 278 Mbytes | Q1 283 Mbytes for the website proper.<br><br>Total data volumes for web based access<br><br>-1 External Access 578.8 Mbytes<br><br>-2 Internal Access 11.1 Mbytes<br><br>Q2 286 Mbytes for the website proper.<br><br>Total data volumes for web based access<br><br>-3 External Access 683.8 Mbytes<br><br>-4 Internal Access 51.7 Mbytes<br><br>Q3 303 Mbytes for the website proper.<br><br>Total data volumes for web based access<br><br>-5 External Access 614.0 Mbytes<br><br>-6 Internal Access 70.6 Mbytes<br><br>-7 NSSAW 0.771 Mbytes<br><br>Q4 321 Mbytes for the website proper. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Total data volumes for web based access<br><br>-8 External Access 649.0 Mbytes<br><br>-9 Internal Access 86.5 Mbytes<br><br>-10 NSSAW 0.90 Mbytes<br><br>2001/2 321 Mbytes for the website proper. (115% of original target.)<br><br>Total data volumes for web based access<br><br>-11 External Access 649.0 Mbytes<br><br>-12 Internal Access 86.5 Mbytes<br><br>-13 NSSAW 0.90 Mbytes<br><br>Note: The data volume for the website proper is the indicator originally chosen for monitoring. The information accessible through the Web, however, is held in different locations and the supplementary figures give a more accurate representation of data volumes accessible. Information for external access is held on the WWW server (Website proper) and Isysweb. Information for internal access is held in Intranet and ecstranet (Computer Section information) volumes and NSSAW information is held in ‘screenandsound’ and ‘sgrinasain’ volumes.<br><br>Note: Data volumes available for external access were reduced in Q3 as the result of a periodic rationalisation and ‘tidying’ of the Isysweb datasets. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.4 | Total number of group visits during the period | Manually (Through central register) | Intend to include all types of group visit so will need to introduce procedures to record *all* such visits<br><br>Work on the Visitor Experience developments is likely to affect the number of group visits during this period until completion at end Dec. 2003. | 90 | Q1 21<br><br>Q2 38<br><br>Q3 20<br><br>Q4 14<br><br>2001/2 93 (103% of original target). |
| Core Function 5: Professional Collaboration | | | | | |
| 5.1 | Shared Cataloguing Programme (The Library's contribution to a cooperative scheme involving all legal deposit libraries) | Manually | Count of candidate records on GEAC system (Targets may be changed as a result of discussions currently being held between the legal deposit libraries.) | 5000 | Q1 1006<br><br>Q2 979<br><br>Q3 1160<br><br>Q4 1271<br><br>2001/2 4416 (88.3% of original target)<br><br>Note: Shared Cataloguing totals are lower than anticipated due to problems at the Copyright Library Agency that meant items have not been claimed as they should have been. As a result material has not been arriving at the Library and so has not come into the Shared Cataloguing Programme stream. |
| 5.2 | Cooperative Online Resource Cataloging (CORC) | Manually | Count of records prepared and submitted | 200 | Q1 41<br><br>Q2 36<br><br>Q3 42<br><br>Q4 81<br><br>2001/2 200 (100% of original target)<br><br>Note: The CORC team were able to devote more time to preparing records during the 4th quarter. Additional records that had been held up awaiting confirmation of authority entries were also submitted in the 4th quarter. |

| Support Functions | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.1 | Comply with Citizen’s Charter goals | Manually | To respond to all Comment Cards received within the 10 working days specified. | 100% within 10 working days | Q1 15 Comment cards/letters were received and 13 (86%) were answered within 10 days.<br><br>The average time to respond was just over 4 days (4.3 days), but one response took 17 days to send and another took 20 days.<br><br>Q2 12 Comment cards/letters were received and all (100%) were answered within 10 days.<br><br>The average time to respond was less than 2 days (1.8 days).<br><br>Q3 6 Comment cards/letters were received and all (100%) were answered within 10 days.<br><br>The average time to respond was just over 4 days (4.2 days).<br><br>Q4 12. Comment cards/letters were received and 11 (92%) were answered within 10 days.<br><br>The average time to respond was less than 3 days (2.5 days).<br><br>2001/2 45 Comment cards/letters were received and 42 (93.3%) were answered within 10 days.<br><br>The average time to respond was between 3 and 4 days (3.13 days). |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.2 | Percentage of staff time spent in formal training | Manually | Coordinate with Investors In People | 2% | Q1 69.5 out of 14700 working days were devoted to training - 0.47%.<br><br>Q2 83 out of 15744 working days were devoted to training, - 0.53 %<br><br>Q3 94.5 out of 15709 working days were devoted to training, - 0.60 %<br><br>Q4 129 out of 15624 working days were devoted to training, - 0.83 %<br><br>2001/2 376 out of a total of 61777 working days were spent in training – 0.61% |
| 6.3 | Percentage of time network service is available during the period | Automatically (using network monitoring facilities) | Availability of all public services (e.g. GEOWEB, CAIRS, Web server, e-mail server, ISYS server etc) for full network access. | 99 % | Q1 Availability within the Library was 99.5% (Total down-time 3 hrs 45 mins.).<br><br>External availability was 98.53% (work on South Wales MAN and link to UWA prevented remote access for 29 hrs 20 mins).<br><br>Q2 Availability within the Library was 100%<br><br>External availability was 99.96% (work on South Wales MAN and link to UWA prevented remote access for 50 minutes).<br><br>Q3 Availability within the Library was 100%<br><br>External availability was 96.78% (Total downtime 75 hrs. 9 mins.) Note that 58 hrs of this was occurred during the period 25th – 28th Dec when the UWA link was unavailable.<br><br>Q4 Availability within the Library was 99.1% (Total down-time 19 hrs 30 mins.).<br><br>External availability was 97.40% (Total downtime 56 hrs. 07 mins.) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 2001/2 Availability within the Library 99.55%<br><br>External availability was 98.17% |
| 6.4 | Finance | Manually (Taking a random sample of 100 invoices processed each quarter.) | Percentage of invoices paid within 30 days of receipt | 90 % | Q1 97<br><br>Q2 98<br><br>Q3 98<br><br>Q4 100<br><br>2001/2 393/400 (98.25% of invoices sampled have been paid within 30 days of receipt.) |

Development Performance Indicators

| *NLW No.* | *Measure* | *How data are acquired* | *Comment* | *Target 2001-2002* | *First Quarter Returns* |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.1 | Collecting Electronic Archives and Information | Manually | a. Develop a policy on the discovery, selection and archiving of published non-tangible electronic information resources of Welsh interest not covered by voluntary or legal deposit.<br><br>b. Implement procedures to discover select and archive such materials | October 2001 | Q1 One staff member appointed. Another to be appointed. Policy will then be drawn up.<br><br>Q2 One staff remains to be appointed. (Delay in appointment of 2nd member of staff due to restructuring of Library)<br><br>Q3 Second member of staff identified but yet to take up post.<br><br>Q4 The second member of staff took up duties on 21st January and is currently developing the policy in line with the Library's digital |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | March 2002 | preservation strategy.<br><br>Note: Implementation will follow adoption of policy. |
| | | | c. Develop a policy on the deposit and storage of electronic archives of Welsh interest.<br><br>d. Implement procedures for deposit and storage of such material | October 2001<br><br>March 2002 | Q1 An initial draft has been prepared for discussion. (A delay may be experienced owing to maternity leave)<br><br>Q2 A policy document has been produced and approved.<br><br>Q3 Work is on target to implement procedures for the deposit and storage of electronic records by March 2002.<br><br>Q4 A pilot project has commenced using a subset of depositors who generate electronic archives. |
| 7.2 | Retrospective Record Conversion | | a. Acquire records for print based material | At least 12,000 by March 2002 | Q1 Posts for undertaking record matching have been advertised. Work will commence in September.<br><br>Q2 Staff appointed and undergoing training. Work will commence in the next quarter.<br><br>Q3 2962<br><br>Q4 5308<br><br>2001/2 8270 (68.9% of |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | b. Formation of a Retrospective Conversion Unit<br><br>c. Conversion of records for unique holdings and Celtic print based materials. | March 2002<br><br>21,000 by March 2002 | original target)<br><br>Q1 Now subsumed within Library restructuring but still on target.<br><br>Q1 4954<br><br>Q2 5886<br><br>Q3 4271<br><br>Q4 3594<br><br>2001/2 18705 (89.1% of original target) |
| 7.3 | Digitisation of Materials | Records held on system - cumulated manually | a. Begin long-term Treasures Digitisation Programme;<br><br>- Digitise 10,000 negatives to complete phase I of Geoff Charles Project | October 2001 | Q1 1300<br><br>Q2 776<br><br>Q3 6657<br><br>Q4 4703<br><br>2001/2 13436 (134.4% of Phase 1 target).<br><br>Note: A bottleneck in processing delayed completion beyond target date. Original phase 1 target (10,000) has been achieved but work will continue to reach a total of 15,000 digitised images from the collection.<br><br>Note: The suppliers have resolved equipment problems so it was decided not to install a second scanner. Procedural problems still cause some difficulties but, despite this, some 90,000 images have been captured.<br><br>Q1 Work scheduled for October |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | - Digitise 1,000,000 pages of Wills in Probate Digitisation Project<br><br>- Digitise 2,000 glass negatives from the John Thomas Collection | 125,000 by March 2002<br><br>March 2002 | Q2 " " " "<br><br>Q3 1495<br><br>Q4 1766<br><br>2001/2 3261 (163% of target) |
| | | | | b. Dependent on the contract being awarded to NLW, supply 16,000 of the 23,000 images required by the Gathering the Jewels Project | 4,000 by March 2002 | Q1 Work to start in 3rd Quarter<br><br>Q2 " " " "<br><br>Q3 500<br><br>Q4 474<br><br>2001/2 974 (24.4% of target).<br><br>Note: Processing rate slower than anticipated owing to the need to wait for metadata production from the Gathering the Jewels project team. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.4 | Visitor Experience<br><br>(Enabling Works) | Manually | Completion of Phases 1, 2 and 3 of the heating replacement enabling works. | Completion by 6th Nov. 2001. † | Q1 Work is on target to be completed by the scheduled date of 6th Nov.<br><br>Q2 Work is on target to be completed by the scheduled date of 6th Nov.<br><br>Q3 The replacement is 98% complete. Delay caused owing to discovery of a small amount of asbestos in under floor ducting (ducts out of bounds until asbestos cleared). Work is about to resume and will be completed by 31st January<br><br>Q4 Work was completed by the end of January |
| 7.5 | Visitor Experience<br><br>(Funding) | Manually | Decision on HLF funding for Visitor Experience Phase 2 | Decision by 23rd July 2001 - no later than 8th Oct 2001 if existing timetable is not to be disrupted. † | Q1 The Stage 2 application was submitted in time for consideration at the 17th July meeting of HLF at which approval was given for full funding.<br><br>Q2 HLF funding for the Visitor Experience was confirmed in a letter dated 19th July 2001.<br><br>Q3 Target already achieved<br><br>Q4 Target already achieved |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.6 | Visitor Experience<br><br>(Phase 1 Works) | Manually | a. Award of contract for Visitor Experience Phase 1 developments | Decision by 23rd July 2001 - no later than 8th Oct 2001 if existing timetable is not to be disrupted. † | Q1 The Stage 2 application was submitted in time for consideration at the 17th July meeting of HLF at which approval was given for full funding.<br><br>Q2 HLF funding for the Visitor Experience was confirmed in a letter dated 19th July 2001.<br><br>Q3 Assembly and HLF approval of choice of contractor was confirmed on 18th Dec 2001. Contract commences on 4th Feb 2002.<br><br>Q4 Target already achieved |
| | | | b. Substantial completion of the restaurant/kitchen facilities ready for occupation | Target completion scheduled for end April 2002. † | Q1 This is dependant upon enabling works and on HLF funding. Preceding tasks are to schedule.<br><br>Q2 This is dependant upon preceding tasks (enabling works and HLF funding) that are still to schedule (see 7.4 and 7.5).<br><br>Q3 Assembly and HLF approval of choice of contractor was confirmed on 18th Dec 2001. Contract commences on 4th. Completion date is now estimated as mid May |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | but this is subject to the contractors programme which is not yet available.<br><br>Q4 Work has commenced and is scheduled for completion on 10th June 2002. |
| 7.7 | Education and Learning Services | Internal Questionnaire | a. Undertake an audit of the Library's present educational activities and establish the educational user profile. | Audit completed by June 2001 (Report completed by end of July 2001) | Q1 Audit undertaken and Preliminary report prepared<br><br>Q2 Final report prepared.<br><br>Q3 Target already achieved<br><br>Q4 Target already achieved |
| | | External<br><br>Questionnaire<br><br>(Commence July 2001) | b. Using the profile established at (a), undertake market research to establish the response of all education sector visitors in order to evaluate current educational provision and future needs. | Report completed by March 2002. - Report to recommend how to develop educational provision to fulfil perceived needs. † | Q1 Market research to be commenced once final audit report is completed. Currently on target to submit recommendations by March 2002.<br><br>Q2 Market research commenced. Currently on target to submit recommendations by March 2002.<br><br>Q3 Market research continues. Currently on target to submit recommendations by March 2002. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Q4 Report on a Review of educational Resources completed |

† Note -quarterly reports will assess progress to target

# Atodiad B

## Crynodeb o Adroddiad Cam 1

## Yn cynnwys rhestr o argymhellion

## Crynodeb

1. Mae’r crynodeb hwn yn cwmpasu Cam 1 o arolwg pum mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd yr ail gam yn mynd ymlaen i drafod effeithiolrwydd strategol, cyfraniad effeithiol y Llyfrgell i’r blaenoriaethau a gyflwynir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru a materion llywodraethol corfforaethol. Mae’r cwestiynau ar gyfer y cyfnod hwn wedi eu hamlinellu yn y cyflwyniad. Rydyn ni’n nodi isod ganfyddiadau allweddol y cam hwn yn yr arolwg:

**A oes angen y swyddogaethau a gynhelir gan y Llyfrgell ac am ba hþd? Ydyn nhw’n dal yn angenrheidiol?**

2. Rydyn ni wedi dod i’r penderfyniad fod angen parhaol am yr holl wasanaethau a gynhelir gan y Llyfrgell a bod y crynhoi gwasanaethau yn cynrychioli modd gwerthfawr i dynnu at ei gilydd ddefnyddiau arwyddocaol yn natblygiad celfyddydol Cymru. Mae nifer o ddatblygiadau diweddar megis y wefan a digideiddio nid yn unig yn cynrychioli gwasanaethau ymestyn allan a gynigir ond hefyd yn asio’n glos gyda thueddiadau’r dyfodol i ddarparu mynediad i wybodaeth yn gyffredinol.

**Beth yw’r fframwaith cyfreithiol sydd yn rheoli’r Llyfrgell?**

3. Caiff hyn ei ddisgrifio’n llawn yn rhan 2. Mae’r Llyfrgell yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, ac mae iddi fodolaeth gyfreithiol, ar wahân, o dan Siarter Frenhinol 1907. Mae hefyd yn elusen gofrestredig, yn dod o dan reolaeth y Comisiwn Elusennau, yn ogystal â bod yn llyfrgell adnau cyfreithiol ar Ynysoedd Prydain. Yn olaf mae wedi ei rhwymo’n gyfreithiol trwy gontract i’r Cynulliad trwy Ddatganiad Rheolaeth a Memorandwm Ariannol, sy’n gosod cyfundrefn ymddiriedol a rheolaeth yn debyg eu bâth i gyrff gaiff eu rheoli’n uniongyrchol gan y Cynulliad. Mae 90% o’i gyllido yn dod o Wariant -mewn-Grantiau y pleidleisiwyd arno gan y Cynulliad.

**A oes raid i’r swyddogaethau gael eu gweithredu gan CCNC - a ydyw’n debygol fod opsiynau eraill yn fwy effeithiol? A fyddent yn cael eu gweithredu’n well gan gorff sengl?**

4. Mae’r adroddiad yn casglu ei bod yn annhebygol y gall lefelau arwyddocaol o gostau rhedeg gweithgareddau’r Llyfrgell gael eu i symud i ffwrdd oddi wrth ariannu cyhoeddus. Er hynny, efallai y byddai manteision ar gyfer codi arian mewn symud arian i gostau cynnal oddi wrth grant prynu a chyfalaf.

5. Caiff cyllido defnyddwyr gwasanaethau yn hytrach na’r darparwyr ei wrthod fel syniad anymarferol. Byddai hyn yn gofyn i’r Llyfrgell mewn ffordd i ‘fasnachu’ gyda deiliaid cyllid. Does dim dadleuon economaidd cryf dros wahanu’r gwasanaethau a ddarperir a chyllido darparwyr niferus. Byddai hyn yn rhwystro’r angen am groes-reolaeth glos dros wasanaethau ac yn mynd i gryn gostau wrth symud i ffwrdd oddi wrth ddarparwr sengl cydnabyddedig wedi ei gefnogi gan fuddsoddiad hanesyddol.

6. Gwelwyd fod symud swyddogaethau i’r Cynulliad yn cynnig fawr ddim gwelliant mewn rheoli fyddai’n digolledu am golli statws elusennol, sy’n cynnig manteision treth a photensial uwch i ddenu rhoddion, cymynroddion a grantiau. Mae cefnogaeth gref ymhlith atebwyr i’r egwyddor hyd-braich ac mae dadleuon i gefnogi’r syniad fod hyn yn darparu gwell llwyfan ar gyfer partneriaethau sy’n tyfu.

7. Mae’r adroddiad yn dod i’r casgliad mai corff unigol CCNC yw’r dewis gorau sydd ar gael i’r Cynulliad.

**A oes angen rhesymoli swyddogaethau rhwng y Llyfrgell â chyrff cyhoeddus eraill sy’n darparu gwasanaethau tebyg yng Nghymru?**

8. Mae’r adroddiad yn adolygu’r cyfleon yn enwedig rhwng y Llyfrgell a’r Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a’r Cynulliad ei hun. Daw i’r penderfyniad nad yw’r casgliadau sy’n gorgyffwrdd gyda AOCC yn arwyddocaol (a’u bod yn cael eu rheoli’n llwyddiannus rhwng y sefydliadau) a bod sgiliau craidd rhedeg y ddau sefydliad yn wahanol, ond mae’n gweld cyfle i’r ddau sefydliad i weithio gyda’i gilydd er mwyn gwneud y gorau o’u casgliadau trwy ymestyn allan, hyrwyddo a gweithgareddau marchnata - efallai trwy rôl uwch gaiff ei rhannu. Nid yw’r un buddiannau yn debygol o fod yn wir o Cadw, gan nad oes ganddyn nhw gasgliadau symudol nac adeiladau fel amgueddfa wedi eu gwarchod.

9. Gyda dau safle yng Ngogledd Cymru, un yn y Canolbarth a chwech yn Ne Cymru (yn cynnwys Pwll Mawr) mae gan yr Amgueddfa safleoedd sy'n fwy yn ddaearyddol na'r Llyfrgell. Ond mae gan y Llyfrgell sail mewn technoleg a ellir ei ddefnyddio i wella ac i hybu arddangosfeydd sefydlog a theithiol oddi fewn i Gymru a'r tu allan. Felly mae'n bosib y gall ehangder daearyddol yr Amgueddfa gyfrannu tuag at waith ymestyn allan y Llyfrgell, ac y gall galluoedd technegol y Llyfrgell gyfrannu tuag at wella gweithgareddau'r Amgueddfa a'i photensial i ymestyn allan.

10. Mae gweithrediadau archifo Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi ei leoli yn Aberystwyth. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad fod, ar yr olwg gyntaf, achos dros gyfuno'r archif â'r ddarpariaeth catalogio a gwasanaethau ddarllenwyr â'r Llyfrgell ac y dylai arolwg pum mlynedd y Comisiwn, sydd yn ei ddyddiau cynnar ar hyn o bryd, ymchwilio i'r mater hwn yn ofalus.

11. Yn nhermau'r Cynulliad mae'r adroddiad yn argymell efallai fod rhywfaint o dir cyffredin rhwng llyfrgell y Cynulliad ei hun â'r Llyfrgell Genedlaethol ac yn awgrymu profi'r gwasanaethau archif dros dymor hirach yn erbyn darpariaeth gan y llyfrgell a chydweithio ar archifo darllediadau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hefyd yn gwahodd y Cynulliad i weld, yn absenoldeb swyddfa cofnodion cyhoeddus, a oes rôl mewn gofynion archifo tymor-hirach y byddai'r Llyfrgell yn gymwys i'w llenwi.

12. Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i archwilio rhai materion a allai fod o bwysigrwydd strategol:

   - **A yw strwythur Rheolaeth y Llyfrgell yn ateb ei dibenion yn y ffordd orau?**
   - **A oes angen i'r strwythur fod yn fwy tryloyw?**

**Strwythur y Rheolaeth**

13. Mae'r adroddiad wedi dod i'r casgliad nad yw'r strwythur presennol yn cyd-fynd ag arfer da ac nid yw'n gwasanaethu buddiannau'r Llyfrgell. Mae'n darganfod bod strwythurau byrddau ymddiriedolwyr a fabwysiadwyd gan y rhan fwyaf o sefydliadau tebyg â mwy i'w gynnig mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, er gwaetha'r ffaith gydnabyddedig bod aelodau'r Cyngor yn hael wrth roi o'u hamser heb dâl. Mae hefyd yn dod i'r casgliad fod y broses o greu'r strwythur yn ddiweddar wedi datblygu i fod yn ddigon tryloyw i ateb arfer da, fel y'i diffinnir o dan egwyddorion Pwyllgor Nolan, er ein bod yn dadlau nad yw'r trefniadau i ddewis aelodau'r Cyngor o blith aelodau'r Llys efallai yn cadw at ysbryd a naws yr egwyddorion hynny.

14. Argymhellir bod y Llyfrgell yn ymgynghori â'r Cynulliad yngln â'r ffordd orau i ffurfio grp llai, mwy tynn, anweithredol gyda'r bwriad o drafod busnes yn fwy effeithiol a heb golli statws elusennol na'r egwyddor hyd-braich. Byddai hyn, yn ein barn ni, yn golygu cefnu ar y Llys a lleihau maint y Cyngor a newid strwythur y pwyllgor. Byddai'r broses hon yn gorfodi datblygiad dull newydd o ddewis aelodau'r Cyngor, wedi ei seilio ar yr egwyddor o dryloywder ac nid yn ddibynnol ar y Llys fel canolfan ddewis. Efallai na fydd y ddarpariaeth o newid atodol i'r siarter, sy'n ddibynnol ar gymeradwyaeth gan y Cyfrin Gyngor, yn darparu ar gyfer y fath newidiadau strwythurol sylfaenol ac efallai y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol. Rydyn ni'n argymell fod cyngor cyfreithiol ar wahân yn cael ei gymryd ar y mater yma.

**Tryloywder.**

15. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen am newidiadau i gwrdd ag egwyddorion pwyllgor Nolan. Mae argymhellion wedi cael eu cynnig i adolygu trefniadau enwebu - mae is-grðp o'r Cyngor ar hyn o bryd yn cwblhau trefniadau ymarferol. Rydyn ni'n awgrymu y dylai'r argymhellion gael eu harolygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru pan fo'r trefniadau i gyd wedi eu rhoi yn eu lle.

**Proffil**

16. Mae’r arolwg rydyn ni wedi ei gynnal i fesur y defnydd o wasanaethau megis materion darllen ac ymweliadau â gwefannau yn nodi fod angen am dipyn gwell hyrwyddo ar y Llyfrgell. Caiff hyn ei gefnogi gan ganlyniadau ymgynghori o bob cyfeiriad, staff, cyngor, partneriaid a’r cyhoedd lle mae termau tebyg i "Y gyfrinach gedwir orau yng Nghymru" yn cael eu defnyddio’n aml. Mae hefyd yn amlwg fod lleoliad corfforol yn broblem y bydd yn rhaid i’r Llyfrgell ei hymladd trwy gymysgedd o weithgareddau ymestyn allan a chodi proffil gweithgareddau wedi eu lleoli yn Aberystwyth. Roedd y Llyfrgell yn cydnabod y problemau yma o ganlyniad i’w ymarferiad ymgynghorol ei hun gynhaliwyd ym1999 ac mae wedi bod yn cynnal strategaethau ymestyn allan newydd. Rhaid i lawer o hyn gael ei weithredu trwy raglenni hirdymor sydd ddim ond yn dechrau dangos unrhyw ganlyniad ar hyn o bryd. Mae cryn dystiolaeth, yn enwedig o ganlyniad i arddangosfeydd diweddar, y gall pobl gael eu cyfareddu gan y Llyfrgell unwaith y dôn nhw i wybod amdani.

**Gwaith Gwblhawyd.**

17. Er mwyn cyrraedd ei gasgliadau mae’r tîm fu’n cynnal yr arolwg wedi ymgynghori’n eang trwy gyfweliadau gyda budd-ddeiliaid, staff a rheolwyr ynghyd ag ymarferiad ymgynghori cyhoeddus eang. Yn ychwanegol at hyn, ceisiwyd gwybodaeth am strwythur, gwasanaethau a chostau nifer o sefydliadau tebyg. O ganlyniad i’r ymgynghoriadau a’r arolygon yma daethpwyd i nifer o gasgliadau:

- Mae gan y Llyfrgell rhychwant ehangach o gasgliadau nag unrhyw sefydliadau tebyg, yn rhannol oherwydd diddordeb eang ei sefydlwyr, ond yn bennaf oherwydd nad oes gan Gymru y rhychwant eang o gyrff a allai fabwysiadu rolau arbennig rywle arall.
- A derbyn cymhlethdod ychwanegol gweithredu’n ddwyieithog (a gefnogir yn llwyr gan y Llyfrgell), ni cheir unrhyw dystiolaeth o aneffeithlonrwydd sylweddol pan edrychir ar hyn ar lefel strategol. Rhoddir sylw pellach i’r mater hwn yn Rhan 2 o’r arolwg.
- Mae’r Llyfrgell eisoes yn gwneud cryn dipyn o waith gyda phartneriaid trwy eu cysylltiad proffesiynol gyda llyfrgelloedd eraill sydd, o dan y ddeddf, yn derbyn copïau o bob deunydd printiedig, a thrwy ei rôl flaenllaw yn y fath brosiectau â’r Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru (AGSSC) a "Chasglu’r Tlysau"

**Cyllido**

18. Roedd y rhan yma o’r arolwg hefyd yn rhoi sylw i faterion cyllido allweddol gaiff eu gosod allan yn rhan 5. Mae nifer o faterion sydd yn arbennig o allweddol i gyllido yn y dyfodol:

- Datrys materion tâl ac amodau gwaith sydd eu hangen i ateb pryderon godir gan archwiliad tâl teg ac i ddelio â rhai materion recriwtio.
- Lleihau cyllido preifat o ganlyniad i fuddsoddiadau o bwys yn y Ganolfan Ymwelwyr sy’n debygol o gael effaith hirdymor ar gyllido’r costau rhedeg o tua £500,000 y flwyddyn.
- Yr angen i egluro polisi codi arian a chwilio am gyfleon ychwanegol i godi arian lle nad ydyn nhw’n gwrthdaro â gwasanaethau am ddim i ddefnyddwyr a chynnig gwasanaethau i grwpiau newydd o ddefnyddwyr.

**Datblygu incwm allanol**

19. Nodwyd nifer o faterion a allai ddal nôl neu hybu datblygiad incwm allanol pellach. Mae datblygiad y Profiad i Ymwelwyr a’r proffil y bydd hwnnw’n ei gynhyrchu yn adeg ddelfrydol i roi sylw i’r materion hyn:

- Does dim polisi’n bodoli ar gynhyrchu incwm er mwyn cynghori staff ar beth yw’r rheolau i’w dilyn. O ganlyniad i hyn mae’r staff yn wyliadwrus o’r pwnc.
- Dydy polisïau codi arian ddim yn cael eu trafod yn **rheolaidd** fel rhan o unrhyw brosiect neu ddatblygiad newydd. Dylid gwneud hyn petai ond i wrthod y posibilrwydd am resymau da.
- Dydy’r Llyfrgell ddim wedi datblygu cynnig i ddenu mwy o roddion (e.e. trwy ddynodi sut y byddai’r arian yn cael ei ddefnyddio ac yn rhoi enghreifftiau). Gallai cynhyrchu a marchnata’r fath gynnig i roddwyr posib/ ymgynghorwyr proffesiynol fod yn effeithiol dros ben.

- Byddai'n fuddiol edrych ar y posibiliadau o fanteisio'n well ar yr AGSSC (Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru). Câi hyn ei seilio ar well catalogio a mynediad i'r we.

20. Mae argymhellion manwl y rhan hon o'r arolwg wedi eu crynhoi isod.

**Crynodeb o'r Argymhellion**

1. **Dylid cadw swyddogaethau'r Llyfrgell fel corff unigol wedi ei gyllido gan CCNC** (6.22)

2. **Newid y Strwythur Llywodraethol i wella tryloywder ac effeithiolrwydd y Llyfrgell.** (6.49)

   Dylai'r Llyfrgell a Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori ar foderneiddio strwythur llywodraeth y Llyfrgell er mwyn ceisio gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wedi eu seilio ar fodelau o Fyrddau Ymddiriedolwyr sy'n gweithredu mewn mannau eraill. Derbynnir y byddai angen amser sylweddol i weithredu'r fath newidiadau ond ni ddylen nhw yn y pen draw beryglu yr egwyddor hyd-braich na statws elusennol y Llyfrgell. Mae'r pwynt wedi ei gyflwyno'n effeithiol y dylai holl aelodau'r Cyngor feddu ar gariad at ddysgu - allwn ni ddim gweld angen i beryglu hyn wrth newid y strwythur.

3. **Dylid ceisio ffyrdd i ddiddymu'r Llys a darganfod ffyrdd eraill o gyflawni ei ddyletswyddau.** (6.43)

4. **Dylai'r Llyfrgell weithio'n agosach gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar weithgareddau Ymestyn allan.** (6.26)

   Dylai'r Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa genedlaethol ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud apwyntiad ar y cyd i weithio gyda'r ddau dîm rheoli i ddefnyddio adnoddau wedi eu cyfuno yn fwy effeithiol ac i hybu rhaglenni ymestyn allan.

5. **Mae angen rhoi sylw i gyllido tymor hir ar fyrder er mwyn cwrdd â'r bylchau a nodwyd.** (5.12)

   Mae'n rhaid i'r Llyfrgell roi sylw, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gyllido gweithgareddau y tu hwnt i 2004/5 wedi eu seilio ar y cynllun ar gyfer y tair blynedd nesaf a fydd yn adlewyrchu'r gostyngiad yn y lefelau incwm o gyllid preifat yn ystod 2005/6, i gynnwys:

   - Lefelau posibl cyllido GMC (GIA)
   - Newid rhwng mathau o gyllido GMC (GIA) (e.e. efallai cynyddu costau rhedeg ond lleihau'r gronfa prynu neu ymrwymiadau cyfalaf) er mwyn hwyluso hyrwyddo'r Llyfrgell fel derbynnydd teilwng o gymynroddion.
   - Effeithlonrwydd a gwasanaethau newydd.

6. **Cymryd camau pendant i godi proffil y Llyfrgell.** (4.12)

   Mae'r ymgynghoriad ac arolygon yn dangos yr angen i hyrwyddo proffil y Llyfrgell ac i godi ymwybyddiaeth o'i wasanaethau. Mae hyn yn golygu nid yn unig y gylid gwthio'r Ganolfan Ymwelwyr, datblygiad y wefan a digideiddio - mae hefyd yn golygu cysylltiad mwy effeithiol ac uniongyrchol gyda grwpiau targed.

7. **Cwblhau ail-strwythuro a chamau i strwythuro cyflogau.** (5.8)

   Dylid gofyn i'r Llyfrgell gyflwyno cynlluniau ar gyfer y newidiadau angenrheidiol i fynd â'r ail-strwythuro gam ymlaen, yn ogystal â gwerthuso'r cyllido a'r rhyddid i weithredu fyddai eu hangen i wneud hyn. Yn ogystal â hyn dylid gofyn i'r Llyfrgell gyflwyno'u cynlluniau i weithredu strwythur

cyflog newydd i’w ystyried gan Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ei anelu at greu amgylchedd lle y gellid delio ag unrhyw anghysonderau a nodir yn yr ymchwiliad tâl cyfartal ar sail gyfredol, a lle na byddai staff newydd yn cael eu rhwystro gan y cyflogau cychwynnol presennol. Dylid gofyn i’r Llyfrgell i nodi sut y gallai cwblhau’r ad-drefnu gyfrannu at gyllido strwythur cyflogau newydd ar sail gyfredol. Rydyn ni’n argymell y dylai’r cynlluniau yma hefyd roi sylw i:

- Cael cytundeb i batrymau gweithio hyblyg fyddai’n caniatáu amrywiaeth yn y dyfodol mewn oriau agor/ cyflwyno gwasanaeth heb fynd i gostau ychwanegol.
- Dileu graddfeydd bonws ar oramser er mwyn cyd-fynd â mwy o hyblygrwydd.

8. Dylai arolwg pum mlynedd o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ystyried manteision ac anfanteision uno gweithrediadau archif y Comisiwn â rhai’r Llyfrgell. (6.29)

9. Mae’r Llyfrgell wedi cynllunio trefn ethol Swyddogion I’r Cyngor ar sail sy’n cytuno ag arfer da. Mae Pwyllgor Enwebu’r Cyngor yn gwneud y trefniadau olaf ac fe ddylai’r rhain gael eu cwblhau mor fuan â phosibl. (6.44)

10. Dylai’r Llyfrgell greu polisi ar godi arian sy’n gadarnhad o’r awydd i wneud yn fawr o unrhyw incwm allanol mewn ffyrdd nad ydynt yn groes i’r syniad o wasanaethau sydd am ddim i ddefnyddwyr i ysgolheigion a’r cyhoedd. Dylai hon fod yn ddogfen ymarferol sy’n dangos arfer da. (5.14)

11. Dylai fod yn ymarfer safonol i’r Llyfrgell i roi sylw i botensial codi arian unrhyw strategaeth neu brosiect yn ystod ei lunio, petai ond i wrthod y posibilrwydd am resymau da - mae gwrthod am resymau da yn rhesymol, mae methiant i’w ystyried yn afresymol. (5.14)

12. Dylai’r Llyfrgell ddatblygu cynllun i ddenu mwy o gyllid preifat wedi ei seilio ar gynnig eglur i roddwr potensial, gan adeiladu ar y tŵf mewn gweithgareddau ymestyn allan. (5.12)

13. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddatrys problemau technegol mynediad drwy’r we i gatalogau presennol AGSSC yng nghynlluniau AGSSC a dylid adolygu cefnogaeth IS yn y maes yma. (5.16)

14. Gwasanaethau llyfrgell y Cynulliad (6.29)

    Dylai’r Cynulliad brofi gwerth rhedeg ei wasanaeth llyfrgell ei hun yn Cathays trwy wahodd y Llyfrgell Genedlaethol i gynnig yn erbyn Cytundeb Lefel Gwasanaeth (er ein bod yn awgrymu blaenoriaeth isel i’r pwynt hwn).

    Argymhellir bod Llyfrgell y Cynulliad yn trafod archifo deunydd darllediadau’r Cynulliad gyda AGSSC yn nhermau dewis, storio, a dulliau mynediad cyfredol i bob fformat presennol.

15. Y Cynulliad i ddarganfod a chynghori unrhyw rôl bosib i’r Llyfrgell mewn archifo cofnodion cyhoeddus yng Nghymru. (6.29)

16. Dylai’r Llyfrgell gyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llawn yngln â’i gynlluniau ar gyfer rheolaeth gyfredol o’i gyllid preifat. (5.12)

17. Dylai’r Llyfrgell asesu oblygiadau gwella lefel y catalogio yn AGSSC. (5.16)

# Atodiad C

# Adolygiad Pum Mlynedd - Cylch Gorchwyl

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**

**ADOLYGIAD PUM MLYNEDD - CYLCH GORCHWYL**

**Cyflwyniad**

Cynhelir adolygiad pum mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yng nghyd-destun y Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Pum Mlynedd a gyhoeddwyd gan y Cynulliad. Mae’r Canllawiau yn nodi’r broses ar gyfer cynnal yr adolygiadau. Mae hyn yn cynnwys hunan-asesiad gan y corff noddedig, trafod ag Aelodau’r Cyngor ac uwch reolwyr, ceisio barn y prif gyfranddeiliaid gan gynnwys barn y staff a’r undebau llafur, partneriaid a chwsmeriaid.

Mae’r Cylch Gorchwyl yn nodi’r prif gwestiynau y bydd yn rhaid i’r Adolygiad fynd i’r afael â hwy. Nodir y materion sy’n gyffredin i bob adolygiad yn y Canllawiau, ond mae’r Cylch Gorchwyl hefyd yn nodi materion sy’n benodol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Canlyniad allweddol yr adolygiad hwn fydd un adroddiad, a fydd mewn tair rhan. Bydd rhan gyntaf yr adroddiad sy'n ymwneud â swyddogaethau yn cael ei hystyried yn ystod y cyfnod interim, a hefyd y materion sy'n codi ar gyfer gweddill yr adolygiad.

Cyd-destun yr adolygiad hwn fydd Cynllun Strategol y Cynulliad**, Cynllun I Gymru 2001**, a dogfennau strategol perthnasol y Cynulliad megis *Creative Future: Cymru Greadigol*. Bydd yr adolygiad hefyd yn dwyn i ystyriaeth yr Adolygiad llawn o Reolaeth Ariannol a Pherfformiad a gafodd ei gynnal gan y Swyddfa Gymreig yn 1993/94.

**Rhan 1 - Swyddogaethau**

**Yng ngoleuni gwrthrychau Siarter Llyfrgell Genedlaethol Cymru, amcanion y Cynulliad Cenedlaethol a modelau arfer da mewn mannau eraill, a oes angen holl swyddogaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru bellach, ac os felly, ai'r fframwaith trefniadol presennol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r swyddogaethau hynny?**

- Pa fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli Llyfrgell Genedlaethol Cymru?
- A oes angen holl swyddogaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru bellach?
- A oes angen i Gorff a Noddir gan y Cynulliad gyflawni'r swyddogaethau hyn - a fyddai ffyrdd eraill o gyflawni'r swyddogaethau yn debygol o fod yn fwy effeithiol?
- Ai un corff sydd orau i gyflawni'r swyddogaethau hyn? A oes angen rhannu'r swyddogaethau rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg yng Nghymru?

Rhan 2 - Effeithiolrwydd Strategol

**Yn amodol ar y darganfyddiadau yn yr Adroddiad Interim: a ddylid gwneud unrhyw welliannau i'r ffordd y cyflawnir swyddogaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, o ystyried gwrthrychau ei Siarter, sut y cawsant eu hymgorffori yn nodau ac amcanion y Cynllun Corfforaethol, a gwerthoedd ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol. A oes modd gwella'r ffyrdd y mae'r berthynas rhyngddo â'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio?**

Dylai hyn ystyried unrhyw astudiaethau annibynnol, er enghraifft gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a'r camau a gymerwyd yn dilyn yr Adolygiad o Reolaeth Ariannol a Pherfformiad yn 1993/94.

- Beth fu prif lwyddiannau strategol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ers 1993/94, i ba raddau y mae wedi bodloni ei hamcanion, sut y mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi perfformio yn erbyn ei thargedau, sut y mae ei pherfformiad yn cymharu â pherfformiad cyrff eraill tebyg, a oes angen mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â pherfformiad?
- Pa mor effeithiol yw'r berthynas strategol rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys canllawiau strategol y Cynulliad a threfniadau'r Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer ymateb i amcanion strategol y Cynulliad a'r gwerthoedd a'r themâu sy'n arwain ei waith (gan gynnwys cyfle cyfartal, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a datblygu cynaliadwy)? Sut y gellid eu gwella?
- Pa mor effeithiol yw dulliau cynllunio corfforaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru o safbwynt pennu cyfeiriad strategol clir a phennu targedau a dyrannu

adnoddau yn unol â'r amcanion a'r blaenoriaethau?

- A yw proses cynllunio corfforaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dangos ei bod yn mabwysiadu dull integredig o weithredu wrth fynd ati i gyflawni ei swyddogaethau?
- A oes cyd-ddealltwriaeth effeithiol o ba rôl y mae aelodau’r Cyngor a’r uwch-reolwyr yn ei chwarae wrth bennu amcanion corfforaethol a monitro’r ffordd y cânt eu gweithredu? A yw'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau gan yr aelodau yn glir ac yn effeithlon a'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd ar gyfer y Cyngor a'r rheolwyr yn glir?
- A yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ymateb yn ddigonol i’w phartneriaid a’i chwsmeriaid, a yw'n deall natur ei pherthynas â hwy, a yw’n ennyn eu hyder fel corff y gallant wneud busnes ag ef, a oes ffyrdd o gryfhau’r berthynas?
- A yw’r trefniadau adrodd rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a’r Cynulliad Cenedlaethol yn ddigonol, a oes angen mwy o ryddid a hyblygrwydd ar y Llyfrgell Genedlaethol?

Rhan 3 - Rheolaeth Gorfforaethol

**A yw trefniadau rheoli Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dal i fod yn addas? A yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rheoli ei chyllid yn effeithiol ac yn unol â gofynion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian? Pa gamau y mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi eu cymryd i wella ei effeithlonrwydd gweithredol? Dylai hyn roi sylw i dystiolaeth o fframwaith rheoli presennol y Llyfrgell Genedlaethol, fel y'i nodir yn Atodiad 2 o'r Canllawiau.**

- A yw trefniadau rheoli presennol Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dal i fod yn addas? A yw'r Llyfrgell yn ddigon atebol i'r cyhoedd o ran y gwaith y mae'n ei wneud?
- A yw’r trefniadau cyllid a rheoli rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a’r Cynulliad Cenedlaethol yn bodloni gofynion sefydledig?
- O edrych ar yr adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, a ellir bod yn ffyddiog bod y Llyfrgell yn rheoli ei chyllid yn unol â disgwyliadau’r Cynulliad ar gyfer cyrff cyhoeddus? A yw Pwyllgor Archwilio mewnol y Llyfrgell Genedlaethol yn gweithio'n effeithiol?
- A yw’r Llyfrgell Genedlaethol yn rheoli ei chyllid a’i hasedion yn effeithiol, ac a yw'n mynd ar drywydd materion gwerth am arian, gan gynnwys gwerthuso polisi, gydag arddeliad?
- A yw’r modd y mae’r Llyfrgell Genedlaethol yn cynnal ei busnes yn bodloni'r safonau a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus mewn perthynas ag arferion caffael, bod yn agored a delio â chwynion?
- A yw costau rhedeg a lefelau staffio’r Llyfrgell Genedlaethol yn cael eu rheoli a’u harchwilio? A fyddai’n fuddiol eu cymharu â chostau gweithredol cyrff cyffelyb?
- A oes gan y Llyfrgell Genedlaethol drefniadau da ar gyfer monitro ansawdd ac effeithlonrwydd y modd y mae’n cyflwyno ei gwasanaethau?
- A yw’r Llyfrgell Genedlaethol wedi profi ei bod yn gallu gwella ei heffeithlonrwydd a bod ganddi gynlluniau pendant ar gyfer gwneud hynny?